# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 27 Medi 2022

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol yn Siambr y Cyngor - Penmorfa, Dydd Llun, 3 Hydref 2022 am 10.00 am (toriad i ginio rhwng 12:30 a 13:30) i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Diweddariad ar Ffermydd y Sir (Tudalennau 3 - 8)**

**4. Adroddiad ar Waith Datblygu Asedau/Eiddo Gwag (Tudalennau 9 - 16)**

**5. Adroddiad Blynyddol Canmoliaethau, Cwynion a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2021/2022 (Tudalennau 17 - 54)**

**6. Siarter Troseddau Casineb ar Ddioddefwyr (Tudalennau 55 - 60)**

**7. Strategaeth mynd i'r afael a chaledu (Tudalennau 61 - 80)**

**8. Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi - Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd (Tudalennau 81 - 108)**

**9. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion. (Tudalennau 109 - 114)**

**10. I ystyried Cynllun Gwaith y Dyfodol 2022/2023 (Tudalennau 115 - 118)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

# Eitem Agenda 3

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD i:** | Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 3 Hydref 0222 |
| **LLEOLIAD:** | Hybrid / Siambr y Cyngor |
| **TEITL:** | FFERMYDD SIROL – Diweddariad |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol eisoes wedi ystyried sefyllfa bresennol portffolio ffermydd y Cyngor Sir yng Ngheredigion, gyda'r bwriad o graffu ar bolisi'r Cyngor mewn perthynas â'u datblygiad a'u gweithrediad yn y dyfodol.

Mae'r papur hwn yn ddiweddariad ar y rhaglen waith barhaus i adolygu a datblygu'r ystâd fferm.

## 2. Ystâd Fferm y Cyngor Sir

Mae ystâd fferm y Cyngor Sir yn cynnwys 16 parsel o dir (ynghyd â fferm arall a gedwir gan ymddiriedolaeth Addysg ac a reolir gan y pwyllgor Ymddiriedolwyr elusennol).
Mae chwe fferm neu barsel o dir (5 fferm ac 1 daliad tir moel) yn Denantiaethau Busnes Fferm (FBT) o dan Ddeddf Tenantiaeth Amaethyddol 1995.
Mae saith fferm neu barsel o dir (6 fferm ac 1 tir moel) yn ddaliadau amaethyddol dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.
Mae un parsel (rhandiroedd yn Aberaeron) yn cael eu gosod o dan drwydded, tra bod dau o barseli arall yn anghynaledig. Mae gan dair fferm hawliau olyniaeth ynghlwm â nhw, er bod y rhain i gyd ar denantiaethau sy'n treiglo bob blwyddyn, sydd modd ei ddibennu gan y naill ochr neu'r llall yn dilyn cyfnod rhybudd o 12 mis.

Ar hyn o bryd mae'r ystâd fferm yn creu incwm blynyddol i'r Cyngor o tua £60,000. Tan yn ddiweddar, nid oedd y rhan fwyaf o rhenti ffermydd wedi cynyddu ers dros 10 mlynedd ac fe'u hystyriwyd yn isel o'i gymharu â gwerthoedd tir a rhenti a dalwyd gan denantiaid fferm i berchnogion eiddo preifat. Gellir adolygu rhenti o ddaliadau amaethyddol bob tair blynedd yn unol â Deddfau Tenantiaethau Amaethyddol.

Mae cyfanswm presennol gwerth ystâd y ffermydd ychydig dros £2m o ystyried fod y parseli ar y cyfan o dan lyffethair, gyda'r gwerth dilyffethair yn cael ei roi ar £4.2m.

**3. Casgliadau blaenorol**

Cyflwynwyd y canlynol yn flaenorol i'r pwyllgor craffu fel cynrychiolaeth o'r opsiynau sy'n wynebu CSC mewn perthynas ag ystâd fferm y cyngor. Seilir pob opsiwn ar bolisi o gadw ystâd fferm y Cyngor gyda'r bwriad o chwarae rôl yn cefnogi un o brif ddiwydiannau Ceredigion. Mynegir y polisi a'r uchelgais hwn yn Strategaeth Economaidd CSC 2021-35, a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan Gabinet CSC ym mis Mawrth 2021, sef y bwriad i:

- *'ddefnyddio asedau a sgiliau'r Cyngor Sir yn greadigol i gefnogi cychwyn busnes a thwf (e.e. Canolfan Bwyd Cymru, tir Cyngor etc.)'*
- *'gryfhau / manteisio ar gyfleoedd allweddol ar gyfer ein sectorau allweddol – Bwyd / Ffermio, Agritech etc.'*

Yr opsiynau a nodwyd oedd fel a ganlyn:

*3.1. Gwneud dim / lleiaf posib*

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn buddsoddi symiau bychain o arian, o fewn terfynau'r gyllideb i fynd i'r afael â gofynion brys. Byddai tenantiaethau'n cael eu trosglwyddo i Denantiaethau Busnes Fferm pan fyddant ar gael, h.y. pan fydd ffermydd yn dod yn wag (lle nad oes olyniaeth yn ei le).

*3.2. Yn rhagweithiol ceisio adnewyddu tenantiaethau gyda Tenantiaeth Busnes Fferm newydd.*

Pwrpas dilyn yr opsiwn hwn fyddai sicrhau bod pob fferm yn cael ei defnyddio i'w heffaith fwyaf posibl.

3.3. Opsiwn 3.2. gyda buddsoddiadau pellach i *wneud yr unedau presennol yn fwy hyfyw* a deniadol.

Mae argaeledd cyllid yn debygol o fod yn ffactor cyfyngu.

3.4. Chwilio am ddefnydd arall ar gyfer yr ystâd bresennol lle bo hynny'n bosibl.

Gall yr opsiynau gynnwys buddsoddi mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy neu blannu coed i gynhyrchu incwm a chyrraedd targedau gweithredu newid hinsawdd y Cyngor.

3.5. Gwerthu rhannau o'r ystâd fferm er mwyn buddsoddi mewn gwella rhannau eraill o'r ystâd.

Gall gwerthu rhai ffermydd dilyffethair greu digon o incwm i fuddsoddi mewn unedau eraill a fyddai'n hyfyw, yn fwy unol â maint cyfartalog ffermydd yng Nghymru, ac felly yn fwy unol ag amcan i ddarparu cyfleoedd hyfyw i ffermwyr ifanc gael profiad a sefydlu gyrfa / busnes yng Ngheredigion.

3.6. Gwerthu rhan o'r ystâd er mwyn sefydlu nifer fach o unedau fferm arddangos.

Byddai'r opsiwn hwn yn ceisio cyflawni amcan y Cyngor o helpu ffermwyr newydd i ennill profiad o ffermio mewn ffordd wahanol. Efallai y bydd ffermwyr ifanc yn cael cynnig prentisiaethau i weithio ar fentrau fferm sy'n eiddo i'r cyngor ac sy'n gwasanaethu hefyd i ddangos potensial technolegau ac arloesedd newydd (gan

weithio gydag Aber Innovation a phartneriaid eraill). Byddai hwn hefyd yn gaffaeliad i fusnesau fferm presennol yng Ngheredigion weld technolegau newydd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu rhoi ar waith.

Ar gyfer pob un o'r opsiynau a amlygwyd, mae goblygiadau ariannol, cyfreithiol a gweithredol y byddai angen eu dadansoddi ad eu hystyried, yn dibynnu ar y cyfeiriad y byddai'r Cyngor yn dymuno ei gymryd wrth archwilio'r cyfeiriad strategol.

## 4. Materion cyfredol yn ymwneud â'r ffermydd cyngor

### 4.1. Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu, adroddwyd ei bod yn debygol y byddai rheolaeth newydd Rheoliadau Llygredd Amaethyddol gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith ar y ffermydd.

Y tenantiaid fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r rheoliadau drwy eu harferion rheoli; fodd bynnag bydd angen buddsoddi mewn seilwaith storio slyri er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau mewn o leiaf dwy fferm.

Mae'r ddwy uned - y ddwy fferm laeth – yn gorfod dangos cynlluniau i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y rheoliadau. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r ddau fusnes i gynllunio'r buddsoddiad fydd ei angen i'w helpu i gwrdd â'r dyddiad cau ym mis Awst 2024.

### 4.2. Newidiadau i statws ffermydd yn y portffolio

Bydd pedair o'r unedau sy'n destun Tenantiaeth Busnes Fferm yn cyrraedd diwedd eu cyfnod cytundeb tenantiaeth presennol dros y pedair blynedd nesaf (un yn flynyddol o 2023).

Mae tenant uned arall, sy'n destun Tenantiaeth Amaethyddol ar hyn o bryd wedi rhoi rhybudd i ildio'r denantiaeth, ac o'r herwydd fe fydd yn dod yn wag ddiwedd mis Medi.

Fel y nodwyd eisoes, bydd y dull arfaethedig ym mhob achos yn cael ei yrru gan y polisi cyffredinol o gadw'r unedau a chwilio am ffyrdd o'u gwneud yn fwy hyfyw, o bosibl yn cynhyrchu mwy o incwm neu fel arall yn helpu i gyflawni amcanion Corfforaethol.

Wrth benderfynu ar ddefnydd y ffermydd yn y dyfodol wrth iddynt ddod at ddiwedd tymor Tenantiaeth Busnes Fferm, bydd pob uned yn cael ei harchwilio i ganfod cyfleoedd ar gyfer:

4.2.1. datblygu opsiynau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy (i weithredu ochr yn ochr â busnes y fferm)

4.2.2. Cyflawni mesurau lliniaru ffosffad (e.e. ffensio cyrsiau dŵr, plannu coed, gosod corsleoedd)

4.2.3. Opsiynau arallgyfeirio a all ddod yn rhan o'r 'cynnig' i denantiaid newydd.

4.2.4. Cydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Trinity St. Davids i ddarparu cyfleoedd ymestyn ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu sy'n cael ei wneud (e.e. ar arferion fferm / amaeth-dechnoleg neu amaethyddiaeth adfywiol). Gall hyn fod yn ddibynnol ar y gallu i gael mynediad at ffrydiau ariannu refeniw drwy Gronfeydd Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), y mae rhaglen wedi'i chynnwys yn y cynigion drafft ar eu cyfer).

**5. Tenantiaethau yn y dyfodol**

Er mwyn hwyluso'r datblygiad hwn, bydd dull CSC o ddenu tenantiaid newydd yn seiliedig ar gyfleoedd tendro, lle gofynnir i denantiaid posibl gyflwyno cynllun busnes, fel y gwnaed yn flaenorol, ond dangos hefyd sut y gellir cyflwyno'r amcanion ar gyfer yr uned ochr yn ochr â'r busnes ffermio craidd, er mwyn bodloni hyfywedd a heriau corfforaethol.

Mae camau felly wedi'u cymryd yn erbyn y polisi presennol, a thrwy hynny rhai o'r opsiynau a ystyriwyd yn flaenorol.

| | |
|---|---|
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | **Rhannu cynnydd ar y gwaith o ddatblygu opsiynau i rwydwaith Fferm y Cyngor.** |
| **Y RHESWM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **I ystyried anghenion strwythur ein Ffermydd Sirol er mwyn iddyn nhw allu aros yn hyfyw** |

**CEFNDIR: Mae aelodau ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gofyn am ragor o wybodaeth am Ystâd Fferm y Sir, ac effaith rheoliadau Amgylcheddol newydd, ac wedi gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd.**

**SEFYLLFA BRESENNOL:** Mae'r papur hwn yn nodi'r cynnydd diweddaraf, opsiynau ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys rhwydwaith ffermydd y Cyngor i lywio'r drafodaeth a galluogi Pwyllgor Craffu i roi adborth yn y broses.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A yw Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os, ddim, nodwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddiad:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cyfranogiad:**<br>**Ataliad:** | D/A – byddai hyn yn cael ei gwblhau lle mae asesiadau manwl pellach ar yr opsiynau yn cael eu datblygu |

**ARGYMHELLIAD (AU): Bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried yr adroddiad ac yn darparu cyfeiriad addas i'w ystyried a'i weithredu.**

**RHESWM AM ARGYMHELLIAD (AU):**

Helpu i sicrhau bod y buddsoddiadau priodol yn cael eu gwneud i ddiogelu asedau'r Cyngor i'r dyfodol ac i sicrhau hyfywedd y ffermydd yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Russell Hughes-Pickering, Arwyn Davies |
| **Teitl:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 26 Medi 2022 |
| **Acronymau:** | |

**Atodiadau:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 4

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 03.10.2022 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron. |
| **TEITL:** | Diweddariad ar waith Datblygu Asedau / Eiddo gwag |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Diweddaru'r Pwyllgor Craffu ar y rhaglen i ddatblygu asedau Cyngor Sir Ceredigion |
| **Y RHESWM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | I gael diweddariad. |

**CEFNDIR:**

***Cyd-destun Strategol***

Mae Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn selio datblygiad ei bortffolio o asedau ar y Strategaeth Gorfforaethol, a'r Strategaeth Economaidd a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021 fel ei fframwaith ar gyfer gweithredu i gefnogi twf economaidd yng Ngheredigion. Mae'r strategaeth hefyd yn pennu'r cyd-destun i wneud penderfyniadau ar weithgareddau i gefnogi twf economaidd yng Ngheredigion.

Mae un o'r pedair piler gweithredu o fewn y Strategaeth Economaidd yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau mwy effeithiol o gefnogi twf economaidd drwy'r defnydd o asedau CSC ac asedau cyhoeddus / preifat eraill ar draws y Sir. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys:

- Gweithio tuag at ddatblygu ein harbyrau strategol.
- Gweithio gyda phartneriaid ym mhob un o'r trefi i wireddu uchelgeisiau sydd wedi'u gyrru'n lleol i gefnogi datblygiad y trefi ar draws tair rhanbarth y Sir.
- Ceisio cyfleoedd i ddatblygu safleoedd cyflogaeth strategol yng Ngheredigion
- Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio asedau'r Cyngor a chydweithio gyda pherchnogion asedau eraill i hybu'r cyflenwad tai fforddiadwy yng Ngheredigion
- Rhoi cyfleoedd i wella, ac annog mynediad at, asedau gwyrdd yng Ngheredigion.

Ar draws pob un o'r camau hyn, fe fu, a bydd cyfleoedd yn dod i'r amlwg i fanteisio ar y sylfaen o asedau corfforol a gwyrdd sydd gan CSC, fel bod yr asedau yr ydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli yn:

- cyflawni'n hamcanion corfforaethol yn fwy effeithiol
- yn cyfrannu yn fwy helaeth at incwm net ar gyfer CSC, er enghraifft drwy brydlesi, rhenti a chodi ffioedd llogi / trwyddedu asedau ar gyfer gweithgaredd tymor byr.

***Dull gweithredu ac adnoddau.***

Gellir cyflawni'r amcanion a nodir uchod, yng nghyd-destun asedau CSC, yn un o'r ffyrdd canlynol:

i. Buddsoddi mewn asedau presennol i'w gwneud yn fwy marchnadwy ac yn ymateb i'r galw presennol.
ii. Buddsoddi mewn asedau i gyflawni amcanion corfforaethol ehangach neu mewn ymateb i'r angen lleol cydnabyddedig (er enghraifft fel y'i mynegir mewn cynllun lle)
iii. Caffael asedau newydd sy'n galluogi CSC i gyflawni ei Amcanion Corfforaethol, gan gynnwys er enghraifft, buddsoddiadau i wella canol trefi (a ategir gan waith cynllunio lleoedd) ac i wella cyfleoedd cyflogaeth.

I gyflawni hyn, mae CSC yn defnyddio'r canlynol:

i. ei gyllid cyfalaf ei hun fel rhan o'r rhaglen gyfalaf
ii. Rhaglenni ariannu cyfalaf sydd wedi eu sicrhau yn allanol (e.e., Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU)
iii. Cyllid refeniw o ffynonellau allanol i dalu costau datblygu proffesiynol prosiectau.
iv. Ei adnoddau staff ei hun ar gyfer rheoli cynlluniau / rhaglenni.

Mae’n rhaid blaenoriaethu o fewn y rhaglen, ac felly mae penderfyniadau ar sut i rannu adnoddau dynol yn cael ei gwneud ar sail:

i. y rhestr gyfredol o asedau nad sydd mewn defnydd, sydd ar hyn o bryd yn wag neu'n cael eu tanddefnyddio. Mae'r rhestr hon yn destun ymgynghoriad mewnol i benderfynu a oes defnyddiau amgen addas ar gyfer yr asedau hyn.
ii. yr amcanion corfforaethol a nodir uchod, a graddfa'r effaith sydd modd ei gyflawni trwy'r gweithredu.
iii. Argaeledd, ac amserlenni cysylltiedig, a gyfer ffynonellau cyfalaf allanol a ffrwd refeniw.

**Gwaith ers Mawrth 2020**

Mae'r 10 prosiect canlynol yn cynrychioli blas o’r rhaglen waith mae swyddogion wedi bod yn gweithio arnyn nhw sy’n benodol yn ymwneud ag asedau CSC.

| Prosiect | Cefndir cryno a rhesymeg | Statws Presennol |
|---|---|---|
| Gwaith i gyflawni prosiect Cronfa Ffyniant Bro (Levelling Up) Aberystwyth | Rhaglen £10.8m i wella Harbwr Aberystwyth, Prom y De a'r Hen Goleg i hyrwyddo Aberystwyth ymhellach fel cyrchfan i ddenu ymwelwyr. Fel rhan o'r rhaglen, bydd y buddsoddiad yn gweld gwelliannau i asedau CSC trwy fuddsoddiadau yn yr harbwr ym mhontŵns a chyflwyno cynlluniau ailddatblygu ar gyfer y garejis ger yr harbwr. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys pont newydd i wella cysylltedd rhwng rhannau allweddol o seilwaith yr harbwr â'r dref. Fe ddaeth y cyfle yn sgil argaeledd Cronfeydd Ffyniant Bro Llyworaeth y DU, ac fe gyflwynodd y | Cytundebau ariannu yn eu lle neu'n cael eu cwblhau gyda phartneriaid prosiect. Gwaith arolwg a gwaith datblygu cysyniad cynnar ar y gweill ar gyfer safle'r garejis. |

| | | |
|---|---|---|
| | CSC gais cystadleuol llwyddiannus ar ei gyfer. | |
| Datblygiad strategol Harbwr Aberaeron | Datblygu rhaglen fuddsoddi gwerth tua £11m i ddatblygu isadeiledd yr Harbwr yn harbwr Aberaeron i greu Marina, ac i greu cyfle i fuddsoddi ymhellach yn yr ardal gyfagos. Mae hyn yn fuddsoddiad arfaethedig gan Fargen Dwf Canolbarth Cymru. Mae'n un o'r camau allweddol a nodir yn y Strategaeth Economaidd. | Mae cam cynnar y datblygiad – Achos Amlinellol Strategol manwl ar gyfer buddsoddi wedi'i gyflwyno i'w ystyried gan y Swyddfa Raglen a Bwrdd y Fargen Dwf. |
| Datblygu'r Ganolfan Arloesi Gweithgynhyrchu yn Horeb | Buddsoddiad o £10 miliwn + yng Nghanolfan Fwyd Cymru i ddatblygu cyfleuster unigryw fydd yn galluogi datblygu o leiaf 5 o fusnesau bwyd newydd o faint canolig, arloesol yng Nghanolbarth Cymru. Byddai'r datblygiad yn cael ei leoli ar ystâd Parc Busnes Horeb, cartref Canolfan Bwyd Cymru, ar dir a brynwyd gan CSC yn 2019 | Mae cam cynnar y datblygiad – Achos Amlinellol Strategol manwl ar gyfer buddsoddi wedi'i gyflwyno i'w ystyried gan y Swyddfa Raglen a Bwrdd y Fargen Dwf. |
| Ailddatblygu Neuadd Marchnad Aberteifi, Aberteifi | Mae hwn yn adeilad eiconig yn Aberteifi, sy'n eiddo i CSC ac yn cael ei osod ar brydles i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi, sy'n rheoli ailddatblygiad mawr er mwyn gwella seilwaith yr adeilad a darparu gwell hygyrchedd. Ystyrir hwn yn brosiect allweddol yn Aberteifi. Mae'r neuadd, yn ogystal â bod yn adeilad eiconig mewn lleoliad amlwg yng nghanol y dref, wedi bod yn ddylanwadol wrth roi cyfle i fusnesau newydd fasnachu, cyn symud i fannau manwerthu yng nghanol y dref. Mae hyn yn cael ei weld yn gyffredinol fel rhan lwyddiannus o ddatblygiad y dref yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol gan CSC, yn ogystal ag amrywiaeth o ffynonellau eraill. | Mae dau gam i'r prosiect – gwella'r bloc mynediad ac ailddatblygu'r brif neuadd, ac mae'r ddau gam yn mynd yn eu blaenau'n gydamserol ar hyn o bryd. Anelir i orffen y gwaith i raddau helaeth erbyn canol y flwyddyn nesaf. |
| Caffael 10 / 11 Sgwâr Harford, Llanbedr Pont Steffan | Dyma safle hen siop Spar yn Llambed, oedd wedi aros yn wag ers i Spar gau ei drysau yn 2017. Fe ystyriwyd y adeilad yn lleol, a gan y Cyngor Sir, fel safle allweddol i'r dref a fyddai'n cael effaith andwyol pe bai'n aros yn wag yn yr hir dymor. Cododd cyfle i sicrhau cyllid i brynu'r eiddo er mwyn ei ail-bwrpasu a dod ag ef yn ôl i ddefnydd masnachol / preswyl hyfyw. | Mae rhagor o arolygon wedi'u gwneud ar yr eiddo ers ei brynu, ac mae diddordeb allanol wedi bod i wneud defnydd o'r gofod ar y llawr gwaelod. Bydd cynlluniau pellach yn cael eu datblygu i alluogi'r defnydd o'r lloriau uchaf hefyd. Byddai disgwyl |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhywfaint o oedi oherwydd gofynion lliniaru ffosffad. |
| Caffael hen adeilad Gwaith Print, Llandysul | Nodwyd hyn yn lleol, trwy waith cynllunio lleoedd fel lleoliad delfrydol ar gyfer adfywio i ddarparu gofod cymunedol / digwyddiadau canol tref yn y dyfodol yn ogystal â lleoliad i fusnesau newydd allu sefydlu yng nghanol y dref.<br>Fe ddaeth cyfle i brynu'r adeilad a'r maes parcio cyfagos gyda'r bwriad o ddatblygu'r cysyniad ymhellach. | Nid yw'r gwaith cynllunio / datblygu manwl eto wedi dechrau. Cafodd ymgynghorwyr eu penodi, fydd yn gweithio gyda'r gymuned leol i adeiladu ar y gwaith cynllunio lle er mwyn mireinio'r syniadau ar gyfer y gofod ymhellach. |
| Adnewyddu 11 a 52 Ffordd y Môr, Aberystwyth | Dyma ddau eiddo yn Aberystwyth sydd ym mherchnogaeth CSC, ac sydd wedi cael eu hail-bwrpasu, eu hadnewyddu a'u haddurno'n ddiweddar, ac sydd bellach yn ôl ar y farchnad. Mae diddordeb cynnar yn awgrymu bod y galw am y math hwn o eiddo yn parhau'n gryf, a byddem yn disgwyl sicrhau rhent sy'n gymesur â'r farchnad, ar gyfer eiddo sydd bellach o safon uwch. | Mae eiddo pellach hefyd yn cael eu datblygu. Mae un adeilad, sef hen adeilad y Gwaith Nwy ar Goedlan y Parc wedi denu diddordeb gan denant arfaethedig, sydd yn ei dro wedi sicrhau cyllid rhaglen Trawsnewid Trefi i fuddsoddi yn yr eiddo. |
| Gwelliannau i asedau tir i ddiogelu gwerth a galluogi datblygu yn y dyfodol | Gweithgaredd lefel gymharol isel yw hwn sy'n anelu at ddiogelu ardaloedd tir sy'n eiddo i CSC, ac i wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i wella'r cyfle i'w marchnata'n llwyddiannus neu eu gwneud yn fwy addas ar gyfer defnyddiau blaenoriaeth gorfforaethol ehangach. | |
| Ad-drefnu a phlannu ym Mhwll Cam a phlannu ger llwybrau newydd yng Ngerddi Wellington, Aberaeron.<br>Prosiect Seilwaith Gwyrdd – Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan | Sicrhawyd cyllid allanol i gyflawni un o'r amcanion lleol i wella'r amgylchedd o fewn canol trefi Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan trwy isadeiledd gwyrdd gwell. Prosiectau cymharol fach oedd y rhain cafodd eu croesawu'n lleol fel rhan o wella mannau gwyrdd yn y dref. | |
| Targedu eiddo ar y cynllun gweithredu Eiddo Gwag (gweler isod) i gefnogi cyfleoedd tai. | Mae CSC, gyda chefnogaeth tîm adfywio Llywodraeth Cymru, wedi datblygu cynllun gweithredu Eiddo Gwag, sy'n rhestru blaenoriaethau eiddo ar draws y Sir, ar sail eu bod wedi sefyll yn wag neu eu tan-ddefnyddio peth amser ac felly'n cael | Mae gwaith yn parhau gyda'r gwasanaeth Tai i adnabod eiddo posibl, ar gofrestr yn y cynllun eiddo gwag, y gellid ei |

| | | |
|---|---|---|
| | effaith niweidiol ar y dreflun. Sicrhawyd cyfleoedd ariannu amrywiol i gaffael eiddo lle gellir adnabod defnydd hyfyw arall. Un ffynhonnell yw'r gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau gan Lywodraeth Cymru | ddefnyddio'n fel eiddo preswyl. |

Mae'r tîm hefyd yn ymwneud â phrosiectau eraill, sy'n cynnwys asedau y tu allan i reolaeth CSC, ond sy'n cyflawni'r amcan corfforaethol o gefnogi datblygiad canol tref, yn benodol drwy gefnogaeth uniongyrchol i bartneriaid preifat neu gyhoeddus wrth gael mynediad at gyllid grant, megis cronfeydd Trawsnewid Trefi, cyllid Ffyniant Bro a chronfeydd Adnewyddu Cymunedol (a chronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF)).

***Galw***

Mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa dda i ddeall lle mae'r galw am asedau masnachol ar hyn o bryd, a defnyddir y wybodaeth hon i lywio trafodaeth ynghylch datblygu portffolio asedau CSC ymhellach (fel y'i disgrifir yn gryno isod).

Byddai patrymau'r galw presennol yn awgrymu:

- Mae llai o alw am ofod adwerthu mawr, canol trefi
- Ar hyn o bryd mae'r galw'n parhau'n iach i eiddo canol tref llai, (y tu allan i Barth A).
- Mae'r galw am safleoedd / asedau cyflogaeth ddiwydiannol / masnachol yn gymharol uchel ac ar y cyfan heb ei ddiwallu, gan mai ychydig iawn o argaeledd eiddo diwydiannol neu dir sydd ar gael yn hawdd ac yn hyblyg i alluogi busnesau i dyfu.

***Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag***

Fel y disgrifiwyd yn fyr yn y tabl uchod, mae CSC, gyda chymorth ymgynghorydd arbenigol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, wedi datblygu cynllun gweithredu Eiddo Gwag yn ddiweddar.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Rhaglen Gorfodi Eiddo Gwag ac mae'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag eiddo gwag sy'n pennu blaenoriaethau a thargedau i'w datblygu. Mae agenda Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn galluogi ffocws ar ganol trefi drwy Gronfa Rheoli Eiddo Gwag. Mae'r pecyn cymorth ariannol ar gael i Awdurdodau Lleol sy'n dymuno cymryd camau gorfodi ar eiddo gwag amlwg yng nghanol trefi.

Mae'r gronfa yn rhaglen fenthyciadau 15 mlynedd (cronfa dreigl) gan Lywodraeth Cymru, sy'n ad-daladwy'n llawn ar ddiwedd y cyfnod. Dim ond ar gyfer eiddo gwag canol trefi y mae'r cyllid ar gael.

Mae mynediad i'r gronfa hon ar gael i bob Awdurdod Lleol a fynychodd gwrs Gorfodi Eiddo Gwag ac a luniodd eu cynllun gweithredu lleol eu hunain ar gyfer delio ag eiddo sy'n wag ers amser maith.

Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol at ffynonellau cyllid eraill sy'n bodoli eisoes ac sydd eisoes ar gael i fwrw ymlaen â chamau gweithredu ar eiddo gwag, sy'n cynnwys:

• Troi Tai'n Gartrefi - Benthyciadau Eiddo Gwag
• Benthyciadau ar gyfer Gwella Tai

• Cynllun Lesio’r Sector Rhentu Preifat
• Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau – 2M (i’w wario yn 22-23 i brynu eiddo gwag a chynorthwyo i’w hadnewyddu.).
• Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi Canolbarth Cymru Thematig: Uchafswm o £250k ar gael (gydag ymyriad o 70%).

**Llif gwaith yn y dyfodol**

***Prosiectau strategol***
Bydd y prosiectau a'r rhaglen a ddisgrifiwyd eisoes yn cymryd cryn dipyn o'r adnodd staff sydd ar gael i'w cyflawni'n effeithiol. Cyn hir, bydd y gwasanaeth yn recriwtio mwy o staff i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r rhaglen uchelgeisiol a nodir yn effeithiol, a fydd yn sicrhau enillion economaidd sylweddol i CSC.

Bydd ein rhaglen strategol yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan brosiectau refeniw i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer canol trefi, a gweithredu ar y weledigaeth – bydd cyfleoedd newydd yn dod i’r amlwg, a bydd angen gweithredu i sicrhau ffrydiau ariannu i'w gwireddu.

***Sicrhau cydbwysedd asedau***
Yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld o ran patrymau galw (er gall hyn newid, o ystyried y pwysau economaidd cyfredol sy'n dod i'r amlwg), gallwn weld nad yw ein asedau yn cyd-fynd yn llwyr â’n blaenoriaethau economaidd allweddol. Mae hyn yn rhywbeth y dymunwn weithredu drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, cyllidwyr eraill a phartneriaid strategol ledled y bartneriaeth gyhoeddus a phreifat.

Rydym yn gwybod bod prinder penodol o ofod diwydiannol / masnachol ar draws ystod o sectorau, ac mae hyn yn cael ei weld gan lawer o gyflogwyr fel ffactor sy’n cyfyngu ar dwf.

***Gwaredu / Datblygu asedau.***
Mae gan CSC hefyd restr gymharol hir o dros 40 o asedau sydd naill ai'n wag, heb eu defnyddio ar hyn o bryd, dros ben i ofynion neu safleoedd posib ar gyfer datblygu (Atodiad 1).

Mae rhywfaint o waith paratoi eisoes wedi'i wneud ar sut y gellid defnyddio rhai o'r asedau hyn i gyflawni uchelgeisiau ehangach y Cyngor, e.e.:

- hwyluso mynediad i dai fforddiadwy i bobl leol (e.e., lleiniau Ciliau Aeron)
- archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu unedau byw / gwaith (sydd wedi'u cysylltu'n benodol ag ysgolion gynt, lle na nodir defnydd cymunedol lleol)

**Asesu blaenoriaethau**.
Yng ngoleuni'r blaenoriaethu a roddir i'r prosiectau mwy, strategol, mae'r gwaith yn y safleoedd hyn wedi bod yn symud yn arafach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar yr asedau mwy strategol a fydd yn sicrhau buddion economaidd mwy sylweddol, tra'n blaenoriaethu asedau eraill ar sail y rhai a all gyflawni yn erbyn yr amcanion corfforaethol ehangach. Ar gyfer asedau eraill, lle na ellir adnabod unrhyw ddefnydd hyfyw arall addas neu lle nad oes budd amlwg i gadw'r ased yn y tymor hir, efallai y byddwn yn ceisio awdurdod i'w gwaredu, gyda'r gymeradwyaeth ddemocrataidd briodol.

**A yw Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau?** Oes, dyddiedig 04.02.20.

***Crynodeb:***

**Tymor hir:** Bydd datblygu safleoedd yn helpu i hwyluso cyfleoedd buddsoddi yn y Sir, a fydd yn ei dro yn darparu cyfleoedd gwaith, cryfhau ymdeimlad o le a chyfrannu at yr economi leol.

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

**Integreiddio:** Bydd datblygu safleoedd/adeiladau/tir yn helpu i fod o fudd i'n heconomi leol ac yn creu ymdeimlad o le yn ein Trefi, gan gael effaith gadarnhaol ar ble rydyn ni'n byw.

**Cydweithredu:** Mae'r Polisi Datblygu Asedau 2020 yn ceisio gweithio'n gyfannol gyda phob maes gwasanaeth o'r Cyngor; yn allanol, lle bo hynny'n briodol, gyda Chymdeithasau Tai, datblygwyr y sector Cymunedol a Phreifat Lleol i ailddatblygu safleoedd.

**Ymwneud:** Bu ymwneud helaeth â chymunedau lleol ar draws y Sir (yn y chwe thref) wrth baratoi cynlluniau lleoedd, ac mae deialog barhaus i ddatblygu'r meddylfryd ymhellach ac i fewnbynnu i ddatblygiad y trefi,
**Atal:** Mae ymyrraeth amserol a buddsoddi mewn eiddo yn osgoi costau pellach i lawr y lein ac yn helpu i greu amgylcheddau mwy cadarnhaol mewn trefi.

**ARGYMHELLIAD (S):** Am wybodaeth.

**RHESWM DROS ARGYMHELLIAD (AU):** Er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Russell Hughes-Pickering** |
| **Teitl:** | **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 27.09.2022 |

**Atodiadau: Atodiad 1 Rhestr Gweithio Datblygu Asedau**

| Asset Development - Working List | | | | | | | 22.09.2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Stratigic Site | | Urban / Rural Service Centre / Linked Settlements | Geographic area | UPRN | Site Location | LDP Candidate site ref: | Site in Teifi Phosphate Catchment area (SAC) |
| | 1 | USC: 03 Aberystwyth | North | B00025000 | 12 Cambrian Place, Aberystwyth | ---------------------- | |
| | 2 | USC: 03 Aberystwyth / Llanbadarn Fawr | North | E02304000 | Cwmpadarn School, Llanbadarn Fawr | Submitted by JS Sep 2019 Ref: CS00255 | |
| | 3 | USC: 03 Aberystwyth / Waunfawr | North | C00910000 | Hafan Y Waun, Waunfawr | Submitted by AH Sep 2019 Ref: CS00214 | |
| | 4 | USC: 03 Aberystwyth | North | B00211000 | Riverside Terrace, Aberystwyth | ---------------------- | |
| | 5 | USC: 03 Aberystwyth | North | D06294000 | Arriva Site | JS Submitted Sep 2019 Ref: CS00TBC | |
| | 6 | USC: 03 Aberystwyth | North | B00164000 | 11 Terrace Road, Aberystwyth | ---------------------- | |
| | 7 | USC: 03 Aberystwyth | North | ---------------------- | Aberystwyth Prom Development Land, Victoria Terrace | ---------------------- | |
| | 8 | USC: 03 Aberystwyth / Penparcau | North | H12653000 | Land adj. to Ysgol Llwyn Yr Eos, Penparcau | ---------------------- | |
| | 9 | USC: 03 Aberystwyth | North | J01391000 | Aberystwyth Harbour & Surrounds, Aberystwyth. | Submitted by AH Sep 2019 Ref: CS00217 | |
| | 10 | RSC: 09 Bow Street | North | B09050000 | Tregerddan, Bow Street site | ---------------------- | |
| | 11 | RSC: 14 Llanilar | North | HGLND08709 | Gwarfelin Llanilar, Aberystwyth | JS Submitted Sep 2019 Ref: CS00254 | |
| | 12 | RSC: 14 Llanilar | North | B24082000 | Llanilar Station Yard | ---------------------- | |
| | 13 | RSC: 18 Penrhyncoch | North | HLND13553 | Maes Seilo, Penrhyn-coch | ---------------------- | |
| | 14 | RSC: 21 Talybont | North | H10817000 | Maes y Deri, Talybont | JS Submitted Sep 2018 Ref: CS00122 | |
| | 15 | USC: 01 Aberaeron | Mid | tbc | Pengarreg Farm, Aberaeron | Submitted by JS Sep 2019 Ref: CS00246 | |
| | 16 | USC: 01 Aberaeron | Mid | D06401000 | North Beach Kiosk + Land, Aberaeron. | Submitted by JS Sep 2019 Ref: CS00249 | |
| | 17 | USC: 01 Aberaeron | Mid | No UPRN Retained land from ST | Oxford Street, Aberaeron. | ---------------------- | |
| | 18 | USC: 01 Aberaeron | Mid | J01392000 | Aberaeron Harbour, Yacht Club + Car Park, Aberaeron. | Submitted by JS Sep 2019 Ref: CS00248 | |
| | 19 | USC: 05 Lampeter | Mid | B09127000 | Maes y Deri, Lampeter | JS Submitted Sep 2018 Ref: CS00123 | |
| | 20 | USC: 05 Lampeter | Mid | tbc | 10/11 Harford Square, Lampeter | ---------------------- | |
| | 21 | USC: 07 Tregaron | Mid | ---------------------- | Land at Min y Gors, Tregaron. | ---------------------- | |
| | 22 | USC: 07 Tregaron | Mid | ---------------------- | Land to the south of Bryntirion, Tregaron, | ---------------------- | |
| | 23 | USC: 07 Tregaron | Mid | E02356000 | Former Tregaron Primary School, Tregaron. | Submitted by AnH Sep 2019 Ref: CS00222 | |
| | 24 | RSC: 15 Llanon | Mid | HGLND08701 | Hafan yr Efail, Llanon | JS Submitted Sep 2018 Ref: CS00124 | |
| | 25 | RSC: 15 Llanon | Mid | B09041000 | Old Cow Shed, Llanon | ---------------------- | |
| | 26 | USC: 02 Cardigan | South | C00622000 | Former Meugan Centre, Cardigan | ---------------------- | |
| | 27 | USC: 02 Cardigan | South | BO9528000 | Old builders store, Morgan Street Car Park, Cardigan | ---------------------- | |
| | 28 | USC: 02 Cardigan | South | ---------------------- | Feidrhenffordd Land, Cardigan. | ---------------------- | |
| | 29 | USC: 04 Newcastle Emlyn | South | B09527000 | Brynderwen Offices Adpar | ---------------------- | |
| | 30 | USC: 04 Newcastle Emlyn | South | " | Former Depo + land to rear of Derwen Gardens, Adpar. | Submitted by JS Sep 2018 Ref: CS00125 | |
| | 31 | USC: 06 Llandysul | South | E04059000 | County Playing field, Llandysul. | JS Submitted Sep 2018 Ref: CS00115 | |
| | 32 | USC: 06 Llandysul | South | tcb | Former Teifi Units, Llandysul. | ---------------------- | |
| | 33 | RSC: 08 Aberporth | South | J01377000 | Brynglas, Aberporth | JS Submitted Sep 2018 Ref: CS00120 | |
| | 34 | RSC: 10 New Quay | South | HGLND08715 | Land next to Afon Evan, New Quay | Submitted by JS Sep 2019 Ref: CS00253 | |
| | 35 | RSC: 10 New Quay | South | No UPRN | New Quay Shelter, New Quay | ---------------------- | |
| Linked Settlements Sites | | | | | | | |
| | 36 | Linked Settlement to USC: 01 Aberaeron | Mid | No UPRN Retained land from ST | Parc yr Hydd, Ciliau Aeron | ---------------------- | |
| | 37 | Linked Settlement to USC: 03 Aberystwyth | North | HGLND08706 | Brongwinnau, Comins Coch | JS Submitted Sep 2018 Ref: CS00117 | |
| | 38 | Linked Settlement to RSC: 12 Felin Fach | Mid | E02284000 | Former Cilcennin Primary School. | ---------------------- | |
| | 39 | Linked Settlement to USC: 04 Newcastle Emlyn | South | E02320000 | Former Beulah Primary School. | ---------------------- | |
| | 40 | Linked Settlement to USC: 04 Newcastle Emlyn | South | E02345000 | Former Trewen Primary School. | ---------------------- | |
| | 41 | Linked Settlement to USC: 06 Llandysul | South | H14151000 | Llys Cerdin, Ffostrasol | ---------------------- | |
| | 42 | Linked Settlement to RSC: 08 Aberporth | South | B09213000 | Llangrannog Car Park | ---------------------- | |

Eitem Agenda 5

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 3 Hydref 2022 |
| **LLEOLIAD:** | Hybrid/Siambr y Cyngor |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth – 2021/2022 |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol o'r Sylwadau o Ganmoliaeth, y Cwynion a'r gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth (gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn ystod 2021 - 2022. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am gwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2021/2022. Mae copi o Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon, dyddiedig 9 Awst 2022, wedi'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn. |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Er gwybodaeth cyn cyflwyno'r adroddiad yng nghyfarfod y Cabinet ar 1 Tachwedd 2022. |

**CEFNDIR:**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â gwaith Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae'r adroddiad ei hun (sy'n cyd-fynd â'r adroddiad blaen hwn) wedi'i gynnwys yn Atodiad 1, sy'n cynnwys gwybodaeth benodol am nifer a math y sylwadau o ganmoliaeth a dderbyniwyd, gwahanol gamau'r weithdrefn gwynion, perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â'r rhain a gwybodaeth am gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Ceir adran hefyd ar y cysylltiadau a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon at y Cyngor wedi ei gynnwys yn Atodiad 2, sy'n rhoi manylion pellach ar waith yr Ombwdsmon ar gyfer Ceredigion, yn ogystal ag ar gyfer Cynghorau eraill ar draws Cymru.

**Dyma'r trydydd adroddiad yn olynol lle na chafodd unrhyw ymchwiliadau eu cychwyn nac unrhyw adroddiadau ffurfiol eu cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor**. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon, yn ogystal ag achosion a gaewyd yn dilyn ymyrraeth yr Ombwdsmon (h.y. cytundebau 'Datrys yn Gynnar').

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu sawl her a brofwyd yn ystod y cyfnod adrodd h.y. cymhlethdod y cwynion a dderbyniwyd, cynnydd cyffredinol yn dilyn y pandemig mewn cwynion, Rhyddid Gwybodaeth, atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon ac atgyfeiriadau at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ei hun. Mae'n anochel fod yr heriau hyn wedi effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion perfformiad o ran amserlenni penodedig, sydd wedi arwain at fwy o gysylltiadau gan yr Ombwdsmon a'r ICO.

Trosolwg byr o'r holl weithgarwch a reolwyd gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ystod 2021-2022:

- ↓ 224 o Sylwadau o Ganmoliaeth wedi dod i law
- ↓ 357 o Ymholiadau wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- ↑ 133 o Gwynion wedi dod i law: Cam 1 = 73 Cam 2 = 60
- ↑ 52 'o 'Gysylltiadau' gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- ↑ 780 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

**Crynodeb**

- Cafwyd llawer llai o sylwadau o ganmoliaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn (gostyngiad o 72%). Gall y gostyngiad hwn gael ei liniaru yn rhannol gan y mewnlifiad enfawr o sylwadau o ganmoliaeth a dderbyniwyd yn 2019-2020 (cynnydd o 50% ar y flwyddyn flaenorol). Gallai sawl ffactor fod wedi effeithio ar allu'r Cyngor i gasglu sylwadau o ganmoliaeth, gan gynnwys diffyg adnoddau i flaenoriaethu'r gweithgarwch hwn. Ymhellach, bydd gwaith yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth i symleiddio'r ffordd y caiff sylwadau o ganmoliaeth eu prosesu, fel y gellir manteisio ar arfer da, a chofnodi ffigurau cywir.

- Cafodd llai o ymholiadau eu rheoli gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ond bu cynnydd o 29% yn nifer y cwynion. Mae hyn yn awgrymu nad oedd yn bosibl mynd ati i ddatrys pryderon heb orfod cymryd rhan mewn gweithdrefnau cwynion ffurfiol. Yn ogystal, bydd absenoldebau heb eu cynllunio a swyddi gwag o fewn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wedi cyfrannu at yr anallu i reoli achosion mor effeithiol ag yn y blynyddoedd blaenorol.

- Bu cynnydd o 16% yn nifer y cwynion Cam 1, a gwelodd y Cyngor gynnydd o 30% yn y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt yng Ngham 2 (cam ffurfiol). Roedd cydymffurfiaeth ag amserlenni penodedig hefyd yn is na'r disgwyl, er y cydnabyddir bod angen mwy o amser ar gyfer cwynion Cam 2 er mwyn ymchwilio iddynt yn drylwyr. Mae hyn yn gwbl dderbyniol ar yr amod bod achwynwyr yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar unrhyw ddatblygiadau.

- Fel y cydnabuwyd uchod, derbyniodd yr Ombwdsmon 63% yn fwy o gwynion am Gyngor Sir Ceredigion o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, a chafodd 13 o'r rhain eu datrys drwy gytundebau Datrys yn Gynnar. Fodd bynnag, ni wnaeth yr Ombwdsmon gyfeirio unrhyw

gwynion ar gyfer ymchwiliad ffurfiol, ac felly, ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau ffurfiol ganddynt.

- Derbyniwyd dwy gŵyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â Mesurau'r Gymraeg, a chafodd y ddwy eu datrys yn ystod y cam anffurfiol.

- Casglu Sbwriel a Safleoedd Gwastraff Cartref yw'r prif reswm o hyd dros y cwynion a dderbyniwyd yng Ngham 1; ac yna Cynllunio (gan gynnwys Gorfodi Cynllunio) a Threth y Cyngor a Budd-dal Tai. Mae'r tri gwasanaeth hyn yn cyfrif am 40% o'r holl gwynion Cam 1 a dderbyniwyd, ond fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r gwasanaethau hyn yn dueddol o ddenu cwynion.

- Cafodd 49% o'r holl gwynion eu cadarnhau; ni chafodd 32% o achosion eu cadarnhau ac roedd y gweddill naill ai'n parhau i fynd rhagddynt neu wedi'u dirwyn i ben gan yr achwynydd. Cydnabyddir bod angen gwaith pellach er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn dysgu'r gwersi sy'n deillio o gwynion, bydd hyn yn cael ei ddatblygu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

- Roedd cydymffurfiaeth â'r amserlenni Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ar y lefel isaf a gofnodwyd, sef 67%, a chydnabyddir bod angen gwelliannau enfawr yn hyn o beth. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr atgyfeiriadau at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), o 4 achos i 9 achos, yn ystod 2021-2022. Mae'n debygol mai'r perfformiad gwael o ran bodloni'r amserlenni statudol oedd y prif ffactor a gyfrannodd at hyn, ond mae'r cynnydd yn cyfateb i 1% yn unig o'r holl geisiadau a dderbyniwyd.

**Meysydd i ganolbwyntio arnynt**

- **Gwella cydymffurfiaeth â'r amserlenni a bennwyd mewn polisïau cwynion a Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.**
- **Gwella'r system ar gyfer casglu sylwadau o ganmoliaeth a data ar y gwersi a ddysgwyd.**
- **Parhau â dull agored, tryloyw sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer datrys pryderon**

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam –** Ni chwblhawyd Asesiad Effaith Integredig oherwydd ni chynigir newid mewn gwasanaeth yn yr adroddiad hwn.

***Crynodeb:***

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |

**ARGYMHELLIAD:**
Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu nodi cynnwys yr adroddiad hwn cyn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 1 Tachwedd 2022.

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o berfformiad yr Awdurdod o ran Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Marie-Neige Hadfield |
| **Swydd:** | Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 12 Medi 2022 |

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

# Adroddiad Blynyddol am Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

**Cynnwys** **Tudalen**


| | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 – 3 |
| 2 | Y ganmoliaeth a gafwyd | 4 – 5 |
| 3 | Y cwynion a dderbyniwyd | 5 – 8 |
| 4 | Dysgu gwersi o'r cwynion | 9 |
| 5 | Y cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 9 – 11 |
| 6 | Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 12 – 13 |
| 7 | Crynodeb a chasgliadau: | 15 – 17 |
| 8 | Data Cwynion (gan gynnwys adroddiadau 'Datrys yn Gynnar' yr Ombwdsmon – tudalennau 20 – 24) | 18 – 24 |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y negeseuon o ganmoliaeth, y cwynion a'r ceisiadau a ddaeth i law'r Cyngor rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r **adran hon** yn rhoi trosolwg o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli canmoliaeth, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae **Adran 2** yn rhoi gwybodaeth am y negeseuon o ganmoliaeth a gafwyd, ac mae **Adran 3** yn dangos rhai o'r tueddiadau, themâu a pherfformiad o ran niferoedd, amserlenni a chanlyniadau'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae **Adran 4** yn amlinellu'r gwersi a ddysgwyd. Mae **Adran 5** yn trafod pob achos a gyfeiriwyd at sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (*"yr Ombwdsmon"*), ac mae **Adran 6** yn ystyried ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac unrhyw achosion a gyfeiriwyd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae **Adran 7** yn rhoi crynodeb a chasgliadau o'r data a ddarparwyd yn yr adroddiad, a rhoddir dadansoddiad o'r data cwynion yn **Adran 8.** Oherwydd y cynnydd sylweddol yng ngwaith yr Ombwdsmon, yn enwedig achosion a gafodd eu datrys o ganlyniad i gyfraniad yr Ombwdsmon, mae pob achos sy'n arwain at adroddiad 'Datrys yn Gynnar' hefyd wedi'i gynnwys yn Adran 8 – gan gynnwys yr Adroddiadau Cryno a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r cwynion hyn.

1.2 Mae'r systemau cofnodi ar gyfer negeseuon o ganmoliaeth, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol, sydd wedi symleiddio'r broses adrodd.

1.3 Mae'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn dîm bach (3.8 o aelodau staff) sy'n dilyn tri pholisi cwynion gwahanol a dwy gangen o ddeddfwriaeth mynediad i wybodaeth:

- Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol (corfforaethol)
- Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014
- Gweithdrefn Gwynion ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru (Cylchlythyr 011/2012)
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

1.4 Er bod cyrff llywodraethu ysgolion yn gyfrifol am eu cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth eu hunain, mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn darparu cyngor a chymorth pan fo angen, ac weithiau bydd yn cynorthwyo gydag achosion mwy cymhleth os yw'r gweithdrefnau'n caniatáu hynny.

1.5 O ganlyniad i newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth, adolygwyd y Polisi Pryderon a Chwynion (corfforaethol) a'i gadarnhau gan bwyllgor y Cyngor o aelodau etholedig ar 23 Medi 2021.

1.6 Yn dilyn ffurfio'r Awdurdod Safonau Cwynion o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'n ofynnol i holl awdurdodau cyhoeddus Cymru adrodd am eu cwynion i swyddfa'r Ombwdsmon bob chwarter. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar dudalen we yr Awdurdod Safonau Cwynion.

1.7 Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio'n gadarnhaol â'r Ombwdsmon, ac mae adran o'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad o holl waith yr Ombwdsmon, gan gynnwys canlyniadau'r adroddiadau 'Datrys yn Gynnar' (ar ddiwedd yr adroddiad hwn). Mae hyn yn cynnwys canlyniadau swyddfa'r Ombwdsmon yn dilyn ei hasesiad o'r holl

gwynion a wnaed iddo mewn perthynas â Chyngor Sir Ceredigion. Rhaid nodi mai hwn yw'r trydydd cyfnod adrodd olynol lle na chychwynnwyd unrhyw ymchwiliadau ffurfiol gan swyddfa'r Ombwdsmon i gwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor.

1.8 Mae datrys cwynion yn rhagweithiol yn parhau i gael blaenoriaeth uchel o fewn y Cyngor a gwneir pob ymdrech i sicrhau canlyniadau boddhaol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n tynnu ein sylw at eu pryderon. Yn sgil yr ymdrechion parhaus a'r cydweithredu cadarnhaol rhwng staff a rheolwyr ar draws y Cyngor a'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, mae'n llawer mwy effeithiol i ddatrys pryderon yn ystod y cam 'ymholiad', heb fod angen troi at y weithdrefn gwynion ffurfiol. O ganlyniad, derbyniwyd cyfanswm o **357** o ymholiadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

1.9 Mae cwynion sy'n cael eu hystyried o dan Gamau 1 a 2 o'r polisïau cwynion perthnasol yn parhau i gael eu rheoli yn unol â'r ethos sy'n sail i gwynion corfforaethol: *'Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda'*. Cydnabyddir, yn arbennig mewn perthynas â chwynion Cam 2, y gall achosion cymhleth gymryd mwy o amser na'r hyn a nodir yn y polisi (hynny yw, 20 diwrnod gwaith); fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, hysbysir yr achwynydd fel arfer am yr oedi a rhoddir diweddariadau ar statws y gŵyn. Mae gwybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio ag amserlenni wedi'i darparu o fewn yr adroddiad hwn, ond y flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod ymchwiliad cadarn ac ystyrlon yn cael ei gynnal – hyd yn oed os yw'n cymryd yn hwy na'r amserlenni a bennwyd. Derbynnir bod heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth wedi arwain at y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn methu â chynnal cyfathrebu effeithiol gydag achwynwyr mewn rhai achosion.

1.10 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am yr holl gwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y Cyngor, a bydd yn uwchgyfeirio materion o bryder i aelod(au) perthnasol o'r Grŵp Arweinyddiaeth. Yn ogystal â hyn, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw Uwch Swyddog enwebedig y Cyngor ar gyfer swyddfeydd yr Ombwdsman a'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

1.11 Mae Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor yn gyfrifol am gynllunio a darparu'r holl hyfforddiant cwynion yn ogystal â monitro'r holl gwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â Swyddfa'r Ombwdsman a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fydd achosion yn cael eu cyfeirio at eu sylw gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn anffodus, oherwydd yr heriau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ni chafodd unrhyw hyfforddiant cwynion mewnol ei gynnal yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, roedd Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon wedi darparu Hyfforddiant Ymchwilio i Gwynion i'r mwyafrif o'r Rheolwyr Corfforaethol yn Chwefror 2021.

1.12 Yn ôl y disgwyl, parhaodd pandemig y coronafeirws i gael effaith ar ddarparu gwasanaethau ar draws y Cyngor, gyda llawer o wasanaethau yn ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol o'i gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, o ganlyniad, mae blaenoriaethau a gwydnwch y Cyngor wedi cael eu profi ond er gwaethaf hyn, mae'r swyddogion yn parhau wedi eu hymrwymo i sicrhau y bydd y gwasanaeth yn gwella o ganlyniad uniongyrchol i gwynion.

## 2. Y GANMOLIAETH A GAFWYD

2.1 **Canmoliaeth**
Mae'r holl negeseuon o ganmoliaeth a dderbynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cofnodi a'u monitro'n rheolaidd, a dylid eu gweld fel cyfle i rannu arferion da lle bynnag y bo modd. Dylid ymateb i negeseuon o ganmoliaeth yn unigol a'u rhannu â'r bobl sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nhw.

2.2 Ceir cyfle hefyd i rannu canmoliaeth yn ehangach o lawer o fewn y Cyngor pan fydd arferion gwaith cadarnhaol yn cael eu hamlygu y gellid eu mabwysiadu mewn meysydd eraill.

2.3 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y negeseuon o ganmoliaeth a gofnodwyd gan bob Gwasanaeth yn ystod 2021/22.

| **Gwasanaeth** | **2021/22** |
|---|---|
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | 5 |
| Ysgolion | 4 |
| Economi ac Adfywio | 14 |
| Cyllid a Chaffael | 5 |
| Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | 25 |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 29 |
| Porth Cynnal | 27 |
| Corfforaethol | 6 |
| Porth Gofal | 77 |
| Porth Cymorth Cynnar | 29 |
| Gwasanaethau Democrataidd | 2 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 1 |
| **Cyfanswm** | **224** |

2.4 **Enghreifftiau o'r ganmoliaeth a gafwyd**

**"Galla i ddweud yn onest fod y gwaith a gafodd ei wneud yn welliant aruthrol i gymharu â sut oedd pethau cyn i'r gwaith gael ei wneud. Mae'n ganlyniad gwych, a hoffwn i ddweud "Diolch yn fawr."" –** Economi ac Adfywio

**"Diolch i'r wardeniaid traffig sy'n cadw'r traffig yn glir a'r criw casglu sbwriel sy'n gwagio ein biniau."** – Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

**"Roedd y staff mor gyfeillgar a phroffesiynol ac wedi gwneud ein diwrnod yn un arbennig iawn. Diolch yn fawr!"** – Cyswllt Cwsmeriaid

**"Roeddwn i am ddweud diolch o galon i chi'n bersonol am ofalu am [ddefnyddiwr gwasanaeth]. Doeddwn i ddim yn gallu ymweld yn aml iawn felly roedd yn dda gwybod ei fod yn y lle gorau posibl diolch i chi a'ch cydweithwyr."** – Porth Gofal

**"Roeddwn i am ddweud pa mor ddiolchgar ydw i am yr holl gymorth a gefais y llynedd. Roeddwn i'n teimlo bod gen i gefnogaeth wych. Diolch eto."** – Gwasanaeth Ysgolion

**"Mae'n wych y ffordd rydych chi'n cefnogi Defnyddiwr Gwasanaeth."** – Porth Cynnal

**"Diolch am eich caredigrwydd a'ch amynedd."** – Cyllid a Chaffael

**"Diolch i'r holl bobl oedd wedi helpu i ddatrys fy mhryderon."** – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

**"Diolch am eich gwaith hael trwy gydol y flwyddyn."** – Porth Cymorth Cynnar

**"Hoffwn i ddiolch i chi ac aelodau staff Ceredigion." –** Corfforaethol


2.5 Mae'r negeseuon o ganmoliaeth a gafwyd gan gartrefi gofal a chanolfannau dydd wedi eu cynnwys yn y system adrodd bresennol sydd wedi'i sefydlu ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

2.6 Roedd disgwyl i'r broses ar gyfer casglu, cofnodi a monitro cwynion gael ei hadolygu yn ystod y cyfnod adrodd hwn; fodd bynnag, o ganlyniad i'r pwysau o fewn tîm bach Gwasanaeth Cwynion a Rhydd Gwybodaeth, caiff y gwaith hwn ei gwblhau y flwyddyn nesaf (2022-2023). Byddai budd gwaith o'r fath yn sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn ymwybodol o'r prosesau clir a diffiniedig sydd yn eu lle ar gyfer delio â chwynion a hyrwyddo arferion gorau ar draws y sefydliad.

## 3. Y CWYNION A DDERBYNIWYD

**3.1 Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd**

Mae'r siart isod yn dangos cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2021/22 a gafodd eu prosesu yn unol â'r polisïau cwynion dau gam. Rhoddir cymhariaeth â'r blynyddoedd blaenorol. Nid yw hyn yn cynnwys nifer yr ymholiadau neu geisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gafodd eu cyfeirio at y gwasanaeth(au) perthnasol.




**3.2 Nifer y cwynion a wnaed fesul cam**


Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor o dan bob cam o'r Polisi Cwynion dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cwynion a wnaed am y ddarpariaeth Gymraeg.

| Blwyddyn | Cam 1 | Cam 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | 96 | 39 | 135 |
| 2018/19 | 92 | 40 | 133 |
| 2019/20 | 85 | 39 | 124 |
| 2020/21 | 61 | 42 | 103 |
| 2021/22 | 73 | 60 | 133 |

**3.3 Cwynion am y Gymraeg**


Yn 2020/21 derbyniodd y Cyngor ddwy gŵyn oedd yn ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth (neu'r diffyg darpariaeth) o wasanaethau Cymraeg ar draws y Cyngor. Cafodd un gŵyn ei chyfeirio at y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

**3.4** Dangosir isod nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd ynghyd â chymhariaeth â data'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n llawn ei ofynion o dan Safonau'r Gymraeg.




**3.5 Y deg Adran a gafodd y nifer fwyaf o gwynion yn 2021/22**

Mae'r siart isod yn dangos y deg adran o'r Cyngor a gafodd y nifer fwyaf o gwynion yng Ngham 1. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, trwy fynd ati i bennu'r meysydd lle mae'r nifer fwyaf o gwynion wedi cael eu derbyn, gellir adnabod tueddiadau o fewn yr awdurdod a'u cymharu ar lefel genedlaethol.




**3.6 Canlyniadau'r Cwynion**

Gweler isod y canlyniadau a gofnodwyd yn erbyn yr holl gwynion a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd.





**3. 7 Amserlenni**


Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i bob cwyn yn brydlon ac yn unol â'r amserlenni a bennwyd yn y polisi. Mae'r siartiau isod yn dangos perfformiad y Cyngor o ran bodloni amserlenni **Cam 1 (10 diwrnod gwaith)** a **Cham 2 (20 diwrnod gwaith)** o dan y polisi corfforaethol. Mae'n bwysig nodi bod rhywfaint o hyblygrwydd yn achos

Cam 2, yn enwedig er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau trylwyr a chadarn yn cael eu cynnal, a all gymryd mwy o amser i'w cwblhau.

**3.8** **Cam 1** – Derbyniwyd cyfanswm o **73** o gwynion Cam 1 yn ystod y cyfnod adrodd. O dan y polisi corfforaethol, dylai cwynion Cam 1 gael eu cwblhau o fewn **10 diwrnod gwaith** ac o dan weithdrefnau cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol dylai'r cwynion gael eu cwblhau o fewn **15 diwrnod gwaith** sy'n cynnwys y cynnig o gyfarfod / drafodaeth â'r rheolwr gwasanaeth perthnasol. Rhoddwyd sylw i gyfanswm o **53** o'r **62** o gwynion corfforaethol ar y cam hwn o fewn yr amserlenni a bennwyd. Yn unol â'r polisi Pryderon a Chwynion, cafodd cwynion Cam 1 eu huwchgyfeirio ar unwaith i Gam 2 os na bodlonwyd yr amserlen o ddeg diwrnod gwaith.




**3.9** **Cam 2** – Derbyniwyd **60** o gwynion Cam 2. O'r rhain, cafodd **12** eu rheoli o dan y Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol statudol sy'n caniatáu 25 diwrnod gwaith o'r 'Dyddiad Dechrau' yn hytrach na'r **20 diwrnod gwaith** a ganiateir o dan y Weithdrefn Pryderon a Chwynion Corfforaethol. Dangosir perfformiad mewn perthynas â'r polisi corfforaethol isod. Yn achos 12 cwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd 3 yn parhau ar agor y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod adrodd (h.y. cafodd yr achosion hyn eu cau ar ôl 31 Mawrth 2022), ac roedd pob un ond un o'r **9** oedd yn weddill wedi cymryd yn hwy na'r amser a bennwyd i'w cau. Caniateir hyn ar yr amod bod Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer estyniad.



## 4. DYSGU GWERSI O'R CWYNION

**4.1** Mae'r tabl isod yn dangos sampl o'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion a gafwyd yn ystod 2021/22.

| Maes gwasanaeth | Cwyn | Gwersi a Ddysgwyd |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | Cwyn am gael mynediad i Safleoedd Gwastraff Cartref | Roedd Safleoedd Gwastraff Cartref wedi rhoi ardaloedd 'gollwng' hygyrch yn eu lle i'r rhai oedd yn methu cael mynediad uniongyrchol i'r sgipiau. |
| Porth Cynnal | Pryderon wedi'u codi ynghylch Gwasanaethau Plant | Atgoffwyd yr holl Weithwyr Cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd am eu cyfrifoldeb i rannu canlyniadau ymholiad Adran 47 gyda rhieni, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru. |
| Diogelu'r Cyhoedd | Diffyg ymateb gan y Gwasanaeth ynglŷn â mater diogelwch bwyd | Hyfforddiant pellach wedi'i ddarparu i staff ar ddefnyddio'r system wybodaeth. |
| Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth | Heb gyfathrebu â'r achwynwyr | Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael diweddariadau rheolaidd os oes problem gyda datrys eu cwyn o fewn yr amserlenni penodedig. |

## 5. CWYNION A WNAED I OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

5.1 Derbyniwyd Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2021/22 ar 9 Awst 2022 ac mae wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

5.2 Mae'r Ombwdsman yn disgwyl i achwynwyr fynd trwy holl weithdrefnau cwynion y Cyngor yn gyntaf cyn cysylltu â'i swyddfa i geisio ystyriaeth annibynnol o'u cwyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol mae disgresiwn gan yr Ombwdsmon i gynnal ymchwiliad uniongyrchol. Fel arfer, caiff cwynion sydd heb gael eu hystyried eto gan y Cyngor eu cofnodi gan Swyddfa'r Ombwdsmon fel cysylltiadau ***'Cyn pryd'*** a chânt eu cyfeirio'n ôl i'r Cyngor i'w hymchwilio o dan ei weithdrefnau cwynion ei hun.

5.3 Fel mater o arfer, mae'r holl ymatebion ffurfiol a gyhoeddir yng Ngham 2 gweithdrefnau cwynion y Cyngor (polisïau corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn cynnwys cynghori y gall achwynwyr gyfeirio eu cwyn at yr Ombwdsmon os ydynt yn parhau'n anfodlon â chasgliadau'r Cyngor, neu'r modd yr ymdriniwyd â'r gŵyn.

5.4 Mae rheolaeth gyfyngedig gan y Cyngor dros ddefnyddwyr gwasanaeth yn cysylltu â'r Ombwdsmon yn uniongyrchol, er y byddai hyn yn cael sylw fel rheol yn ystod hyfforddiant staff (h.y. cynghori pobl sut i gwyno os ydynt yn anhapus â'r gwasanaethau a ddarparwyd).

5.5 Mae'n ddefnyddiol nodi bod yr Ombwdsmon yn darparu data ynghylch nifer y *'cysylltiadau'* a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â nifer yr


'*achosion wedi'u cau'* yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd y dull hwn yn esbonio unrhyw anghysonderau yn nifer yr achosion sy'n cael eu hadrodd arnynt (yn enwedig os yw rhai yn cael sylw dros amryw o gyfnodau adrodd).

5.6 **Nifer y cwynion a wnaed i'r Ombwdsman yn 2021/22 yn ôl prif faes (fel y caiff ei gategoreiddio gan yr Ombwdsmon)**
Mae'r siart isod yn dangos nifer y cwynion a wnaed gan aelodau'r cyhoedd i'r Ombwdsmon, a ddangosir yn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon.

| Maes | Nifer y cwynion i'r Ombwdsmon 2019/20 | Nifer y cwynion i'r Ombwdsmon 2020/21 | Nifer y cwynion i'r Ombwdsmon 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Delio â Chwynion | 4 | 5 | 14 |
| Cynllunio a Rheoli Cynllunio | 6 | 8 | 10 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 4 | 5 | 6 |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 4 | 1 | 5 |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 1 | 2 | 5 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 5 | 3 | 3 |
| COVID-19 | - | 3 | 3 |
| Addysg | 1 | 0 | 2 |
| Cyllid a Threthiant | 2 | 2 | 2 |
| Cymunedau, Cyfleusterau, Adloniant a Hamdden | 1 | 0 | 1 |
| Cwynion am fwy nag un Gwasanaeth | 0 | 0 | 1 |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 1 | 1 | 0 |
| Trwyddedu | 2 | 0 | 0 |
| Tai | 0 | 2 | 0 |
| **CYFANSWM** | **31** | **32** | **52** |

5.7 Derbyniodd yr Ombwdsmon **52** o gwynion am y Cyngor yn ystod 2021-2022, sef 20 achos yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf hyn, nid yw'r Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliadau i unrhyw un o'r achosion hyn. Fodd bynnag, cytunwyd ar **13** cytundeb Datrys yn Gyflym er mwyn i'r Cyngor allu datrys y gŵyn i foddhad yr Ombwdsmon. Ceir rhagor o wybodaeth am y cwynion hyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn (tudalennau 19 – 23) gan gynnwys yr adroddiadau cryno swyddogol a luniwyd gan yr Ombwdsmon.

5.8 Mae'r siart hwn yn darparu data sy'n cymharu canlyniadau'r holl achosion a gafodd eu cau gan yr Ombwdsman yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn a'r ddwy flynedd flaenorol.




5.9 **Achosion yr Ombwdsmon a arweiniodd at Ddatrys yn Gynnar**

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, er na chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau ffurfiol gan yr Ombwdsmon am y **trydydd** cyfnod yn olynol, roedd nifer y cwynion lle oedd angen cymryd camau gweithredu ychwanegol yn dilyn eu hystyried gan yr Ombwdsmon wedi codi'n sylweddol i **un deg tri** (o'i gymharu â dim ond **pedwar** yn 2020-2021). Yn yr achosion hyn, mae'r Ombwdsmon yn rhoi cyfle i'r Cyngor adolygu ei reolaeth o'r achos a chytuno ar sut i weithredu er mwyn datrys y gŵyn.

5.10 Mae'r cynnydd esbonyddol mewn achosion Datrys yn Gynnar yn ganlyniad i'r cynnydd cyffredinol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd a'r heriau sylweddol a wynebwyd gan wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, sy'n eistedd o fewn y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, wedi wynebu sawl her yn ystod y cyfnod adrodd hwn o ganlyniad i absenoldebau heb eu cynllunio yn ogystal â swyddi gwag o fewn y Gwasanaeth. Roedd hwn yn ffactor arwyddocaol a gyfrannodd at y diffygion yn y modd yr ymdriniwyd â chwynion y cyfeiriwyd atynt yn llythyr yr Ombwdsmon.

## 6. CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH


6.1 Y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth y Cyngor â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Yn yr un modd â chanmoliaeth a chwynion, cafodd y gwasanaeth Rhyddid Gwybodaeth (a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) ei ganoli hefyd ac mae'n ffurfio Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.

6.2 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am ymgymryd â'r holl Adolygiadau Mewnol sydd yn ei hanfod yn golygu'r dull cwyno ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Yn dilyn y cam Adolygiad Mewnol, mae gan ymgeiswyr yr hawl i gyfeirio eu cais i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer ystyriaeth bellach.

6.3 Gall ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol gael eu gwrthod am amryw o resymau ar yr amod bod esemptiadau neu eithriadau cyfreithlon sy'n atal datgelu gwybodaeth. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Gwrthod sy'n rhoi gwybodaeth glir i esbonio'r penderfyniad i beidio â datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Rhaid nodi yma bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ymwneud â gwybodaeth a **gofnodwyd** ac a ddelir gan y Cyngor ac felly nid oes hawl i gael atebion i gwestiynau a fyddai'n golygu creu gwybodaeth neu gofnodion newydd.

6.4 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn derbyniodd y Cyngor gyfanswm o **780** o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. O'r rhain, cafodd **wyth** achos eu huwchgyfeirio i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd fel rhai sydd angen Adolygiad Mewnol. Roedd pedwar o'r achosion yn ymwneud â chwynion na chafodd eu darparu ar eu cyfer o fewn yr amserlen o 20 diwrnod gwaith. Gyda'r achosion hyn, darparwyd y wybodaeth y gofynnwyd amdani fel rhan o'r ymateb Adolygiad Mewnol. Cafodd yr esemptiad a gymhwyswyd ei gynnal mewn dau o'r achosion, ac roedd y ddau achos arall yn parhau i fod ar agor ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

6.5 Dangosir isod nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (ar y cyd) a dderbyniwyd yn ystod 2020/2021 o'i gymharu â data ar gyfer y cyfnodau adrodd cynharach.




6.6 Mae'r siart isod yn dangos nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan bob gwasanaeth a pha ganran y mae hyn yn cyfateb iddi mewn perthynas â chyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd gan y Cyngor.

**Gweithgarwch Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ôl Gwasanaeth**

| | Deddf Rhyddid Gwybodaeth | | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol | |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth | Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd | % Cyfanswm y Ceisiadau a Dderbyniwyd | Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd | % Cyfanswm y Ceisiadau a Dderbyniwyd |
| Ysgolion | 57 | 7% | - | - |
| Cyllid a Chaffael | 132 | 17% | - | - |
| Gwasanaethau Democrataidd | 13 | 2% | - | - |
| Pobl a Threfniadaeth | 40 | 5% | - | - |
| Porth Cymorth Cynnar | 8 | 1% | - | - |
| Porth Cynnal | 70 | 9% | - | - |
| Porth Gofal | 79 | 10% | | |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | 99 | 13% | 4 | 20% |
| Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | 117 | 15% | 6 | 30% |
| Economi ac Adfywio | 70 | 9% | 10 | 50% |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 55 | 7% | - | - |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 6 | >1% | - | - |
| Mwy nag un Gwasanaeth | 14 | 2% | - | - |

6.7 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i ymateb i bob cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith. Yn 2020/21 cyfradd cydymffurfio'r Cyngor â'r amserlen hon oedd **67%**.

6.8 Derbyniwyd cyfanswm o **wyth** cais ar gyfer Adolygiad Mewnol yn 2021/22 a dangosir y cyfan wedi eu grwpio fesul gwasanaeth. Mae hyn yn gynnydd o'r 7 a dderbyniwyd yn 2020-2021.




6.9 Gwnaethpwyd cyfanswm o 9 atgyfeiriad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud ag oedi'r Cyngor wrth ddarparu gwybodaeth o fewn yr amserlen statudol.

## 7. CRYNODEB A CHASGLIADAU

7.1 Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol ers pandemig y coronafeirws sy'n deillio o amrywiaeth o ffactorau. Mae parhad gwasanaeth, cyflwyno swyddogaethau ychwanegol ers y pandemig a'r pwysau cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r ffordd yr oedd angen darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn i gyd wedi cael effaith. Mae'n amlwg y bu cynnydd mewn cwynion a gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys atgyfeiriadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; fodd bynnag, yr hyn sy'n fwyaf arwyddocaol yw'r cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd trwy'r Ombwdsmon. Bydd yr adran hon yn rhoi rhywfaint o ddadansoddiad o'r data y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn.

7.2 I grynhoi, prif gasgliadau'r adroddiad hwn yw:

- ↓ **224** o gwynion wedi'u derbyn
- ↓ **357** o ymholiadau wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- ↑ **133** o gwynion wedi'u derbyn: **Cam 1** = **73** **Cam 2** = **60**
- ↑ **52** o 'gysylltiadau' wedi'u derbyn trwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- ↑ **780** o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi eu prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

7.3 Cofnodwyd llawer llai o negeseuon o ganmoliaeth yn ystod 2021-2022 o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol (gostyngiad o 72%). Fodd bynnag, ni ellir dehongli hyn ar ei ben ei hun oherwydd bu cynnydd o bron i 50% yn y negeseuon o ganmoliaeth a gofnodwyd yn ystod 2020-2021 (o'i gymharu â 2019-2020). Gall hyn fod oherwydd na all gwasanaethau flaenoriaethu trosglwyddo unrhyw negeseuon o ganmoliaeth i'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth i'w cofnodi. Esboniad mwy tebygol, fodd bynnag, yw nad oedd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wedi gallu cynnal ei adolygiad arfaethedig o reoli nag o ganmoliaeth ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn adrodd hon (gweler para. 2.6 uchod) oherwydd y pwysau a brofwyd gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn.

7.4 Er bod yr Ymholiadau a reolir gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wedi gostwng ychydig, roedd cynnydd o 29% yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor. Gellid priodoli hyn i'r diffyg capasiti yn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth i fwrw ymlaen â dull rhagweithiol o ddatrys pryderon cyn gynted â phosibl. Cydnabyddir hefyd y bydd yr absenoldebau a'r swyddi gwag a gafwyd o fewn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wedi cyfrannu'n sylweddol at yr anallu i reoli achosion mor effeithiol ag yn y blynyddoedd blaenorol.

7.5 Cododd cwynion Cam 1 gan 16% a gwelodd y Cyngor gynnydd o 30% yn y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt yng Ngham 2 (cam ffurfiol). Roedd cydymffurfiaeth ag amserlenni rhagnodedig hefyd yn is na'r disgwyl, er y cydnabyddir bod cwynion Cam 2 yn aml yn gofyn am amser ychwanegol i ymchwilio'n drylwyr – ar yr amod bod achwynwyr yn derbyn gohebiaeth am unrhyw oedi. Yn anffodus, roedd y capasiti i gyfathrebu ag achwynwyr a darparu diweddariadau rheolaidd wedi wynebu llu o anawsterau oherwydd y pwysau ar y gwasanaethau, fel y cyfeiriwyd ato uchod.

7.6 O ganlyniad, arweiniodd hyn at achwynwyr yn uwchgyfeirio eu cwynion at yr Ombwdsmon yn llawer cynharach, a arweiniodd yn y pen draw at y cynnydd mewn

gweithgarwch cyffredinol a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon, yn ogystal â'r nifer sylweddol o gytundebau Datrys yn Gynnar.

7.7 Rhaid nodi hefyd bod cymhlethdod y cysylltiad a gafodd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ystod 2021-2022 yn llawer mwy nag yn y blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, roedd nifer o'r ymholiadau a dderbyniwyd yn gofyn am fewnbwn sylweddol gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth oherwydd nid oeddent o reidrwydd yn dod o dan gwmpas y polisïau cwynion. Roedd achosion o'r fath yn dal i gynhyrchu cryn dipyn o waith (h.y. esbonio pam na ellid defnyddio'r broses gwynion, am ba reswm bynnag) yn ogystal ag ymdrechion i gysylltu â chydweithwyr i ddatrys y materion a godwyd. Er enghraifft, ni ellir ystyried cwynion am y camau hollol ddilys a gymerwyd gan y Cyngor (h.y. yn unol â pholisi a deddfwriaeth) o dan y polisïau cwynion oherwydd cânt eu hystyried yn 'benderfyniad a wnaed yn briodol'. Yn ogystal, derbyniwyd nifer o gwynion lle nad oedd gan yr achwynydd ganiatâd y defnyddiwr gwasanaeth, neu fod ei gŵyn yn ymwneud â gweithredoedd trydydd parti, yn hytrach na'r Cyngor. Mae dal angen datrys achosion o'r fath ac, mewn rhai achosion, cynhelir ymchwiliadau, er y gwneir hynny y tu allan i'r prosesau cwynion.

7.8 Derbyniwyd dwy gŵyn yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod 2021-2022, y ddwy yn ymwneud ag achosion lle na weithredwyd ar ddewis iaith (Cymraeg) y defnyddwyr gwasanaeth. Cafodd y ddwy gŵyn eu datrys yn brydlon ac yn foddhaol yng Ngham 1, ac roedd y gwasanaethau perthnasol yn yr achosion hyn wedi rhoi mesurau ar waith i godi ymwybyddiaeth staff a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

7.9 Fel y cyfeiriwyd ato eisoes, cafwyd y nifer mwyaf erioed o gwynion wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon, yn ogystal â nifer y cytundebau Datrys yn Gynnar, gan ddangos cynnydd o 63% a 70%. Ar nodyn mwy cadarnhaol, fodd bynnag, caewyd 35% (16 o gwynion) o achosion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon yn dilyn ystyriaeth gychwynnol, gan gefnogi'r camau a gymerwyd gan y Cyngor wrth reoli'r gŵyn. Roedd 13 achos arall yn achosion cyn pryd (28%) sy'n golygu nad oedd yr achwynydd(ion) wedi dihysbyddu proses gwynion y Cyngor eto, ac roedd 4 achos (9%) y tu allan i awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

7.10 Dengys dadansoddiad pellach o holl weithgarwch yr Ombwdsmon nad oedd angen unrhyw ymyrraeth o gwbl gan yr Ombwdsmon mewn 72% o achosion. Er y cydnabyddir bod llawer mwy o achosion wedi arwain at gytundebau Datrys yn Gynnar yn ystod 2021-2022 (13 i gyd), o ystyried yr 20 achos ychwanegol a dderbyniodd yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn, a gallu'r Cyngor i gyflawni'r cytundebau heb gychwyn ymchwiliad ffurfiol, mae'n dangos penderfyniad swyddogion i unioni pethau.

7.11 Mae Safleoedd Casglu Sbwriel a Gwastraff Cartref yn parhau i fod ar frig y rhestr o ran y gwasanaeth a gafodd y nifer fwyaf o gwynion Cam 1 wedi'i ddilyn yn agos gan Gynllunio (gan gynnwys Gorfodi Cynllunio) a Threth y Cyngor a Budd-dal Tai yr oedd ill dau wedi derbyn 7 cwyn Cam 1 yr un. Mae'r tri gwasanaeth uchaf yn rhannu 40% o'r holl gwynion Cam 1 a dderbyniwyd gan y Cyngor. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae natur y gwasanaethau hyn yn golygu eu bod yn dueddol o ddenu nifer uchel o gwynion.

7.12 Cafodd cyfran lai o gwynion eu cadarnhau yn ystod 2021-2022; 49% o'i gymharu â 54% yn 2020-2021. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn dangos, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y cwynion yn ystod y flwyddyn fod wedi'u cyfiawnhau. Wedi dweud hynny, roedd llai o gwynion oedd heb eu cadarnhau hefyd, yn bennaf oherwydd bod 11% o achosion

yn parhau ar agor ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, ac 8% pellach heb eu parhau gan achwynwyr yn ystod y broses.

7.13 Cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o gwynion, yn arbennig o ran dysgu gwersi a rhannu arfer da ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach yn ystod y flwyddyn adrodd sydd i ddod a rhagwelir y bydd tystiolaeth o hyn i'w gweld yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

7.14 Mae lle i wella bob amser o ran cydymffurfio ag amserlenni penodedig – o ran cwynion a Deddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae nifer yr ymatebion Deddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen 20 diwrnod gwaith wedi gostwng i'r lefel isaf a gofnodwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Yn yr un modd â'r llynedd, credir bod hyn oherwydd cyfuniad o ffactorau gan gynnwys diffyg capasiti gwasanaethau i allu blaenoriaethu Rhyddid Gwybodaeth cyn ymrwymiadau gwaith presennol; methu â chael copïau caled o rai dogfennau; diffyg capasiti o fewn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'r dasg weinyddol sy'n ymwneud â gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth, h.y. cofnodi, cydnabod a dosbarthu ceisiadau newydd a chyhoeddi'r holl ymatebion a chymhwyso unrhyw eithriadau/esemptiadau a/neu olygiadau yn ôl yr angen).

7.15 Ynghyd â chynnydd bach yn nifer y ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a dderbyniwyd, bu cynnydd hefyd yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyfeiriwyd cyfanswm o 9 achos at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n cyfateb i 1% o'r holl geisiadau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd yn hyn o beth, yn enwedig o ran cydymffurfio – fel y cyfeirir ato uchod.

7.16 I gloi, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i gydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol, ac o ganlyniad, mae cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gweithgarwch yr Ombwdsmon wedi'u cynnwys ym mesurau perfformiad y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer 2022-2023.

7.17 Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn llai cadarnhaol o'i gymharu â pherfformiad y Cyngor mewn perthynas â chwynion a Rhyddid Gwybodaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnydd mewn gweithgarwch, ar draws y ddau wasanaeth, yn gyson â'r hyn y mae Awdurdodau Lleol eraill yn ei brofi – fel y cydnabyddir yn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, bydd adnoddau ac arferion gwaith effeithiol yn cael eu hadolygu er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithlon a thryloyw ar gyfer ein dinasyddion a'n defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn i ddod.

Marie-Neige Hadfield
Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

31 Awst 2022

## 8. DATA

### EITEM 1: DADANSODDIAD O'R CWYNION FESUL GWASANAETH

| Gwasanaethau ac Adrannau | Cam 1 | Cam 2 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| **Ysgolion** | | | **5** |
| ➢ Ysgolion | 0 | 3 | |
| ➢ ADY | 0 | 1 | |
| ➢ Cynnig Gofal Plant | 1 | 0 | |
| | | | |
| **Cyllid a Chaffael** | | | **10** |
| ➢ Treth y Cyngor a Budd-daliadau | 7 | 3 | |
| | | | |
| **Gwasanaethau Democrataidd** | | | **3** |
| ➢ Cymorth i Wasanaethau Corfforaethol | 1 | 0 | |
| ➢ Gwasanaethau Etholiadol | 2 | 0 | |
| | | | |
| **Pobl a Threfniadaeth** | | | **1** |
| ➢ Cyflogres | 0 | 1 | |
| | | | |
| **Porth Cymorth Cynnar** | | | **3** |
| ➢ Canolfannau Llesiant | **2** | **1** | |
| | | | |
| **Porth Cynnal** | | | **24** |
| ➢ Tîm Oedolion | 2 | 1 | |
| ➢ Asesu Plant a Theuluoedd | 2 | 2 | |
| ➢ Diogelu | 2 | 6 | |
| ➢ Cymorth Estynedig | 4 | 5 | |
| | | | |
| **Porth Gofal** | | | **5** |
| ➢ Maethu | 1 | 0 | |
| ➢ Brysbennu Porth Gofal | 1 | 0 | |
| ➢ Digartrefedd / Tai (gan gynnwys Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Eco Flex) | 1 | 2 | |
| | | | |
| **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | | | **11** |
| ➢ Diogelwch Bwyd | 1 | 0 | |
| ➢ Safonau Masnach | 0 | 1 | |
| ➢ Iechyd yr Amgylchedd | 2 | 2 | |
| ➢ Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth | 2 | 2 | |
| ➢ Trwyddedu | 1 | 0 | |
| | | | |
| **Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | | | **36** |
| ➢ Cynnal a Chadw/Gwella Priffyrdd | 6 | 2 | |

| Gwasanaethau ac Adrannau | Cam 1 | Cam 2 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| ➢ Angori | 0 | 1 | |
| ➢ Casglu Gwastraff a Safleoedd Gwastraff Cartref | 15 | 9 | |
| ➢ Trafnidiaeth | 3 | 0 | |
| | | | |
| **Economi ac Adfywio** | | | **23** |
| ➢ Arfordiroedd a Chefn Gwlad | 0 | 1 | |
| ➢ Cynllunio (gan gynnwys Gorfodi) | 7 | 7 | |
| ➢ Cwyn yn erbyn staff | 0 | 1 | |
| ➢ Gwasanaethau Eiddo | 3 | 0 | |
| ➢ Covid-19 – Amrywiol | 0 | 1 | |
| ➢ Gorchymyn Cadw Coed | 1 | 0 | |
| ➢ Ystadau | 1 | 1 | |
| | | | |
| **Cyswllt Cwsmeriaid** | | | **5** |
| ➢ Gwasanaethau Cwsmeriaid | 3 | 0 | |
| ➢ Cofrestru | 1 | 0 | |
| ➢ TGCh a Rheoli Gwybodaeth | 1 | 0 | |
| | | | |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu** | **0** | **0** | **0** |
| | | | |
| **Mwy nag un Gwasanaeth / Corfforaethol** | **0** | **7** | **7** |
| | | | |
| **CYFANSWM Y CWYNION A DDERBYNIWYD** | **73** | **60** | **133** |

**EITEM 2: CANLYNIADAU CWYNION**

| Canlyniad | 2021/22 |
|---|---|
| > Ymchwiliad / cwyn heb ei pharhau neu ei thynnu yn ôl | 10 |
| > Cwyn heb ei chadarnhau | 43 |
| > Cwyn wedi ei chadarnhau yn llwyr / yn rhannol | 65 |
| > Ar Agor / Parhau | 15 |
| **CYFANSWM** | **133** |

## EITEM 3 – ACHOSION YR OMBWDSMON A ARWEINIODD AT GYTUNDEBAU DATRYS YN GYNNAR

| Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Cyfeirnod yr Achos | Gwasanaeth(au) | Manylion Adroddiad yr Ombwdsmon |
|---|---|---|---|
| 28/04/21 | 202005090 | Porth Cynnal | Cwynodd Mr X nad oedd ei gyfarpar cyfrifiadurol, a ddarparwyd cynt yn dilyn asesiad o'i anghenion gan y Cyngor, yn addas i'w ddiben erbyn hyn. Nododd yr Ombwdsmon fod Mr X wedi nodi ei fod hefyd yn ddigartref ac nad oedd bellach yn preswylio yn ardal y Cyngor oherwydd ei bryderon o ran diogelu mewn perthynas â'r Cyngor, ond ei fod yn ceisio cael ail asesiad o'i anghenion.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn pryderu nad oedd eglurder ynghylch a oedd Mr X yn bwriadu dychwelyd i ardal y Cyngor ac, felly, a oedd dyletswydd i'w asesu ac ystyried y ffaith ei fod yn ddigartref. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn ei bod yn rhesymol i Mr X gadarnhau ei fwriad ynghylch dychwelyd i ardal y Cyngor, cyn ystyried a fu camweinyddu ar ran y Cyngor.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod cyfle i ddatrys y mater yn gynnar, ar ôl cael cadarnhad am hyn gan Mr X. Byddai hyn yn cadarnhau a oedd y Cyngor o dan ddyletswydd tuag at Mr X. Os oedd, roedd yr Ombwdsmon yn falch o nodi bod y Cyngor wedi cytuno y byddai, o fewn 8 wythnos, yn dechrau ailasesu anghenion Mr X (yn cynnwys anghenion cyfathrebu) ac, wrth wneud hynny, yn ystyried ei statws digartrefedd. |
| 13/05/21 | 2020006242 | Porth Cynnal | Cwynodd Ms X nad oedd y Cyngor wedi ymateb i'w phryderon ynghylch y gofal yr oedd wedi bod yn ei roi i'w ffrindiau. Dywedodd Ms X nad oedd y gefnogaeth yr oedd wedi gofyn amdani wedi cael ei rhoi.<br><br>Canfu'r asesiad nad oedd y Cyngor wedi ymateb yn ffurfiol i gŵyn Ms X. Cytunodd y Cyngor i wneud hynny ond byddai'n cysylltu â'r achwynydd yn gyntaf o fewn 10 diwrnod gwaith, er mwyn esbonio'i chŵyn. Cytunodd y Cyngor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r swyddfa hon am ei chynnydd o ran ystyried y gŵyn yn ffurfiol o fewn 20 diwrnod gwaith. Cytunodd y Cyngor hefyd i nodi unrhyw anghenion gofal cymdeithasol a oedd gan yr achwynydd neu ei ffrindiau (yn amodol ar y caniatâd angenrheidiol) ac i gymryd camau i roi unrhyw wasanaethau cefnogi priodol ar waith cyn gynted â phosib. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22/06/21 | 202100516 | Porth Cynnal | Cwynodd Miss X am nad oedd Cyngor Sir Ceredigion ("y Cyngor") wedi rhoi sylw amserol i'w chŵyn am Wasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Wrth ystyried cwyn Miss X, roedd yr Ombwdsmon yn bryderus oherwydd yr oedi sylweddol a fu cyn ymateb i'w chŵyn, am nad oedd wedi cael ymateb, a bod gweithredoedd y Cyngor wedi achosi anghyfleustra iddi. Penderfynodd setlo'r gŵyn heb gynnal ymchwiliad.<br><br>Gofynnodd a chafodd yr Ombwdsmon gytundeb y Cyngor i:<br>• Cynnig taliad 'amser a thrafferth' o £150 i Miss X.<br>• Cynnig ymddiheuriad ffurfiol i Miss X am y methiannau a ganfuwyd o ran delio â'i chŵyn.<br>• Ymchwilio i'w chŵyn yn unol â'r weithdrefn gwyno Gwasanaethu Cymdeithasol.<br><br>Cytunodd y Cyngor i gyflawni'r camau hyn o fewn 4 wythnos. |
| 28/07/21 | 202102361 | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Delio â Chwynion) | Cwynodd Mr X am yr oedi cyn i'r Cyngor ymateb i'w gŵyn a'r cais Rhyddid Gwybodaeth, a gyflwynwyd iddo ym mis Mawrth a mis Ebrill 2021 yn y drefn honno.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor, o fewn 20 diwrnod gwaith, ddarparu ymateb i gŵyn Mr X a diweddariad mewn perthynas â'i gais Rhyddid Gwybodaeth.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn fod hyn yn setliad priodol. |
| 09/08/21 | 202101675 | Economi ac Adfywio | Cwynodd Mrs A am gamau gweithredu Cyngor Sir Ceredigion mewn perthynas â materion cynllunio a gorfodi mewn perthynas â datblygiad tai ar dir wrth ymyl ei chartref ac, yn benodol, bod lefelau'r tir wedi cael eu codi. Cwynodd Mrs A hefyd am oedi wrth ddelio â chwynion, cyfathrebu gwael y Cyngor ac na chafodd y cwestiynau a godwyd eu hateb yn llawn.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd digon o dystiolaeth o gamweinyddu yn y broses gynllunio neu orfodi i warantu ymchwiliad. Ymddengys bod oedi heb esboniad yn y broses delio â chwynion ond roedd ymddiheuriad eisoes wedi'i ddarparu gan y Cyngor. Fodd bynnag, roedd yr ymateb i'r gŵyn yn cynnwys manylion ac esboniad ynghylch sut y daethpwyd i'r penderfyniad ac nid oedd y Cyngor wedi ymateb i gwestiynau ychwanegol a godwyd gan Mrs A.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon setlo'r gŵyn heb ymchwiliad. Ceisiodd a sicrhaodd gytundeb y Cyngor i roi ymateb llawnach i gŵyn Mrs A o fewn 20 diwrnod gwaith, gan roi sylw i'r pryderon penodol a godwyd gyda'r adran gynllunio, gan gynnwys esboniad gwell ynghylch sut y cyfrifwyd lefelau'r ddaear, ymateb ysgrifenedig i'r ymholiadau a godwyd gyda'r Adran Gwynion, ac ymddiheuriad am fethiant y Cyngor i fynd i'r afael â'r cwestiynau atodol a godwyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20/08/21 | 202102036 | Porth Cynnal a Pholisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Delio â Chwynion) | Cwynodd Miss X nad oedd y Cyngor wedi ymateb i'w chwyn Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd iddi ym mis Tachwedd 2020.<br>Roedd yr Ombwdsmon yn bryderus nad oedd Miss X wedi cael ymateb ffurfiol i'w chwyn a'i bod wedi cael ei hanhwyluso gan weithredoedd y Cyngor. Penderfynodd setlo'r gŵyn heb ymchwiliad.<br><br>Ceisiodd a sicrhaodd yr Ombwdsmon gytundeb y Cyngor i:<br>• Ymddiheuro i Miss X am yr oedi cyn ymateb i'w chwyn<br>• Rhoi esboniad i Miss X am yr oedi<br>• Rhoi ymateb i gŵyn Miss X<br>• Cynnig £200 i Miss X am yr amser a'r drafferth a gafodd wrth wneud ei chwyn<br><br>Cytunodd y Cyngor i gwblhau'r argymhellion o fewn pythefnos. |
| 17/09/21 | 202102202 | Economi ac Adfywio a Pholisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Delio â Chwynion) | Cwynodd Mr X nad oedd Cyngor Sir Ceredigion ("y Cyngor"), yn gweithredu fel awdurdod cynllunio, wedi cymryd camau gorfodi ynghylch datblygiad anawdurdodedig ar dir cyfagos, a adroddodd yn 2019. Roedd y Cyngor wedyn (yn 2020) wedi cyflwyno caniatâd cynllunio ôl-weithredol, y cadarnhawyd wedyn oedd yn gamgymeriad ar ei ran (gan ei fod wedi bwriadu gwrthod y cais). Ers hynny, dywedodd Mr X bod y tirfeddiannwr wedi cael amser ychwanegol gan y Cyngor i gaffael tir pellach i fodloni termau'r caniatâd a roddwyd, ond heb wneud hynny o fewn yr amser a ganiateir. Cwynodd Mr X ymhellach nad oedd y Cyngor wedi rhoi gwybod y diweddaraf iddo, nac egluro iddo pam doedd dim camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith yn erbyn y datblygwr am fethu â chaffael y tir, neu beth yr oedd yn bwriadu ei wneud.<br><br>Wrth ystyried y gŵyn, bu i'r Ombwdsmon gydnabod y camgymeriad, yr oedd y Cyngor wedi'i dderbyn. Roedd yn bryderus am yr oedi wedi hynny, yn ogystal â'r diffyg gwybodaeth ddiweddar a roddwyd i Mr X. Ystyriodd fod hyn yn gamweinyddiaeth ac yn anghyfiawnder difrifol i Mr X, o ystyried ei fod wedi codi pryderon ers 2019. Gan gydnabod ei gyfyngiadau awdurdodaethol o ran materion cynllunio (ynghlwm wrth y ffaith na all gwestiynu barn broffesiynol, na rhoi cyfarwyddyd i'r Cyngor i gymryd camau gorfodi), ystyriodd yr Ombwdsmon bod modd datrys y gŵyn ar sail y camau gweithredu canlynol, fel opsiwn amgen i'r archwiliad.<br><br>Cytunodd y Cyngor, o fewn mis i:<br>(a) Ymddiheuro yn ysgrifenedig i Mr X (drwy Uwch Swyddog) am y camweinyddu a ddigwyddodd.<br>(b) Rhoi eglurhad manwl i Mr X (ar wahân neu ar y cyd â'r uchod) am beth ddigwyddodd ers penderfyniad y Cyngor i alluogi amser i gaffael tir, a sut mae'r mater yn mynd i gael ei bennu a pha gasgliad fydd yn cael ei weithredu.<br>(c) Cynnig taliad unioni i Mr X o £1,500 am yr anghyfiawnder a achoswyd iddo gan y camweinyddu, yn ogystal â'i amser a'i drafferth o ran mynd ar ôl ei gwynion gyda'r Cyngor a'r Ombwdsmon. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21/09/21 | 202102648 | Economi ac Adfywio | Cwynodd Mr X nad oedd Cyngor Sir Ceredigion ("y Cyngor") wedi asesu'n amserol honiad o fynd yn groes i reolau cynllunio a chymryd camau gorfodi, os yw'n briodol.<br><br>Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Cyngor a sicrhaodd ei gytundeb, erbyn ddim hwyrach na 1 Tachwedd 2021, i ymateb i'r achwynydd am ei ganfyddiadau ynghylch yr achos o dorri rheolau, a chynnig eglurhad ac ymddiheuriad am yr oedi yn hyn o beth. |
| 06/10/21 | 202104213 | Cyllid a Chaffael a Pholisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Delio â Chwynion) | Cwynodd Mr X nad oedd y Cyngor wedi ymateb i'r gŵyn a gyflwynodd yn Ebrill 2021 ynghylch materion yn ymwneud â'i daliadau treth cyngor.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor roi ymateb "cam dau" i Mr X (o fewn tair wythnos) yn cynnwys esboniad am yr oedi. Byddai'r Cyngor hefyd yn gwneud asesiad i benderfynu a oedd Mr X wedi colli allan yn ariannol oherwydd yr oedi. Byddai hefyd yn ystyried gwneud taliad "amser a thrafferth" drwy orfod mynd ar ôl y mater a chysylltu â'r Ombwdsmon.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod hyn yn datrys y gŵyn yn briodol yn lle cynnal ymchwiliad. |
| 21/10/21 | 202104158 | Economi ac Adfywio | Cwynodd Mr X fod y Cyngor wedi methu â chyfathrebu'r cynnydd oedd yn digwydd gyda chamau gorfodaeth yn brydlon. Cwynodd Mr X hefyd am y diffyg ymateb i'w lythyr o gŵyn i'r Cyngor ym mis Mehefin 2021.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor gysylltu â Mr X i drafod ei gŵyn a derbyn copi fel bo angen o'i lythyr cwyn. Byddai yna'n rhoi ymateb ("cam dau") ffurfiol yn unol â'i broses cwynion mewnol, o fewn 20 diwrnod gwaith.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod hyn yn datrys y gŵyn yn briodol yn lle cynnal ymchwiliad. |
| 25/01/22 | 202106308 | Porth Cynnal a Pholisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Delio â Chwynion) | Cwynodd Miss X fod y Cyngor wedi methu â diwallu anghenion ei mab a'i phlentyn. Roedd Miss X hefyd yn anhapus na chynhaliwyd ymchwiliad cam 2 mewn ffordd amserol ar ôl gofyn i'r Cyngor wneud hynny.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn bryderus nad oedd y Cyngor wedi uwch-gyfeirio cwyn Miss X i ymchwiliad cam 2 (o dan Rheoliadau Gweithdrefn Gwyno y Gwasanaethau Cymdeithasol) pan ofynnwyd iddo, a chysylltodd â'r Cyngor i ddatrys hyn. Felly gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Cyngor roi ymddiheuriad i Miss X am beidio ag uwch-gyfeirio ei chŵyn pan ofynnwyd iddo, ac i benodi Swyddog Ymchwilio Annibynnol i gynnal ymchwiliad cam 2.<br><br>Erbyn 28 Chwefror, cytunodd y Cyngor i:<br>(i) ymddiheuro i Miss X am fethu ag uwch-gyfeirio ei chŵyn ac<br>(ii) i uwch-gyfeirio cwyn Miss X i gam 2 a phenodi Swyddog Ymchwilio Annibynnol i gynnal ymchwiliad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 07/02/22 | 202106906 | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Delio â Chwynion) | Cwynodd Miss X fod y Cyngor wedi methu ag ymateb i'w chŵyn am y gwasanaethau cymdeithasol, a'i fod hefyd wedi methu ag ymateb i'w llythyrau.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor gysylltu â Miss X (cyn pen 5 diwrnod) i ganfod a fyddai'n hoffi i'w chwyn gael ei thrin ar gam 1 neu ar gam 2 trefn gwyno'r gwasanaethau cymdeithasol. Wedi hynny, dylai ymdrin â chwyn Miss X yn unol â'r amserlenni statudol. Dylai hefyd ymddiheuro i Miss X am fethu ag ymateb i'w llythyrau.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn fod hyn yn ffordd briodol o ddatrys y gŵyn yn hytrach na chynnal ymchwiliad. |
| 23/03/22 | 202107539 | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Delio â Chwynion) | Cwynodd Ms X fod y Cyngor wedi methu ag ymchwilio ac ymateb i'w chŵyn am gynnydd mewn ffioedd cartref nyrsio.<br><br>Wrth ystyried y gŵyn, roedd yr Ombwdsmon yn bryderus nad oedd y Cyngor wedi ymateb i Ms X er ei bod wedi cael gwybod ym mis Awst 2021 bod ymholiadau'n cael eu gwneud. Yn lle ymchwiliad, gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Cyngor gwblhau'r canlynol er mwyn setlo cwyn Ms X:<br>Erbyn 21 Ebrill 2022,<br>a) Ymddiheuro i Ms X am fethu ag ymateb<br>b) Rhoi ymateb llawn i Ms X i'w neges e-bost |

Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Gofynnwch am: Cyfathrebu
01656 641150
cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: Awst 2022

Cyngh. Bryan Davies
Cyngor Sir Ceredigion
Trwy Ebost yn unig: bryan.davies@ceredigion.go.uk

**Llythyrau Blynyddol 2021/22**

Annwyl Cynghorydd Davies

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2021/22) i chi ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Dyma fy llythyr blynyddol cyntaf ers ymgymryd â rôl yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2022, ac rwy'n gwerthfawrogi bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig. Ni fu ein swyddfa yn rhydd rhag hyn, gyda mwy o achosion nag erioed yn cael eu cyfeirio atom dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r berthynas waith gref rhwng fy Swyddfa ag Awdurdodau Lleol yn parhau i ddarparu gwelliannau yn y ffordd rydym yn ymdrin â chwynion ac yn sicrhau, pan aiff pethau o chwith, ein bod yn dysgu o hynny ac yn adeiladu gwasanaethau cyhoeddus cryfach.

**Cwynion yn ymwneud â Chamweinyddu a Methiant Gwasanaeth**

Y llynedd, cynyddodd nifer y cwynion a gyfeiriwyd atom yn ymwneud ag awdurdodau lleol o 47% (o gymharu â ffigyrau 20/21) ac rydym bellach yn derbyn llawer mwy o gwynion o gymharu â chyn y pandemig. Mae'n debygol y cafodd cwynion i'm swyddfa, a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, eu celu yn ystod y pandemig, ac rydym bellach yn dechrau gweld yr effaith 'adlam' ddisgwyliedig.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn y cam cynnar) cyfran debyg o gwynion am gyrff cyhoeddus, sef 18%, o gymharu â blynyddoedd diweddar. Arhosodd cyfraddau ymyrryd (lle rydym wedi ymchwilio i gwynion) ar gyfer Awdurdodau Lleol ar lefel debyg hefyd – 14% o gymharu â 13% yn y blynyddoedd diwethaf.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

**Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr**

Cawsom hefyd nifer uchel o gwynion y Cod Ymddygiad y llynedd, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Cyfeiriwyd y nifer uchaf erioed (20) at naill ai at Banel Dyfarnu Cymru neu bwyllgorau safonau lleol, oherwydd tystiolaeth o dorri'r Cod.

**Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus**

Yn ogystal â rheoli'r lefelau uchaf erioed o gwynion, gwnaethom hefyd barhau â'n gwaith gan ddefnyddio ein pwerau rhagweithiol yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Yn benodol, cynnal ein Hymchwiliad ar ein Liwt ein Hunain cyntaf a pharhau â'n gwaith ar yr Awdurdod Safonau Cwynion.

Ym mis Hydref 2021, gwelsom gyhoeddiad yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf yng Nghymru: Adolygiad Digartrefedd. Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys tri Awdurdod Lleol ac yn ceisio craffu ar y ffordd y cafodd asesiadau Digartrefedd eu cynnal. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion penodol i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, ynghyd ag awgrymiadau i bob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Bydd rhai o'r argymhellion hyn yn cyflwyno newidiadau yn syth - er enghraifft, diweddaru taflenni ffeithiau a thempledi llythyr ac asesiad i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol allweddol yn cael eu gwreiddio'n rheolaidd i brosesau - cynlluniwyd pob argymhelliad i sicrhau newid gwirioneddol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrff cyhoeddus yng Nghymru'r llynedd. Mae'r polisi cwynion enghreifftiol eisoes wedi'i fabwysiadu gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru ac rydym bellach wedi ymestyn hyn i gyfran gyntaf o Gymdeithasau tai a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y nod yw gweithredu'r gwaith hwn ledled sector cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal â hyn, am y tro cyntaf, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Cwynion wybodaeth am gwynion y mae awdurdodau lleol wedi ymdrin â nhw – cyflawniad allweddol ar gyfer y gwaith hwn. Dengys data ar gyfer 21/22:

- Cofnodwyd dros 15,000 o gwynion gan Awdurdodau Lleol
- 4.88 am bob 1000 o breswylwyr.
- Cadarnhawyd bron i hanner (46%) y cwynion hynny.
- Ymchwiliwyd i oddeutu 75% ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Yn y pen draw, cyfeiriwyd oddeutu 8% o'r holl gwynion a gaewyd at OGCC.

Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion bellach wedi gweithredu polisi cwynion enghreifftiol gyda bron i 50 o gyrff cyhoeddus, ac wedi darparu 140 o sesiynau hyfforddi, yn rhad ac am ddim, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bu'r adborth yn ardderchog, ac mae'r hyfforddiant wedi bod yn boblogaidd iawn – felly byddwn yn annog Cyngor Sir Ceredigion i ymgysylltu cymaint â phosibl.

**Cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon**

Mae crynodeb o'r cwynion yn ymwneud â chamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Cyngor wedi'i atodi, ynghyd â chrynodeb o'r cwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned eich ardal.

Yn sgil y dyletswyddau newydd ar arweinwyr gwleidyddol a phwyllgorau safonau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad eu haelodau, edrychwn ymlaen at weithio gyda chi, eich Swyddog Monitro a phwyllgorau safonau i rannu unrhyw ddysgu o'r cwynion a gawn ac i gefnogi gwaith eich awdurdod.

Byddwn hefyd yn croesawu adborth ar adolygiad eich Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran gallu eich awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol fel y gallwn gymryd hyn i ystyriaeth yn ein gwaith a chefnogi ei waith ar ymdrin â chwynion.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am y ffordd gadarnhaol y mae Awdurdodau Lleol wedi ymgysylltu â'm Swyddfa i'n galluogi i gyflawni'r cyflawniadau hyn yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb. Edrychaf ymlaen yn fawr at barhau â'r gwaith a'r cydweithio hwn i sicrhau ein bod yn gwella gwasanaethau cyhoeddus ymhellach ledled Cymru.

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynorthwyo aelodau yn eu gwaith craffu ar berfformiad y Cyngor a rhannu unrhyw adborth gan y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda fy swyddfa.
- Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion.
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 30 Medi.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Brif Weithredwr eich Cyngor a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir,

M.M. Morris.

**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

cc.Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion.
Trwy Ebost yn unig: Eifion.evans@ceredigion.gov.uk

## Taflen Ffeithiau

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| **Awdurdod Lleol** | **Cwynion a Gafwyd** | **Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion** |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 55 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 60 | 0.33 |
| Cyngor Caerdydd* | 182 | 0.50 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 54 | 0.29 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 52 | 0.72 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 27 | 0.23 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 34 | 0.36 |
| Cyngor Sir y Fflint | 99 | 0.63 |
| Cyngor Gwynedd | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 29 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 27 | 0.45 |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 | 0.21 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 45 | 0.31 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 40 | 0.26 |
| Cyngor Sir Penfro | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 0.42 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 51 | 0.21 |
| Cyngor Abertawe | 71 | 0.29 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 18 | 0.19 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 71 | 0.52 |
| **Cyfanswm** | **1143** | **0.36** |

* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| Cyngor Sir Ceredigion | Cwynion a Gafwyd | % rhannu |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 6 | 12% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 3 | 6% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 1 | 2% |
| Ymdrin â Chwynion | 14 | 27% |
| Covid19 | 3 | 6% |
| Addysg | 2 | 4% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 5 | 10% |
| Cyllid a Threthiant | 2 | 4% |
| Tai | 0 | 0% |
| Trwyddedu | 0 | 0% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 10 | 19% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 5 | 10% |
| Amrywiol Eraill | 1 | 2% |
| Cyfanswm | 52 | |





Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| | Tu hwnt i Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol* | Wedi rhoi'r gorau iddi | Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd | Adroddiadau eraill a gadarnhawyd* | Adroddiadau er Budd y Cyhoedd* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | 4 | 13 | 16 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 46 |
| % Share | 9% | 28% | 35% | 28% | 0% | 0% | 0% | 0% | |

Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

## Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 13 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 54 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 7 | 58 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 45 | 159 | 28% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 7 | 49 | 14% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 13 | 46 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 24 | 8% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4 | 33 | 12% |
| Cyngor Sir y Fflint | 15 | 94 | 16% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 41 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 28 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 26 | 8% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 21 | 10% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Sir Penfro | 2 | 40 | 5% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 55 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 3 | 45 | 7% |
| Cyngor Abertawe | 10 | 76 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 20 | 10% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 9 | 62 | 15% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4 | 67 | 6% |
| **Cyfanswm** | **160** | **1108** | **14%** |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

## Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |

## Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau | - | - | - | - | - | - | 0 |
| Cyngor Cymuned Llangoedmor | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Llansantffraed | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Tref Cei Newydd | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Trefeurig | - | - | - | - | - | - | 0 |





Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.





Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **3 Hydref 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | Siarter Troseddau Casineb - Cymorth i Ddioddefwyr |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Er mwyn i Gyngor Sir Ceredigion ystyried cefnogi a chymeradwyo'r Siarter Troseddau Casineb gan elusen Cymorth i Ddioddefwyr |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | I gael gwybod am gefndir y Siarter Troseddau Casineb a manteision ei chefnogi |

**CEFNDIR:**

Mae Cymorth i Ddioddefwyr/ *Victim Support* wedi datblygu Siarter Troseddau Casineb i sefydliadau lofnodi, er mwyn creu rhwydwaith o gynghreiriaid i gefnogi ei waith gyda dioddefwyr ac i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb a'r ffyrdd o'u riportio ledled Cymru.

Mae troseddau casineb yn gallu cael effaith ddinistriol ar ddioddefwyr ac mae'r elusen wedi gweld cynnydd amlwg yn y galw am ei gwasanaethau cymorth ynghylch troseddau casineb – hyd at 70% o gynnydd yn ystod y pandemig. Gyrrwyd y cynnydd hwn yn bennaf gan achosion yn ymwneud â hil a homoffobia. Mewn ymateb i'r cynnydd hwn yn y galw lansiodd Cymorth i Ddioddefwyr y Siarter Troseddau Casineb sy'n ymrwymo sefydliadau i roi hawliau i ddioddefwyr â'u cefnogi i adnabod a riportio troseddau ac achosion sy'n ymwneud â chasineb.

Mae Cyngor Sir Ceredigion eisoes yn benderfynol o godi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb a'r ffyrdd o'u riportio. Mae gwaith a wneir drwy'r tîm Cydlyniant Cymunedol a llawer o adrannau'r Cyngor yn sail ar gyfer yr awydd i sicrhau nad yw troseddau casineb yn dderbyniol, bod pobl yn deall beth yw troseddau casineb a pha gamau y dylai dioddefwyr, tystion a chymunedau eu cymryd pan fyddant yn digwydd. Bydd llofnodi'r Siarter Troseddau Casineb gan Gymorth i Ddioddefwyr yn atgyfnerthu'r gwaith da sydd eisoes ar waith gan yr awdurdod lleol ac yn cynnig fframwaith i sicrhau bod ymrwymiad llawn yn digwydd ar bob lefel o'r sefydliad.

Ni ddylai neb yng Ngheredigion ddioddef rhagfarn neu drosedd casineb. Mae gan bawb yr hawl i barch a dylai pawb fedru byw eu bywyd bob dydd heb gael eu sarhau a'u haflonyddu

neu gael rhywun yn ymosod arnynt. Mae'n hanfodol fod dioddefwyr troseddau casineb yn cael eu cefnogi, a bod y rhai sy'n eu cyflawni yn cael eu dwyn i gyfrif.

Mae'r siarter yn nodi hawliau dioddefwyr ac ymrwymiad y sefydliadau sy'n llofnodi'r siarter i chwarae eu rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â throseddau casineb, rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i ddioddefwyr, a chodi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ymhlith staff a'r cymunedau lle maen nhw'n gweithio.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
Mae sefydliadau sy'n mabwysiadu'r siarter yn ymrwymo i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cadw at addewidion y siarter pa bryd bynnag y dôn nhw i gysylltiad â phobl sydd wedi dioddef trosedd casineb ac yn gweithio i adeiladu cymunedau cryf a chynhwysol. Hefyd bydd gofyn i sefydliadau gymryd camau allweddol ynghylch codi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb. Nid yw'r rhain yn cael eu rhagnodi a gellir eu datblygu mewn ffyrdd priodol yn ôl anghenion y sefydliad a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Dyma enghreifftiau o'r gwaith y gall sefydliadau sy'n llofnodi'r Siarter ei wneud:

- Ymgyrch ymwybyddiaeth yn fewnol ar Cerinet a thrwy e-byst wythnosol Tîm Ceredigion (yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb neu adegau nodedig eraill yn ystod y flwyddyn).
- Annog/gorfodi staff i fynychu hyfforddiant (e.e. staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd, rheolwyr ac aelodau etholedig).
- Cylchredeg gwybodaeth am Droseddau Casineb ymhlith staff.
- Cylchredeg y daflen wybodaeth ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chasineb i'r staff tai a gweithwyr eraill allan yn y gymuned.
- Cynnwys Troseddau Casineb yn y polisïau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Sicrhau bod taflenni Troseddau Casineb ar gael mewn mannau allweddol (gall Cymorth i Ddioddefwyr ddarparu taflenni; gellir eu rhoi mewn Canolfannau Lles, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden ac adeiladau'r swyddfeydd).
- Diwygio polisïau Adnoddau Dynol er mwyn cynnwys gweithredoedd o gasineb yn y gweithle.
- Hyfforddiant Troseddau Casineb i reolwyr llinell / goruchwylwyr.
- Digwyddiadau ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb.

Y camau nesaf

Os bydd Cyngor Sir Ceredigion yn dewis cefnogi'r Siarter, bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Chymorth i Ddioddefwyr i drafod y camau perthnasol. Mae rhai sefydliadau wedi canolbwyntio ar hyfforddi staff, rhai ar ledaenu gwybodaeth, eraill ar gymysgedd o'r ddau. Ar ôl dod yn bartner 'gweithredol' mae sefydliadau'n gallu defnyddio'r marc ymddiriedaeth ar eu gwefannau, deunyddiau hyrwyddo ac ati.

Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.reporthate.victimsupport.org.uk/cy/hate-crime-charter/.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A wnaed Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | Naddo am mai'r cynnig yw i gefnogi siarter. Nid yw'n cyfeirio at newid polisi neu wasanaeth. |

**ARGYMHELLIAD:**
Bod y Pwyllgor Craffu yn gwneud argymhelliad i'r Cabinet y dylai Cyngor Sir Ceredigion gefnogi'r Siarter Troseddau Casineb.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith da sydd eisoes ar waith gan yr Awdurdod Lleol o ran Troseddau Casineb ac i gynnig fframwaith i sicrhau bod ymrwymiad llawn yn digwydd ar bob lefel o'r sefydliad.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Kay Howells |
| **Swydd:** | Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 13 Medi 2021 |
| **Acronymau:** | |

# Siarter Troseddau Casineb (Cymru)

## Cefndir

Lansiwyd y Siarter Troseddau Casineb yn 2022 yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb fel ffordd o ymgysylltu â sefydliadau mawr a bach i helpu i greu amgylchedd gwell i ddioddefwyr a thystion Troseddau Casineb.

Mae'r Siarter yn tynnu sylw at hawliau dioddefwyr a meysydd cymorth allweddol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r rhai y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt.

## Proses gofrestru

Mae yna broses dri cham i gofrestru i'r siarter:

1) Cofrestru gan ddefnyddio'r ffurflen cofrestru **YMA**
2) Ymuno â sgwrs gyda staff Ymgysylltu allweddol o'r Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr Casineb Cymru. Byddwn yn eich helpu i edrych ar eich gweledigaeth y tu ôl i lofnodi'r siarter a pha gymorth y gallwn ei gynnig i'ch helpi i gyflawni hynny.
3) Unwaith y bydd camau cadarnhaol wedi'u cymryd, byddwch yn derbyn y Nod Ymddiriedaeth er mwyn i chi allu dangos eich ymrwymiad yn fwy cyhoeddus.

## Y Nod Ymddiriedaeth

Mae'r Nod Ymddiriedaeth yn symbol o ymrwymiad sefydliad i'r Siarter a dioddefwyr Troseddau Casineb. Mae'n dangos eich bod chi fel grŵp neu sefydliad yn mynd ati i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaethoch.

Mae grwpiau a sefydliadau sy'n cyflawni'r Nod Ymddiriedaeth yn gallu ei arddangos ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol, gwefan, llofnodion e-bost, cylchlythyrau a chyfathrebiadau eraill. Cadwn yr hawl i dynnu defnydd y Nod Ymddiriedaeth yn ôl ar unrhyw adeg.

## Cyswllt

I gofrestru ar gyfer y Siarter, defnyddiwch y ddolen cofrestru uchod neu cysylltwch â'ch Swyddog Hyfforddi ac Ymgysylltu lleol;

**Gogledd Cymru** trudy.pease@victimsupport.org.uk
**De Cymru & Gwent** Claire.guthrie@victimsupport.org.uk
**Canolbarth a De-orllewin Cymru** becca.rosenthal@victimsupport.org.uk

Os ydych yn sefydliad Cymru gyfan, nad ydych yn siŵr ym mha ardal yr ydych yn eistedd neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol am y Siarter, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu a Hyfforddiant Cymunedol Troseddau Casineb Becca Rosenthal: becca.rosenthal@victimsupport.org.uk

**Gadewch i ni wrthwynebu troseddu casineb gyda'n gilydd**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**www.reporthate.victimsupport.org.uk**
**0300 3031 982**

Canolfan Cymorth Casineb Cymru
Wales Hate Support Centre

Hate Crime Charter

# Hate Crime Charter (Wales)

Hate Crime Charter

## Background

The Hate Crime Charter was launched in 2020 during Hate Crime Awareness Week as a way of engaging organisations big and small in helping to create a better environment for victims and witnesses of Hate Crime.

The Charter brings to the forefront victims' rights and key areas of support that make a real difference to those affected by hate crime.

## Sign-up process

There is a three-step process to signing up to the Charter:

1) Sign up via the registration form **HERE**
2) Join in a conversation with key Engagement staff from the Wales Hate Support Centre. We will help you to look at your vision behind signing the charter and what support we can offer to help you to achieve that.
3) Once positive steps take place you'll be awarded the Trustmark for you to display more publicly your commitment.

## The Trustmark

The Trustmark is a symbol of an organisation's commitment to the Charter and victims of Hate Crime. It demonstrates that you as a group or organisation are actively delivering on the commitments that you have made.

Groups and organisations that achieve the Trustmark are able to display it on their social media channels, website, e-mail signatures, newsletters and other communications.
We reserve the right to withdraw the use of the Trustmark at any time.

## Contact

To sign up to the Charter, please use the registration link above or contact your local Training & Engagement Officer;

**North Wales** trudy.pease@victimsupport.org.uk
**South Wales & Gwent** Claire.guthrie@victimsupport.org.uk
**Mid & South West Wales** becca.rosenthal@victimsupport.org.uk

If you're a pan-Wales organisation, you're not sure which area you sit or you have general enquiries about the Charter, please contact Hate Crime Community Engagement & Training Manager Becca Rosenthal: becca.rosenthal@victimsupport.org.uk

**Let's stand up to hate crime together**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**www.reporthate.victimsupport.org.uk**
**0300 3031 982**

Canolfan Cymorth Casineb Cymru
Wales Hate Support Centre

# Victim Support Siarter Troseddau Casineb

Mae'r siarter yn amlinellu'r manylion mewn manylder, hawliau dioddefwyr ac ymrwymiad y sefydliadau i chwarae rhan mewn trechu troseddau casineb, i gynnig cefnogaeth a gwybodaeth i'r dioddefwyr, ac i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb

## Yr Hawl i gael eich Trin â Pharch

Byddwn yn eich trin â pharch ac fel unigolyn yn eich rhinwedd eich hun. Byddwn yn dathlu amrywiaeth a chynhwysiant yn ein sefydliad a'r cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

## Yr Hawl i Wneud Cwyn

Byddwn yn darparu arweiniad ar sut i wneud cwyn os nad ydych yn hapus bod eich hawliau wedi'u bodloni.

## Yr Hawl i gael eich Clywed

Byddwn yn gwrando arnoch chi ac yn cydnabod yr effaith mae'r Drosedd Casineb wedi'i chael arnoch chi. Byddwn yn gwneud hyn p'un a ydych am adrodd am ddigwyddiad i'r Heddlu ai peidio.

## Yr Hawl i Adrodd am Droseddau Casineb

Byddwn yn eich helpu i adrodd am y Trosedd Casineb i'r heddlu, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth Victim Support, lle gallwch aros yn anhysbys. Byddwn yn cofnodi'r elfen gasineb fel y ffactor ysgogol i'r Heddlu neu Victim Support.

## Yr Hawl i Breifatrwydd

Byddwn yn sicrhau bod eich data yn cael eu cadw'n ddiogel ac na fyddant yn cael eu rhannu ag unrhyw un heb eich caniatâd. Mae gennych yr hawl bob amser i ofyn am unrhyw ddata sydd gennym amdanoch, neu ofyn iddynt gael eu dileu o'n cofnodion gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## Yr Hawl i Wybodaeth

Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth am droseddau casineb a chymorth ar gael i chi mewn ffordd y gallwch ei deall. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau a sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.

## Yr Hawl i Gymorth Am Ddim a Chyfrinachol

Byddwn yn darparu arweiniad ar fanteisio ar gymorth am ddim a chyfrinachol gan Victim Support sydd wedi'i deilwra i chi a'ch anghenion. Byddwn yn eich cyfeirio at wasanaethau arbenigol eraill os bydd angen gan sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth i'ch helpu i ymdopi ac adfer o effaith Troseddau Casineb.

Canolfan Cymorth Casineb Cymru
Wales Hate Support Centre

@waleshatecrime
@VictimSupportHC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Eitem Agenda 7

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 03/10/2022 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod Hybrid: Siambr y Cyngor / Rhithiol |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2021-22 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y Strategaeth Mynd i'r Afael a Chaledi. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Er mwyn monitro'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth ymdrin ag effeithiau tlodi ar drigolion Ceredigion. |

**CEFNDIR:**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion oherwydd effaith Covid-19. Caiff y cynnydd a wneir ei fonitro gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd y byddai Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 yn cael ei ymestyn i 2023 i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Chynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a ddaw i ben yn 2023.

Mae tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi Ceredigion fel a ganlyn:

- Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, **dod i ddeall** effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.

- Cydlynu ac **atgyfnerthu gwaith ar y cyd** ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.

- **Nodi bylchau** o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Rydym yn adrodd ynghylch y cynnydd a wneir o ran y strategaeth hon bob blwyddyn, gan fesur statws Coch, Ambr a Gwyrdd y camau gweithredu y mae Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n dair colofn ar wahân:

- Costau Byw Hanfodol
- Llesiant Corfforol ac Emosiynol

- Cydnerthedd Cymunedol

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
Mae cynnydd wedi'i wneud ym mhob un o dair colofn y cynllun gweithredu ac mae tystiolaeth o rai gwelliannau i'w gweld yn y data sydd wedi'i gynnwys ar Ddangosfwrdd Data Mynd i'r Afael â Chaledi. Mae tlodi'n parhau'n bryder mawr yng Ngheredigion ac mae angen parhau â'r gwaith o leihau effaith hyn ar bobl y sir. Ers cyfnod adrodd yr adroddiad hwn, rydym wedi gweld yr argyfwng costau byw yn gwaethygu a byddwn yn monitro'r sefyllfa yn ofalus dros y misoedd nesaf.

**Casgliadau a chanfyddiadau adroddiad y Cynllun Gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaledi:**

Mae pobl yn gyffredinol yn ei chael hi'n anodd delio â dyledion cynyddol ac mae canran y bobl yng Nghymru sy'n pryderu am fedru talu biliau ymhen y mis wedi cynyddu i 35% ym Mawrth 2022. Ystyrir bod y ffigwr hwn yn uchel iawn.

Mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac ers 2014-15, Ceredigion yw'r sir sydd wedi gweld yr ail gynnydd uchaf yng Nghymru.

Mae llefydd Gofal Plant wedi parhau i ostwng. Mae hyn yn bryder gwirioneddol, yn enwedig o ystyried y cyhoeddiad diweddar am ofal plant am ddim i bob plentyn 2 oed a'r ffaith bod y boblogaeth sy'n gweithio yn dibynnu ar ofal plant.

Mae mwy o bobl angen help a chymorth wrth ddelio â phroblemau iechyd meddwl. Mae trafferthion o ran recriwtio staff yn golygu ei bod hi'n fwyfwy anodd i ddarparwyr ymateb i'r problemau. Mae sicrhau mynediad at wasanaethau arbenigol yn parhau'n anodd iawn.

Staffio oedd yr her fwyaf wrth sicrhau bod ysgolion yn aros ar agor a hynny oherwydd prinder difrifol o ran staff cyflenwi.

Mae'r cynnydd mewn costau adeiladu a'r nifer cyfyngedig o gontractwyr yn creu heriau o ran datblygu a darparu tai fforddiadwy.

**Y Camau Nesaf:**

1. Parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o effaith esblygol caledi yng Ngheredigion.

2. Adolygu'r rhestr o bartneriaid sy'n cyfrannu at y cynllun gweithredu.

3. Rhagwelir y bydd lefelau tlodi yn parhau i godi yng Ngheredigion a hynny oherwydd y costau byw cynyddol yn hytrach nag effaith uniongyrchol Covid. Mae'n debygol felly y bydd angen newid ffocws a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu i adlewyrchu hyn.

4. Sicrhau bod gwaith yr is-grŵp hwn yn cyfrannu at Gynllun Llesiant Lleol 2023-28.

| | |
|---|---|
| **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?**<br>**Os naddo, nodwch pam –** | Naddo, adroddiad cynnydd yw hwn ac nid yw'n cyfeirio at newid mewn polisi. |

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

***Crynodeb:***

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amcan y strategaeth yw lleihau effaith hirdymor tlodi ar drigolion Ceredigion |
| **Integreiddio:** | Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Awdurdod Lleol. Mae'n cefnogi gwaith ein Dyletswydd Economaidd Strategol. |
| **Cydweithio:** | Gwneir y darn hwn o waith ar y cyd rhwng gwasanaethau'r Awdurdod Lleol ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| **Cynnwys:** | Mae'r staff ar y rheng flaen yn cyfrannu at y diweddariadau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r aelodau hyn o staff yn gweithio gyda'r trigolion y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf. Maent yn sicrhau bod y gwaith hwn yn diwallu anghenion y bobl. |
| **Atal:** | Trwy ymrwymo i Fynd i'r Afael â Chaledi yng Ngheredigion, ein bwriad yw atal problemau sy'n codi o fyw mewn tlodi rhag digwydd yn y lle cyntaf. |

**ARGYMHELLIAD:**

Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2021-22.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Mae'r adroddiad yn ddisgrifiad cywir o'r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaledi ym mlwyddyn ariannol 2021-22.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Cathryn Morgan |
| **Swydd:** | Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 12/09/2022 |



# STRATEGAETH MYND I'R AFAEL Â CHALEDI 2020 – 2023 CEREDIGION

# ADRODDIAD CYNNYDD MAWRTH 2022

## Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagymadrodd | 3 |
| Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 | 4 |
| <u>Cynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Chaledi</u> | |
| Colofn 1 – Costau Byw Hanfodol | 5 |
| Colofn 2 – Llesiant Corfforol ac Emosiynol | 7 |
| Colofn 3 – Cymunedau Cydnerth | 10 |
| Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym – ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth? | 12 |
| Casgliad a Chanfyddiadau | 15 |
| Camau nesaf | 16 |
| Atodiad A: Partneriaid sy'n Cyfrannu | 17 |

## Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion oherwydd effaith Covid-19. Mae'n amlinellu'r gwaith y mae partneriaid a chydweithwyr wedi'i gyflawni yn 2021-22 i sicrhau'r cymorth mwyaf posibl gyda chostau byw hanfodol, sicrhau'r llesiant corfforol ac emosiynol gorau posibl, a sicrhau cymunedau cefnogol a chysylltiedig ar draws Ceredigion.

Cyhoeddwyd Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 ym mis Awst 2020 fel olynydd i Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Ceredigion 2016-20. Cytunwyd y byddai'r strategaeth yn cael ei hymestyn i 2023 er mwyn ei chysoni â Chynllun Llesiant Lleol BGC Ceredigion a ddaw i ben yn 2023.

Tri phrif amcan Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion:

- Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, **dod i ddeall** effaith COVID-19, wrth iddi newid, ar y caledi y mae unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion yn ei wynebu, a hynny trwy goladu a dadansoddi data.
- Cydgysylltu ac **atgyfnerthu gwaith ar y cyd** ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo'r holl gymorth sydd ar gael ac i fanteisio ar y cymorth hwnnw.
- **Pennu bylchau** o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran yr anghenion caledi wrth iddynt newid i lunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Mae cynllun gweithredu yn cael ei gyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid a thimau sector cyhoeddus, a restrir yn Atodiad B. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n dair cholofn ar wahân ar gyfer gweithredu:

**1** COSTAU BYW HANFODOL
*(Cymorth i'r rheiny sy'n wynebu caledi ariannol)*

**2** LLESIANT CORFFOROL AC EMOSIYNOL
*(Cymorth i'r rheiny sy'n dioddef gorflinder, straen a gorbryder)*

**3** CYMUNEDAU CYDNERTH
*(Sicrhau y gall pobl gael mynediad at wasanaethau)*

Dymunwn gydnabod yr ymrwymiad a'r gefnogaeth y mae cydweithwyr a phartneriaid wedi'u dangos a diolch iddynt am eu cydnabyddiaeth barhaus o bwysigrwydd cydweithio i fynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion.

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth a fydd yn cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Y nodau eang ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi yw:

- cynyddu incwm aelwydydd sy'n cynnwys plant;
- sicrhau nad yw plant wedi'u hamddifadu'n sylweddol;
- hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni plant;
- darparu i rieni plant y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth am dâl;
- lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant;
- cefnogi rhianta plant;
- lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant;
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu mewn tai gweddus;
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu mewn cymunedau diogel a chydlynus;
- lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant;
- cynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;
- cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth;
- cynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi eu strategaeth fel rhan annatod o'u Cynllun Llesiant Lleol. Fodd bynnag, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi dewis cyhoeddi strategaeth ar wahân er mwyn cadw ffocws penodol ar faterion yn ymwneud â thlodi yng Ngheredigion.

Mae'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi yn cael ei monitro gan Is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Mae materion yn ymwneud â Thlodi Plant yn cael eu craffu gan y Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc sy'n cwrdd wythnos cyn Is-grŵp Tlodi y BGC er mwyn gallu uwchgyfeirio materion i'r Is-grŵp Tlodi ar unwaith.

## 1 COSTAU BYW HANFODOL
*(Cymorth i'r rheiny sy'n wynebu caledi ariannol)*

Cynigiwyd cymorth ariannol yn uniongyrchol i unigolion a busnesau a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar hyfforddiant a chyflogaeth, fel bod y gweithlu lleol yn barod ac yn gallu dychwelyd i'r gwaith pan oedd cyfyngiadau Covid yn cael eu llacio, a bod cyflogwyr lleol yn barod i ailagor ar gyfer busnes.

**Porth Cymorth Cynnar: Gwasanaeth Cymorth Cynnar**

Ymatebodd y tîm i **714** o atgyfeiriadau am gymorth ymarferol ac ariannol. Cyhoeddwyd rhestrau o ddanfoniadau bwyd, banciau bwyd, grantiau ac adnoddau eraill ar wefan y Cyngor. Darparwyd **250 o** gotiau gaeaf i bobl ifanc 0-25 oed.

**Porth Gofal: Cymorth Ariannol a Thai Cymdeithasol**

Mae'r Gronfa Cartrefi Cynnes, ECO Flex yn cael ei gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni; mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cyfeirio at gynllun Nyth Llywodraeth Cymru. Cafodd rhai cynlluniau grant eu hatal dros dro yn ystod y cyfnod clo a arweiniodd at lai o osodiadau; fodd bynnag: gosodwyd **246** o systemau gwres canolog am y tro cyntaf, gosodwyd **50** o foeleri newydd yn lle'r rhai oedd wedi torri, a derbyniwyd **433** o geisiadau am grantiau ECO Flex yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethpwyd **1,405** o geisiadau am Dai Cymdeithasol a nododd **12%** o ymgeiswyr 'pryderon ariannol' fel un o'u rhesymau dros yr angen am gymorth (14% yn 2020-21). Mae costau adeiladu cynyddol a chyflenwad cyfyngedig o gontractwyr wedi arwain at flwyddyn heriol o ran datblygu a darparu tai fforddiadwy. Er gwaethaf hyn, darparwyd **132** o unedau tai fforddiadwy yn 2021-22 (68 ar gyfer y farchnad rhentu, 8 ar gyfer y cynllun 'rhentu i berchnogi' a 56 o unedau tai Gofal Ychwanegol).

Rhoddwyd cymorth caledi ariannol ychwanegol i'r rhai sy'n gadael gofal gan sicrhau bod llawer wedi gallu cadw eu tenantiaethau.

**Darparwr Cymorth Tai: Cymdeithas Gofal**

Cynigir cymorth ymarferol i'r rhai sy'n ddigartref neu a allai fod yn ddigartref – parseli bwyd, cynyddu incwm, cyngor ar y Gofrestr Tai Cymdeithasol ac opsiynau tai rhent dros dro neu breifat. Mae'r **57** uned o lety dros dro wedi'u meddiannu'n llawn ar y cyfan ond mae'n fwy anodd bellach i bobl fforddio taliadau gwasanaeth a chostau hanfodol eraill oherwydd prisiau cynyddol. Yn gyffredinol, mae pobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi â dyled gynyddol.

**Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Roedd **5,617** o bobl yn derbyn Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mis Mawrth 2022, gostyngiad o 6% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd cyflymder cyfartalog prosesu ceisiadau newydd ychydig yn llai nag **19** diwrnod a **7** diwrnod ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol. Er gwaetha'r pwysau ychwanegol wrth flaenoriaethu Cynllun Cymorth Hunanynysu Covid-19 a Thaliadau Tanwydd Gaeaf, mae cyfartaleddau cyflymder prosesu yn parhau o fewn cyfartaleddau Budd-dal Tai y DU ar gyfer 21/22. Mae gwerth **£337,443** o Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai wedi'u talu i helpu'r rhai sy'n wynebu anawsterau ariannol a helpu i ddiogelu tenantiaethau.

**Prydau Ysgol Am Ddim a Grant Amddifadedd Disgyblion**

Mae ymgorffori asesiadau Prydau Ysgol am Ddim ochr yn ochr â budd-daliadau eraill wedi symleiddio'r broses ar gyfer y rhai sy'n gallu eu hawlio. Mae hawlwyr Prydau Ysgol am Ddim wedi parhau i gynyddu o 953 (Medi 2019) i **1,783** (Mawrth 2022). Erbyn hyn mae pob ysgol yn gweithredu system arlwyo heb arian. Darparwyd taliadau BACS neu dalebau o £19.50 yr wythnos fesul disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros bob gwyliau ysgol (disgwylir i'r cynllun hwn ddod i ben ar 31/08/2022). Darperir taliadau parhaus o Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer gwisg ysgol ac offer i grwpiau blwyddyn perthnasol.

**Gofal plant**

Mae lleoedd gofal plant wedi parhau i ostwng. Mae hyn yn bryder gwirioneddol, yn enwedig yn sgil y cyhoeddiad diweddar am ofal plant o ddim i bob plentyn 2 oed, a dibyniaeth y boblogaeth sy'n gweithio ar ofal plant. Roedd **1,596** o leoedd gofal plant ar gael ym mis Mawrth 2022 (gostyngiad o 74 o leoedd ers mis Mawrth 2020). Sicrhawyd bod **£364,472** ar gael i'r sector i leddfu effaith y pandemig ac i gefnogi cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant.

**Hyfforddiant, Cyflogaeth a'r Economi Leol**

Mae Tîm Cymorth Cyflogaeth y Cyngor wedi ehangu. Roedd **42** o'u cleientiaid yn llwyddiannus gyda chanlyniadau swyddi a chwblhaodd **18** o bobl gymwysterau cyflogadwyedd, gan gynnwys cymwysterau HGV, i gefnogi eu proses chwilio am waith.

Erbyn hyn mae cyflogwyr yn mynychu'r ddwy Ganolfan Waith yng Ngheredigion yn rheolaidd i gynnig cyfweliadau swyddi wyneb yn wyneb i gwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Kickstart wedi cael ei groesawu gan gyflogwyr yn yr ardal ac mae amrywiaeth o swyddi gwag ar gael i gwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau rhwng 18 a 24 oed. Mae hyn yn darparu tystiolaeth hanfodol o gyflogadwyedd pan fydd y person ifanc yn mynd ymlaen i gyflogwr gwahanol.

Mae Tîm Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor wedi cynghori ystod eang o fusnesau ar y mesurau sydd eu hangen i gydymffurfio â chyfyngiadau'r coronafeirws. Gwnaed **2,659** o ymweliadau cynghori â safleoedd eleni.

**Cyngor ar Bopeth Ceredigion**

Parhaodd gwasanaethau hygyrch trwy gydol y flwyddyn yn ogystal â hyfforddiant cyngor ar ynni i staff ar y rheng flaen ac aelodau'r cyhoedd trwy fideo-gynadledda. Cafodd **832** o unigolion eu cynorthwyo gyda 5,655 o ymholiadau.

Cafodd **£528,840** o incwm ychwanegol ei sicrhau i gleientiaid a dilëwyd gwerth **£132,024** o ddyledion. Y maes mwyaf o waith budd-daliadau yw budd-daliadau i bobl ag anabledd ac ymatebodd y gwasanaeth cynghori i dros 800 o geisiadau am gymorth gyda Thaliadau Annibynnol Personol, Lwfans Gweini a Lwfans Byw i'r Anabl.

## 2 LLESIANT CORFFOROL AC EMOSIYNOL
*(Cymorth i'r rheiny sy'n dioddef gorflinder, straen a gorbryder)*

Cynigiwyd cymorth cyffredinol ac wedi'i dargedu i unigolion oedd yn profi straen, gorflinder a gorbryder o ganlyniad i'r pandemig. Y nod yn y tymor hwy yw cynyddu faint o gymorth sydd ar gael i wella llesiant emosiynol a meddyliol a darparu seibiant i'r rhai yr oedd ei angen arnynt.

**Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad**

Adolygwyd a diwygiwyd Amcanion Llesiant Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion er mwyn hoelio sylw ar yr angen i wella ar ôl y pandemig, o ran cefnogi'r economi, ailagor gwasanaethau'n ddiogel ac amddiffyn pobl rhag tlodi.

**Rhwydwaith Canolfannau Teuluoedd Ceredigion**

Cafodd **637** o deuluoedd eu cefnogi gan y **Rhwydwaith Canolfannau Teulu,** ar-lein i ddechrau, ond wrth i gyfyngiadau leddfu trwy sesiynau wyneb yn wyneb. Dosbarthwyd **420** o becynnau adnoddau a gweithgareddau i deuluoedd a gwnaed **32 o** atgyfeiriadau ar gyfer cymorth wedi'i dargedu gan y Tîm o Amgylch y Teulu, Lleferydd ac Iaith, Mind, Canolfan Cyngor ar Bopeth, Gofal Plant ar gyfer Cyflogaeth (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth), Dechrau'n Deg a chymorth i Ofalwyr.

**Gwasanaethau Ysgolion**

Mae llesiant wedi bod yn flaenoriaeth yn y mwyafrif o Gynlluniau Datblygu ysgolion. Mae Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol yn gynorthwywyr addysgu sydd wedi'u hyfforddi i roi cymorth sgiliau emosiynol a chymdeithasol i blant. Erbyn hyn, mae gan **95%** o ysgolion Gynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol hyfforddedig. Ailddechreuodd cwnsela wyneb yn wyneb ym mis Medi 2021 ac mae **194** o ddisgyblion wedi ymgysylltu ers dechrau'r tymor.

Mae **DASH Ceredigion** yn cynnig cyfleoedd hamdden i blant/bobl ifanc anabl a seibiant i deuluoedd. Arweiniodd diffyg darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol

at ostyngiad mawr yn y defnydd o gymorth Ymuno, gyda dim atgyfeiriadau newydd a dim ond **3** phlentyn yn cael cymorth yn 2021-22. Arweiniodd y pandemig at lai o Benwythnosau DASHAway yn ystod y flwyddyn a chlwb ieuenctid yn ystod y tymor ar gyfer grwpiau llai o bobl ifanc ag anabledd. Mynychodd **36** o blant ddiwrnodau gweithgareddau Cynllun Chwarae dros yr haf a chafodd **2** blentyn gefnogaeth un-i-un.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phorth Cymorth Cynnar: Cymorth i ofalwyr**

Cefnogwyd **179** o ofalwyr a derbyniwyd **537** o geisiadau ar gyfer y Gronfa Gofalwyr. Mae 139 o gardiau Oedolion sy'n Ofalwyr ac 11 o gardiau Gofalwyr Ifanc wedi'u dosbarthu, gan roi ffordd hawdd i'r rhai sy'n cario'r cerdyn i gadarnhau eu cyfrifoldebau gofalu, cael mynediad at fudd-daliadau a gostyngiadau ac amseroedd siopa â blaenoriaeth yn ystod y pandemig. Roedd rhifyn gwanwyn cylchgrawn yr Uned Gofalwyr yn canolbwyntio ar ffyrdd o wella iechyd meddwl a llesiant.

**Porth Cymorth Cynnar: Cymorth ac Atal**

Dosbarthwyd dros 300 o becynnau llesiant i blant a phobl ifanc fel rhan o'r fenter Gaeaf Llawn Lles. Mae gwaith ieuenctid allgymorth a datgysylltiedig wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed Powys a Choices. Cafodd **498** o bobl ifanc eu cynorthwyo: 60% oherwydd ymddygiad heriol, 20% am resymau llesiant emosiynol a meddyliol, ac 20% am resymau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ynysu cymdeithasol neu resymau eraill.

Ariannwyd deg mudiad ieuenctid gwirfoddol lleol i ddatblygu cymorth a darpariaeth llesiant emosiynol a meddyliol i bobl ifanc. Roedd **143** o bobl ifanc wedi elwa ar ystod o weithgareddau celfyddydau creadigol, cerddoriaeth a drama dan do ac yn yr awyr agored.

**Area 43**

Mae Clystyrau Meddygon Teulu Gogledd a De Ceredigion wedi comisiynu Area 43 i ddarparu gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc 13-30 oed. Mae hefyd yn cynnig cymorth emosiynol i bobl ifanc yn Aberteifi ac wedi agor caffi ieuenctid i ddarparu lle i ymlacio a hefyd safle ar gyfer gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau a darparu gwasanaethau uniongyrchol i bobl ifanc 14-25 oed.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Allgymorth Datblygu Cymunedol**

Mae **823** o bobl wedi ymgysylltu â'r tîm ac mae negeseuon iechyd cyhoeddus amrywiol bellach ar gael mewn 19 o ieithoedd gwahanol. Cafodd **70** o unigolion eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio ar gyfer materion iechyd penodol a chafodd **38** o bobl gymorth un-i-un.

Mae gwasanaeth testun newydd – ChatHealth – ar gael bellach i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol pobl ifanc 11-19 oed. Dywedir bod y gwasanaeth yn hygyrch iawn ac fe'i defnyddiwyd gan berson ifanc digartref i gael cymorth heb fod angen

atgyfeiriad gan feddyg teulu neu weithiwr proffesiynol arall. Mae Kooth yn wasanaeth cwnsela a llesiant emosiynol ar-lein newydd arall i bobl ifanc 11-18 oed.

**Ysgolion a Diwylliant: Theatr Felinfach**

Cynigiwyd amrywiaeth o sesiynau drama ar-lein i blant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod clo. Roedd aelodau hŷn y Grŵp Hwyl a Hamdden wedi cymryd rhan mewn prosiect cardiau post Cadw mewn Cysylltiad. Roedd y pantomeim Nadolig yn llwyddiannus, er gwaethaf cyfyngiadau Covid, gan gynnig 266 o gyfleoedd i gymryd rhan a denu cynulleidfaoedd o dros 800 o bobl. Dechreuodd gwaith cyfranogol wyneb yn wyneb o ddifrif yng ngwanwyn 2022 gyda chyfleoedd i bobl ifanc weithio gydag artistiaid proffesiynol ym maes celf, dawns, hanes a drama. Darparwyd dros **13,000** o gyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb i gymryd rhan yn ystod 6 mis olaf y flwyddyn.

**Porth Cymorth Cynnar: Canolfannau Llesiant**

Roedd gweithgareddau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) wedi ailgychwyn yn hydref 2021. Cynigir gweithgareddau wyneb yn wyneb a rhithiol i gleientiaid. Mae dull graddol o ailgyflwyno'r cynllun wedi'i fabwysiadu mewn ymateb i gyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws yn y sir, ac mae'r niferoedd sy'n gallu mynychu sesiynau gweithgareddau wedi cynyddu'n raddol mewn ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Mae **150** o bobl yn mynychu'r cynllun yn rheolaidd erbyn hyn ond mae rhestr aros o 105 o gleientiaid.

Mae categori newydd "Aelodaeth Pasbort" wedi'i gyflwyno ar gyfer unigolion sy'n derbyn budd-dal prawf modd am gost o £15 y mis ar gyfer unigolyn a £30 y mis ar gyfer teuluoedd sy'n darparu mynediad diderfyn i ystafelloedd ffitrwydd / dosbarthiadau ymarfer corff / nofio mewn cyfleusterau a weithredir gan y Cyngor.

**Gwasanaethau Amgylcheddol**

Mae gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio wedi parhau. Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd yn cynnwys Ffordd Gwbert, Aberteifi, uwchraddio llwybr Prifysgol Llanbedr Pont Steffan, cynllun troedffordd Waunfawr, arafu traffig Ysgol Uwchradd Penglais ac uwchraddio troedffyrdd Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos. Cymeradwywyd yr Adolygiad o Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, a chyflwynwyd mapiau Llwybr y Dyfodol i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2022

**Porth Cynnal – Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau**

Roedd **116** o achosion gweithredol gan y tîm Iechyd Meddwl (Ionawr-Rhagfyr 2021) a chynhaliwyd dros **137 o** asesiadau/gweithgareddau Deddf Iechyd Meddwl. Darparwyd **121** o becynnau cymorth, gofal cartref a lleoliadau. Mae'r cynllun 'Lle i Anadlu' yn darparu seibiant ariannol rhag dyledion pan fydd rhywun mewn argyfwng iechyd meddwl neu'n glaf mewnol. Hyrwyddir y cynllun hwn yn eang gan y tîm.

Mae gan y tîm Camddefnyddio Sylweddau lwyth achosion cyfnewidiol o tua **50** o gleientiaid. Mae'r mwyafrif o'u cleientiaid yn profi camddefnyddio alcohol; bu cynnydd

yn nifer yr oedolion hŷn a nodir gan Nyrsys Cyswllt Alcohol yn yr ysbyty. Derbyniwyd **61** o atgyfeiriadau (2021-22) a chaewyd 18 o achosion. Dangosodd 14 welliant wrth gau, roedd 2 wedi aros yr un fath, ac roedd 2 wedi gwaethygu.

**Darparwr Cymorth Tai: Cymdeithas Gofal**

O ganlyniad i'r pandemig ynghyd â'r argyfwng costau byw cynyddol, mae problemau iechyd meddwl yn amlwg iawn. Mae angen cymorth a chefnogaeth ar lawer mwy o bobl ac mae problemau recriwtio. Mae mynediad at wasanaethau arbenigol i helpu'n uniongyrchol gyda'r materion hyn yn dal i fod yn hynod o anodd.

**Fforwm Cymunedol Penparcau**

Gellir casglu dros 100 o fagiau bwyd y tu allan i Hwb Penparcau. Danfonir 35-45 o fagiau bwyd, blodau a chwmni i'r rhai sydd ei angen yn ardal Penparcau. Mae'r rhai mwyaf agored i niwed yn cael ymweliad a galwad ffôn o leiaf unwaith yr wythnos yn ogystal â'r danfoniadau bwyd. Mae'n gweithredu 7 diwrnod yr wythnos erbyn hyn ac wedi ymuno â chynllun Cyngor ar Bopeth sydd wedi gosod ffôn a gliniadur yn y Ganolfan er mwyn i bobl allu cysylltu â Chyngor ar Bopeth o bell.

## 3 CYMUNEDAU CYDNERTH
*(Sicrhau y gall pobl gael mynediad at wasanaethau)*

Cynlluniwyd y gweithgareddau canlynol i feithrin timau ymateb cymunedol lleol a nodi rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau. Y nod yn y tymor hwy oedd cryfhau ymhellach rwydweithiau cymorth cymunedol a mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan y rhai na allant gael mynediad at wasanaethau ar-lein neu dros y ffôn.

**Porth Cymorth Cynnar: Cymorth Cynnar a CAVO**

Mae ymgyrch 'Cysylltu â Charedigrwydd' Ceredigion wedi datblygu'n raddol. Mae gan y grŵp cyfryngau cymdeithasol **676** o aelodau erbyn hyn, mae 11 o 'Gysylltwyr Caredigrwydd' wedi'u recriwtio, ac mae 26 o weithgareddau wedi'u cofrestru ar dudalen 'Cysylltu' Ceredigion. Rhestrwyd **1,735** o wasanaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer dinasyddion Ceredigion ar wefan Dewis Cymru ym mis Mawrth 2022 (gostyngiad bach o 1,811 o adnoddau ym mis Medi 2021).

Ymunodd **238** o unigolion â Phrosiect Llesiant Delta sy'n eu helpu i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy, a dosbarthwyd **17** llechen i gleientiaid. Benthycwyd **16** iPad i rieni â phlant cyn oed ysgol

**Cyswllt Cwsmeriaid Cyngor Ceredigion**

Mae swyddfeydd arian parod yn parhau ar gau ym mis Mawrth 2022. Mae Llyfrgelloedd Ceredigion ar agor ar gyfer Clicio a Chasglu a mynediad at gyfrifiaduron personol trwy apwyntiad. Mae mynediad wedi'i leihau i 60 munud er mwyn caniatáu ar gyfer cyfyngiadau Covid. Mae gwasanaeth llyfrgell ar-lein

cynhwysfawr ar gael, ond y nod oedd ehangu argaeledd y rhyngrwyd ar faniau'r Llyfrgell ac ymestyn apwyntiadau cyfrifiadurol i 2 awr.

**Porth Cymorth Cynnar: Llesiant a Dysgu Cymunedol**

Mae Dysgu Bro a Hyfforddiant Ceredigion wedi dechrau'r tymor ar-lein. Cynigiwyd sesiynau am ddim i gael mynediad at ddysgu ar-lein a benthycwyd pecyn digidol i ddysgwyr oedd ei angen. Y nod oedd gweithio gyda gwasanaeth ADY ar gyfer ysgolion i ddarparu dysgu trosiannol i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; ond nid yw hyn wedi bod yn bosibl gan fod y Canolfannau ar gau o hyd.

Mae'r broses dendro ar gyfer gwaith adeiladu ar Ganolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan bron wedi'i chwblhau. Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Gorffennaf 2022 ac yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2023. Mae cynlluniau 3D o'r Ganolfan Lesiant yn cael eu harddangos yng Nghanolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan.

**Porth Cymorth Cynnar: Cymorth ac Ymyrraeth**

Mae'r ddarpariaeth allgymorth ieuenctid symudol wedi ymgysylltu â 4 cymuned a **32** o bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl oherwydd eu sefyllfa fyw bresennol a'u hymddygiad cysylltiedig.

Mae'r tîm yn parhau i gydweithio â Cheredigion Actif, Chwaraeon Cymru, Hyfforddiant Ceredigion a phartneriaid allweddol eraill i ddarparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau, gweithgareddau, sesiynau blasu a gweithdai, er enghraifft: sesiynau blasu mewn gwaith coed, mecaneg, trin gwallt, harddwch a phlymwaith ar gyfer ymadawyr blwyddyn 11, a darpariaeth ôl-16 gyda Hyfforddiant Ceredigion.

**Ysgolion a Gwasanaethau Diwylliant**

Darparwyd adnoddau dysgu ar gyfer dysgu gartref i ddisgyblion oedd yn dioddef o bryder yn ymwneud â Covid neu'n hunanynysu. Rhoddwyd cymorth adolygu digidol i bob ysgol i'w helpu i baratoi ar gyfer cau'n annisgwyl a chaiff absenoldeb ei fonitro'n agos er mwyn cynnig y cymorth priodol cyn gynted â phosibl. Materion staffio oedd yn peri'r her fwyaf oherwydd diffyg difrifol o ran staff cyflenwi. Bu rhai ysgolion a llawer o ddosbarthiadau ar gau am gyfnodau yn ystod y cyfnod hwn. Cymerwyd pob cam posibl i gadw'r ysgolion ar agor.

**CSC, Economi ac Adfywio – Datblygu Digidol**

Er bod Ceredigion wedi gweld gwelliannau mewn seilwaith digidol dros y 12 mis diwethaf a bod rhai ardaloedd yn profi rhai o'r cyflymderau band eang cyflymaf yn y DU, mae ardaloedd o'r Sir sy'n dal i fod yn is na lefelau ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU o ran band eang cyflym iawn a chysylltedd symudol.

Ar hyn o bryd mae gan 26.5% o'r rhanbarth fynediad at Fand Eang Cyflym Iawn (100mbps+) o'i gymharu â Chymru (48%) a'r DU (68%), ond nid yw 8.5% o eiddo

yng Ngheredigion yn gallu cael mynediad at gysylltiad o fwy na 10Mbps o'i gymharu â dim ond 2.25% ar gyfer Cymru ac 1.8% ar gyfer y DU sy'n profi'r broblem hon.

Er gwaetha'r ffigurau hyn, ar hyn o bryd mae gan Geredigion 26.5% o gysylltiad ffeibr i'r adeilad, sy'n caniatáu cyflymder lawrlwytho o hyd at 1gbps (1000mbps) sy'n fwy na chyfartaledd Cymru o 26% a'r lefel uchaf ar gyfer Awdurdod Lleol gwledig a sawl Awdurdod Lleol arall yng Nghymru.


### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym – ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth?

Mae llawer iawn o gymorth wedi'i ddarparu gan gydweithwyr a phartneriaid i leddfu effaith caledi a achosir gan y pandemig. Fodd bynnag, rhaid i ni ddibynnu ar ddata pendant i ddweud wrthym a ydym yn gwneud gwahaniaeth. Mae cyfres o ddangosfyrddau data wedi cael eu creu sy'n galluogi Is-grŵp Tlodi BGC i fonitro effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir. Mae'r rhain yn casglu data byw o wefannau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd y dangosfyrddau yn cael eu harddangos mewn digwyddiad arddangos cenedlaethol yn hydref 2022 a gynhelir gan Lywodraeth Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Credyd Cynhwysol

Gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Ngheredigion ym mis Mawrth/Ebrill 2020 ar ddechrau'r pandemig. Roedd y nifer yn parhau i gynyddu'n raddol hyd at fis Mawrth 2021 ond mae'r niferoedd wedi dechrau gostwng erbyn hyn. Mae'r ffigur ym mis Mawrth 2022 yn parhau i fod 112% yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ym mis Mawrth 2020. Mae'n debygol, gyda chostau byw uwch, na fydd nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn lleihau yn y dyfodol agos.


Credyd Cynhwysol





## Nifer y Bobl sy'n Hawlio Budd-ddaliadau

Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-ddaliadau yn fesur o nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf oherwydd eu bod yn ddi-waith. Cynyddodd nifer y bobl sy'n hawlio budd-ddaliadau hefyd pan ddechreuodd y pandemig gael effaith am y tro

cyntaf yn y DU, ac, yn debyg i ffigurau Credyd Cynhwysol, fe ostyngodd yn sylweddol erbyn mis Mawrth 2022, ond mae'n parhau i fod 60% yn uwch nag ym mis Mawrth 2020.





## Cyflogaeth Ieuenctid




Mae effaith Covid ar bobl ifanc wedi bod yn destun pryder arbennig ac felly rydym yn monitro nifer y bobl 18-24 oed sy'n hawlio budd-ddaliadau. Yn flaenorol, roedd y garfan hon yn dangos tuedd debyg i'r nifer gyffredinol sy'n hawlio budd-ddaliadau, fodd bynnag erbyn hyn mae'n dangos cyfradd dychwelyd i gyflogaeth gyflymach gyda newid canrannol o 27% yn fwy o nifer y bobl sy'n hawlio budd-ddaliadau rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022. Roedd 185 o bobl ifanc yn hawlio budd-daliadau oherwydd eu bod yn ddi-waith ym mis Mawrth 2020, cynyddodd hyn i 445 o bobl ifanc ym mis Mawrth 2021 ond gostyngodd i 235 ym mis Mawrth 2022.

## Cynllun Ffyrlo

Yn ei anterth ym mis Gorffennaf 2020 roedd 20% o'r rhai a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun ffyrlo yng Ngheredigion wedi manteisio arno (4,700 o 23,700 o unigolion cymwys). Dechreuodd y nifer leihau ym mis Gorffennaf 2021 a gofynnwyd i gyflogwyr gyfrannu at gost cyflogau gweithwyr ar ffyrlo. Ar ddiwedd y cynllun ym mis Medi 2021 roedd 3% o'r rhai a oedd yn gymwys ar gyfer ffyrlo yn dal i gael eu cefnogi gan y cynllun (cyfanswm o 700 o bobl). Mae hyn yn cyfateb yn gyffredinol â rhanbarth canolbarth Cymru.




Mae'n anoddach mesur yr effaith ar lesiant lleol. Ers mis Mawrth 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu arolwg o farn y cyhoedd ar y coronafeirws (Covid 19). Cynhelir yr astudiaeth ar-lein gan Ipsos MORI gydag oedolion yng Nghymru rhwng 16 a 74 oed. Rydym yn hyderus bod agweddau cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu ar lefel leol yn gyffredinol.

Mae bygythiad canfyddedig pobl o Covid wedi lleihau'n sylweddol. Ym mis Mawrth 2020 roedd 78% o bobl yn teimlo bod Covid yn fygythiad uchel neu uchel iawn i'r wlad. Roedd hyn wedi gostwng i 29% erbyn mis Mawrth 2022, a hawdd deall hynny. Yn ddiddorol, roedd bygythiad canfyddedig pobl o Covid iddynt hwy eu hunain yn llawer is. Teimlai 43% fod Covid yn fygythiad uchel neu uchel iawn iddynt hwy eu hunain ym mis Mawrth 2020, ac roedd hyn wedi gostwng i 20% ym mis Mawrth 2022.

Gofynnwyd i bobl hefyd a oeddent yn teimlo y byddent yn gallu talu biliau mis nesaf. Ym mis Ebrill 2020, roedd 31% o bobl yn hynod bryderus neu'n bryderus iawn am eu gallu i dalu eu biliau. Amrywiodd y ganran rhwng 18% a 31% dros y ddwy flynedd nesaf ond ym mis Mawrth 2022 cyrhaeddwyd y ganran uchaf o 35%. Dyma pryd roedd cost bwyd a thanwydd wedi dechrau cynyddu, ac mae'n amlwg bod ffactorau heblaw'r pandemig wedi dechrau effeithio ar bobl yng Nghymru.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael ei redeg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Cynhelir yr arolwg yn barhaus ledled Cymru bob blwyddyn, gan gwmpasu tua 12,000 o bobl 16 oed a hŷn. Gofynnwyd i bobl a oedd digon o bobl y gallant ddibynnu arnynt pan fydd ganddynt broblemau. Efallai fod y pandemig wedi helpu pobl i deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth, gan fod 69% yn teimlo bod ganddynt bobl y gallent ddibynnu arnynt yn 2019-20, ac roedd hyn wedi cynyddu i 78% yn 2021-22. Roedd 22% o bobl yn dal i deimlo 'nad oedd' ganddynt neu fod ganddynt rywun i ddibynnu arno 'fwy neu lai', fodd bynnag.

Yn olaf, mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac wedi gweld yr ail gynnydd uchaf yn genedlaethol ers 2014-15. Yng Ngheredigion mae 3,459 o blant yn byw mewn tlodi. Mae hwn yn fater rhanbarthol allweddol sy'n effeithio ar Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro hefyd. Mae cyfran y tair ardal yng Ngorllewin Cymru yn uwch na'r cyfartaledd, a bu cynnydd yn y tair ardal ers 2014-15.

## Casgliad a Chanfyddiadau

Mae canran yr ymgeiswyr i'r Gofrestr Tai a nododd 'bryderon ariannol' fel un o'u rhesymau dros yr angen am gymorth wedi gostwng ychydig bach, o 14% yn 2020-21 i 12% yn 2021-22. Fodd bynnag, ceir adroddiadau ei bod yn fwy anodd i bobl fforddio taliadau gwasanaeth a chostau hanfodol eraill oherwydd prisiau cynyddol. Mae pobl yn gyffredinol yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda dyled gynyddol ac mae canran y bobl yng Nghymru sy'n poeni am allu talu biliau mis nesaf wedi cyrraedd uchafbwynt o 35% ym mis Mawrth 2022.

Cymorth gyda budd-daliadau i bobl ag anabledd yw maes gwaith mwyaf gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Ceredigion.

Disgwylir cynllun sy'n ariannu'r taliad o £19.50 yr wythnos fesul disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ysgol ddod i ben ar 31/08/2022. Mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac wedi gweld y cynnydd ail uchaf yn genedlaethol ers 2014-15.

Mae'r nifer sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ym mis Mawrth 2022 yn parhau i fod 112% yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ym mis Mawrth 2020. Mae'n debygol, gyda chostau byw uwch, na fydd nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn lleihau yn y dyfodol agos. Mae nifer y bobl sy'n hawlio oherwydd diweithdra yn parhau i fod 60% yn uwch nag ym mis Mawrth 2020.

Mae lleoedd gofal plant wedi parhau i ostwng. Mae hyn yn bryder gwirioneddol, yn enwedig yn sgil y cyhoeddiad diweddar am ofal plant am ddim i bob plentyn 2 oed, a dibyniaeth y boblogaeth sy'n gweithio ar ofal plant. Mae'r pandemig a'r diffyg darpariaeth Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol hefyd yn effeithio ar fynediad plant anabl i gyfleoedd gofal plant, adloniant a hamdden.

Mae 105 o bobl ar restr aros y Gwasanaeth Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS), a bu cynnydd yn nifer yr oedolion hŷn sy'n profi camddefnydd o alcohol.

Cefnogwyd 498 o bobl ifanc gan wasanaeth Cymorth ac Atal y Cyngor eleni: 60% oherwydd ymddygiad heriol, 20% am resymau llesiant emosiynol a meddyliol ac 20% am resymau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ynysu cymdeithasol neu eraill. Mae angen cymorth a chefnogaeth ar lawer mwy o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, ac mae'n anodd recriwtio staff, sy'n ei gwneud yn anos i ddarparwyr ymateb i'r problemau. Mae mynediad at wasanaethau arbenigol i helpu'n uniongyrchol gyda'r materion hyn yn anodd iawn o hyd.

Mae costau adeiladu cynyddol a chyflenwad cyfyngedig o gontractwyr yn creu heriau o ran datblygu a darparu cartrefi fforddiadwy.

Materion staffio oedd yr her fwyaf i allu ysgolion i barhau ar agor oherwydd diffyg difrifol o ran staff cyflenwi.

Roedd swyddfeydd arian parod yn parhau ar gau ym mis Mawrth 2022. Roedd mynediad i lyfrgelloedd ym mis Mawrth 2022 wedi'i gyfyngu i 60 munud i ganiatáu ar

gyfer cyfyngiadau Covid. Mae gwasanaeth llyfrgell ar-lein cynhwysfawr ar gael, ond y nod oedd ehangu argaeledd y rhyngrwyd ar faniau'r Llyfrgell ac ymestyn apwyntiadau cyfrifiadur i 2 awr.

Mae nifer y gwasanaethau cenedlaethol a lleol i ddinasyddion Ceredigion a restrir ar wefan Dewis Cymru ym mis Mawrth 2022 wedi gostwng ychydig o 1,811 o adnoddau ym mis Medi 2021 i 1,735 o adnoddau ym mis Mawrth 2022.

Er bod Ceredigion wedi gweld gwelliannau mewn seilwaith digidol dros y 12 mis diwethaf a bod rhai ardaloedd yn profi rhai o'r cyflymderau band eang cyflymaf yn y DU, mae ardaloedd o'r Sir sy'n dal i fod yn is na lefelau ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU o ran band eang cyflym iawn a chysylltedd symudol.

### Camau nesaf

1. Parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o effaith newidiol caledi yng Ngheredigion trwy gasglu a dadansoddi data.

2. Adolygu'r rhestr o bartneriaid sy'n cyfrannu (gweler Atodiad B). Gwyddom fod cyfleoedd i gydweithio â mwy o asiantaethau partner er mwyn hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.

3. Mae'r cynllun gweithredu yn ddogfen fyw y bwriedir iddo gael ei ddiweddaru yn ystod oes y Strategaeth Galedi. Rhagwelir y bydd lefelau tlodi yn parhau i godi yng Ngheredigion, ond o ganlyniad i gostau byw cynyddol yn hytrach nag effaith uniongyrchol Covid. Mae hyn yn debygol o ofyn am newid ffocws a bydd y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu i adlewyrchu hyn.

4. Sicrhau bod gwaith yr is-grŵp hwn yn bwydo i mewn i Gynllun Llesiant Lleol 2023-28

## Atodiad A: Partneriaid sy'n Cyfrannu

| |
|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Partneriaethau, Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| Cyngor Sir Ceredigion, Porth Cymorth Cynnar, Llesiant a Dysgu Cymunedol |
| Cyngor Sir Ceredigion, Cyllid a Chaffael |
| Area 43 |
| Cyngor Sir Ceredigion, Porth Cynnal |
| Plant Dewi, Rhwydwaith Canolfannau Teulu (Y Borth, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Tregaron) |
| Cyngor Sir Ceredigion, Porth Gofal |
| Cymdeithas Gofal |
| Cyngor Sir Ceredigion, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| Cyngor Sir Ceredigion, Economi ac Adfywio |
| Cyngor Sir Ceredigion, Ysgolion a Diwylliant |
| Cyngor Sir Ceredigion, Cyswllt Cwsmeriaid |
| Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol |
| DASH |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) |
| Coleg Ceredigion |
| Cyngor ar Bopeth Ceredigion |
| Fforwm Cymunedol Penparcau |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

Eitem Agenda 8

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | 3 Hydref 2022 |
| **LLEOLIAD:** | Hybrid: Siambr y Cyngor/ Rhithiol |
| **TEITL:** | **Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi – 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd'** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cyflwyno'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi diwygiedig – 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' er mwyn ei ystyried. |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ymgysylltu ac i wneud argymhellion, fel y bo'n briodol, pan fydd y polisi yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 4 Hydref 2022. |

**CEFNDIR:**

Mae 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd', sef polisi Ymgysylltu Cyngor Sir Ceredigion, yn disgrifio ein dull corfforaethol o ymgysylltu ac ymwneud â phobl Ceredigion. Cafodd y polisi drafft blaenorol ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 14 Hydref 2021 lle cafodd ei gymeradwyo i ymgynghori'n gyhoeddus yn ei gylch dros aeaf 2021-22.

Fodd bynnag, gohiriwyd yr ymgynghoriad oherwydd gofynion Rhan 3, adran 41, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 parthed ymgynghori ac adolygu Strategaeth y Cyngor ar gyfer Ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn nodi fod rhaid cynnal yr ymgynghoriad a'r adolygiad cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol yn dilyn ethol Cynghorwyr i'r Cyngor yn arferol.

Cafodd y polisi Ymgysylltu drafft ei ddiwygio wedyn i gynnwys Cyfranogiad a'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2022. Cytunodd y Cabinet y dylai'r polisi Ymgysylltu a Chyfranogi drafft fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf, 2022. Cafodd y polisi terfynol ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r ymgynghoriad ac fe'i cyflwynir bellach ar gyfer trosolwg a chraffu.


**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Cafwyd 112 o ymatebion (0.2% o'r boblogaeth gyfan) i'r ymgynghoriad, y cyfan drwy'r arolwg ar-lein. Roedd yr ymateb hwn yn siomedig.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos i ni fod lle i wella o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd gyda 64% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'Hapus' neu'n 'Anhapus iawn' gyda'r ffordd y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu â nhw. Roedd 12% yn Hynod Hapus neu'n Hapus ac roedd 24% yn niwtral.

Wedyn gofynnwyd i'r trigolion a oedden nhw'n hapus gyda'r ffordd y dywedon ni y byddwn yn ymgysylltu â nhw dros y blynyddoedd nesaf.  Roedd y canlyniadau ychydig yn well gyda 52% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'Anhapus' neu'n 'Anhapus tu hwnt' gyda chynnwys y polisi Ymgysylltu.  Roedd 19% yn Hapus tu hwnt neu'n Hapus a 29% yn niwtral.

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos bod ein dull cymysg o weithredu yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion ein trigolion, fel y dangosir yn y crynodeb isod.




Gwnaed y newidiadau canlynol i'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi i adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad:

- Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ledled y sir gyda phwyslais ar ymgysylltu â'r grwpiau presennol sy'n hysbys ac sy'n cael eu defnyddio gan drigolion.
- Rhoi pwyslais cliriach ar yr angen i fwydo'n ôl y canlyniadau yn sgil ymgysylltu â thrigolion.
- Creu mesurau perfformiad i fonitro ein cynnydd tuag at ein nod o wella ymgysylltu a chyfranogi ar draws Ceredigion.

Rydym yn anelu at y nod o ymgysylltu'n barhaus. Drwy hyn byddwn yn gallu holi trigolion yn rheolaidd ledled Ceredigion a gofyn a ydynt yn fodlon â'r ffordd rydym yn ymgysylltu â nhw. Gellir gweld canlyniadau llawn yr ymgynghoriad yn Atodiad B.

Mae'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi diwygiedig – 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi'i atodi ar ffurf yn Atodiad A.

| | | |
|---|---|---|
| | **A wnaed Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** | Do. |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Bydd ein hymgysylltu yn cynnwys sgyrsiau am syniadau, anghenion a materion hirdymor pobl yn ogystal ag ymgysylltu am yr hyn sy'n digwydd dros y tymor byr. Mae angen ymgysylltu'n dda gyda phlant a phobl ifanc fel bod modd diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. |
| | **Integreiddio:** | Mae ymgysylltu yn thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol. Nod y Polisi Ymgysylltu hwn yw prif ffrydio ymgysylltu ledled Cyngor Sir Ceredigion. Hefyd byddwn yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill ar integreiddio'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol ac amcanion llesiant y sefydliad drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Cydweithio:** | Rydym yn bartneriaid gweithredol mewn amrywiaeth o bartneriaethau ymgysylltu sydd ar y gweill. Drwy hyn byddwn yn gallu rhannu arferion da, adnoddau a chynnal gweithgarwch ymgysylltu ar y cyd. |
| | **Cynnwys:** | Mae ymwneud yn gyfystyr ag ymgysylltu. Ein nod yw cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol, boed yn bobl ar draws Ceredigion neu randdeiliaid penodol, gan gynnwys pobl â Nodweddion Gwarchodedig fel y nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, a grwpiau na chlywir eu llais yn aml. Byddwn yn defnyddio'r dull gorau o ymgysylltu yn ôl y sefyllfa sydd ohoni. Byddwn yn ymgysylltu yn amserol fel y gall safbwyntiau rhanddeiliaid ddylanwadu ar ganlyniadau a phenderfyniadau. Hefyd byddwn yn rhoi adborth i randdeiliaid ar unrhyw ymgysylltu a wneir gennym. |

| | |
|---|---|
| **Atal:** | Mae ymgysylltu â phobl a defnyddwyr gwasanaethau yn ffordd effeithiol iawn o nodi, dileu a lleihau effeithiau unrhyw broblemau neu i bobl fod yn rhan o'r atebion ar gyfer goresgyn rhwystrau. Pan fydd ymgysylltu yn digwydd yn gynnar iawn gellir atal problemau rhag digwydd o gwbl. |

**ARGYMHELLION:**
Derbyn a chymeradwyo'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi diwygiedig – 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd'.

Gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, pan fydd y polisi yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 4 Hydref 2022.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**
Mae ein Polisi Ymgysylltu Cymunedol cyfredol yn dyddio o 2012 ac mae wedi cael ei adolygu i gymryd i ystyriaeth y dulliau newydd o ymgysylltu a deddfau a chanllawiau diweddar.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Cathryn Morgan |
| **Swydd:** | Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 12/09/2022 |
| **Acronymau:** | |

# Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd

Polisi Ymgysylltu a chyfranogi Drafft

Cyngor Sir Ceredigion

Mai 2022

# Talking, Listening and Working Together

Draft Engagement and Participation Policy

Ceredigion County Council

May 2022

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Awdur a gwasanaeth: CM, Polisi a Pherfformiad

Dyddiad cymeradwyo gan y Cabinet:

Asesiad Effaith Integredig:

Dyddiad cyhoeddi:

Dyddiad adolygu'r polisi:

## Cynnwys

## Contents

Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd ........ 1
Talking, Listening and Working Together ........ 1
***Cynnwys*** ........ ***2***
***Cyflwyniad*** ........ ***4***
***Ceredigion: Pwy ydyn ni, ble rydyn ni'n byw a beth rydyn ni'n ei wneud*** ........ ***4***
Cymunedau daearyddol ........ 5
Cymunedau buddiant ........ 5
Nodweddion gwarchodedig ........ 5
Proffil Gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion ........ 5
Gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion ........ 6
***Nodau'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi*** ........ ***6***
***Cefndir*** ........ ***6***
Deddfwriaeth ........ 6
Egwyddorion a Safonau Cenedlaethol ........ 7
Strategaethau a Chynlluniau Cyngor Sir Ceredigion ........ 7
***Sut rydym yn bwriadu Ymgysylltu*** ........ ***8***
Lefelau Ymgysylltu ........ 8
Dulliau Ymgysylltu ........ 10
Asesiadau Effaith Integredig ........ 11
Hygyrchedd ........ 11
Effeithlonrwydd ........ 12
Rhanddeiliaid ........ 14
Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig ........ 14
Ymgysylltu â Staff ........ 14
Gwerthuso, rhoi adborth, dod i gasgliadau a gwneud argymhellion ........ 14
Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant ........ 14
Llwyfan Digidol ........ 15
Mesur Llwyddiant ........ 15
Amserlenni ar gyfer Adborth ........ 15

**RHAGAIR**

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall pobl leol ei wneud i ddatblygu a gwerthuso gwasanaethau'r Cyngor a fydd yn gweithio'n dda i bob un ohonom.

Mae ein polisi Ymgysylltu a Chyfranogi a'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef yn amlinellu sut y byddwn yn siarad ac yn gwrando gyda phawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Ngheredigion, gan gynnwys grwpiau o bobl sydd wedi'u hymyleiddio neu leisiau nas clywir yn aml.

Mae hyn yn golygu ymgysylltu ac ymgynghori am y ffordd rydym yn gwneud pethau, hybu ymwybyddiaeth o sut y gall pobl ddod yn aelod o'r Cyngor a gwneud yn siŵr bod pobl leol yn gallu rhoi eu barn yn hawdd i ni am benderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud.

Byddwn yn parhau i fabwysiadu arferion gorau newydd ac arferion gorau sy’n dod i’r amlwg, er enghraifft drwy ddatblygu llwyfannau ymgysylltu digidol a gweithio ar ymgysylltu â’n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ni fyddwn yn anghofio na all neu fod yn well gan rai pobl beidio â defnyddio gwasanaethau digidol a byddwn yn cynnal y ffyrdd mwy traddodiadol o gyfathrebu â'n dinasyddion.

Rydym am ei gwneud yn haws i bawb yng Ngheredigion gael llais, rydym am feithrin a chynnal perthnasoedd gyda'n cymunedau, ac rydym am sicrhau bod yr holl ymgysylltu a wneir gan y Cyngor yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gyson.

Mae cyfnod anodd o’n blaenau a rhaid i ni weithio gyda’n gilydd i wneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael i ni.

Y Cynghorydd Bryan Davies
Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion



## Cyflwyniad

Mae'n hollbwysig bod Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl Ceredigion. I wneud hynny, mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio i'r Cyngor ysgwyddo cyfrifoldeb dros ymgysylltu'n dda. Mae cyfathrebu'n broses ddwy ffordd, ac mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar y cyhoedd a'u syniadau, yn ogystal â rhoi gwybodaeth glir iddynt. Mae ein Polisi Ymgysylltu yn amlinellu sut y byddwn yn gwneud hyn.

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol, ac mae'r ymrwymiad hwn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth amrywiol, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cydraddoldeb 2010,
- Mesur y Gymraeg 2011
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Byddwn hefyd yn dilyn arferion gorau a safonau cenedlaethol, fel y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y byddwn yn mynd ati'n gorfforaethol i ymgysylltu â phobl Ceredigion.

## Ceredigion: Pwy ydyn ni, ble rydyn ni'n byw a beth rydyn ni'n ei wneud



Mae gan Geredigion boblogaeth o 73,000. Aberystwyth yw'r dref fwyaf gyda phoblogaeth o oddeutu 16,200; Aberteifi, gyda phoblogaeth o 4,200, yw'r ail dref fwyaf; a Llanbedr Pont Steffan, gyda phoblogaeth o 3,000, yw'r drydedd dref fwyaf. Mae Aberaeron, Llandysul a Thregaron yn drefi llai o faint. Mae 62% o'r boblogaeth yn byw mewn pentrefi neu aneddiadau gwledig gwasgaredig. Gyda 41 o bobl i bob cilometr sgwâr, Ceredigion yw'r sir â'r dwysedd poblogaeth lleiaf ond un yng Nghymru. Er mai sir wledig yw hon yn bennaf, mae'r trefi'n ganolfannau pwysig i'r boblogaeth ehangach. Mae Ceredigion hefyd yn gartref i nifer o gyrff o bwys rhyngwladol, er enghraifft, Prifysgol Aberystwyth, campws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae 96.7% o'r boblogaeth yn wyn, ac mae 47.3% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae gan 21% o'r boblogaeth salwch hirdymor neu anabledd, ac mae 11%

yn darparu gofal di-dâl. Mae 15% o'r boblogaeth yn blant ac yn bobl ifanc o dan 16 oed. Mae 25% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn.

## Cymunedau daearyddol

Byddwn yn ymgysylltu â dinasyddion mewn lleoliadau penodol yn ogystal ag ar draws y sir gyfan. Gallem fynd ati i ymgysylltu â phobl yn ein trefi, yn ogystal â'r ardal wledig ehangach.

## Cymunedau buddiant

Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymunedau buddiant perthnasol. Cymunedau sy'n rhannu nodwedd, profiad neu fuddiant yw'r rhain, er enghraifft, gofalwyr, neu'r rheini ag arbenigedd penodol.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae'r rhain yn nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n hanfodol ein bod yn estyn allan i'r cymunedau hyn er mwyn i ni allu dal eu profiadau bywyd, a fydd yn well sail i'n dealltwriaeth o effaith ein gweithredoedd. Mae hyn yn bwydo i mewn i'n gofyniad i gynnal Asesiadau Effaith Integredig.

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil' (o ran gwahaniaethu mewn cyflogaeth).

## Proffil Gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion

Mae Ceredigion yn cynnwys 34 o wardiau etholiadol sy'n cael eu cynrychioli gan 38 o aelodau (cynghorwyr) sy'n cael eu hethol gan bobl Ceredigion bob 5 mlynedd. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn lywodraethu sy'n seiliedig ar fodel "Arweinydd a Chabinet". Mae'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a saith Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am bortffolios amrywiol.

Ceir pum pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig hefyd. Rôl Trosolwg a Chraffu yw edrych ar y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi'r cyfle i Gynghorwyr archwilio swyddogaethau amrywiol y cyngor, i ofyn cwestiynau ar sut mae penderfyniadau wedi'u gwneud, i ystyried a ellir rhoi gwelliannau ar waith ac i wneud argymhellion i'r perwyl hwn.

## Gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 2,200 aelod staff neu oddeutu 1,500 aelod staff cyfwerth ag amser llawn ar draws 12 maes gwasanaeth.

- Ysgolion a Diwylliant
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu
- Cyllid a Chaffael
- Gwasanaethau Democrataidd
- Pobl a Threfniadaeth
- Porth Cymorth Cynnar, Lles a Dysgu Cymunedol
- Porth Gofal, Ymyrraeth wedi'i Thargedu
- Porth Cynnal, Gwasanaethau Arbenigol
- Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
- Economi ac Adfywio
- Cyswllt Cwsmeriaid
- Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

# Nodau'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi

Nodau'r polisi hwn yw:

***1. Prif ffrydio gwaith ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws Cyngor Sir Ceredigion.***

***2. Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau.***

***3. Bodloni ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth.***

***4. Cadw llygad ar y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes ymgysylltu.***

# Cefndir

Mae gennym ddyletswydd statudol i ymgysylltu'n effeithiol er mwyn bod yn sail i benderfyniadau effeithiol. Mae ein dyletswyddau wedi'u nodi yn y ddeddfwrfa a ganlyn. Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion cenedlaethol canlynol fel dull o arferion gorau.

## Deddfwriaeth

- Deddf Cydraddoldeb 2010
  Bu i'r Ddeddf hon ddisodli ac uno deddfau blaenorol ym maes atal gwahaniaethu. O dan y Ddeddf, rhaid i Gyngor Sir Ceredigion gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig yn ei waith ac ymgysylltu â nhw.

- Mesur y Gymraeg 2011
  Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai fod modd i bobl yng Nghymru fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny. Ieithoedd swyddogol y Cyngor yw'r Gymraeg a'r Saesneg. Pan fyddwn yn ymgymryd â gwaith ymgysylltu, rhaid i ni weithio yn

unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys mynd ati i ymgysylltu'n ddwyieithog. Pan fyddwn yn ymgynghori, byddwn yn gofyn am farn y cyhoedd am unrhyw effaith y byddai ein penderfyniadau'n ei chael ar y Gymraeg ac ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

- 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/>
  Mae ymgysylltu yn torri ar draws y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf ac yn gosod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion i ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  Nod y Ddeddf yw rhoi ffyrdd newydd i lywodraeth leol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau ac i adfywio democratiaeth leol yng Nghymru. Mae Rhan 3 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion i hybu ac annog cyfranogiad ym mhroses benderfynu'r cyngor, gan gynnwys cyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd. Mae Rhan 6 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal adolygiad (hunanasesiad) o'r graddau yr ydym yn arfer ein swyddogaethau'n effeithiol, ac a ydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon. Mae ymgysylltu ac ymgynghori yn rhan annatod o'r broses hunanasesu, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf a hefyd wrth bennu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

## Egwyddorion a Safonau Cenedlaethol

- Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
- Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
- Pum egwyddor cyd-gynhyrchu <https://info.copronet.wales/the-5-principles-of-co-production-illustrated/>
- Egwyddorion Gunning (gweler Atodiad B)

## Strategaethau a Chynlluniau Cyngor Sir Ceredigion

Mae ymgysylltu wedi'i wreiddio yn fframwaith craidd Llywodraeth Leol; mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r strategaethau cyfredol a ganlyn ac yn eu cefnogi:

Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion

Mae ymgysylltu yn thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-22. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn datgan fel hyn: 'Bydd ein polisïau ar gyfer y dyfodol yn annog cydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb. Rydym yn gweld rhyngweithio effeithiol â'n cymunedau yn gydran hanfodol wrth sicrhau cymdeithas iach a bywiog.'

Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion

Nod y strategaeth hon yw 'cyfathrebu'n effeithiol â thrigolion, cwsmeriaid, staff, aelodau, partneriaid a rhanddeiliaid i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol'. Mae ein

strategaeth yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i gyfathrebu ac i ymgysylltu'n effeithiol. Rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Cyfathrebu am unrhyw weithgaredd ymgysylltu.


## Sut rydym yn bwriadu Ymgysylltu

Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu dull gweithredu o weithredu'r dull gorau o ymgysylltu yn unol â'r sefyllfa. Byddwn yn defnyddio sawl dull gwahanol o ymgysylltu i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â holl bobl Ceredigion yn y modd mwyaf addas.

### Lefelau Ymgysylltu

Nid oes 'un ateb yn gweddu i bawb' o ran ymgysylltu. Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau a'r ffordd fwyaf addas ar gyfer y sefyllfa o dan sylw. Mae'r model isod yn amlinellu sut y byddwn yn mynd ati i ymgysylltu. Mae'r model yn seiliedig ar egwyddor cynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Bydd y ffyrdd y byddwn yn ymgysylltu yn amrywio. Bydd hyn yn amrywio o hysbysu ac ymgynghori, i gynnwys, cydweithio a grymuso. Mae lefel gyfranogi'r cyhoedd yn cynyddu ar draws yr ystod hon.




Mae'r tabl isod yn amlinellu'r Pum Lefel o Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac enghreifftiau priodol o bryd i'w defnyddio:

**Lefelau ymgysylltu Cyngor Sir Ceredigion**

*Byddwn yn defnyddio'r dull ymgysylltu gorau ar gyfer y sefyllfa gywir.*

| | Pwrpas | Byddwn yn | Enghreifftiau o bryd i ymgysylltu |
|---|---|---|---|
| **Hysbysu** | Rhoi gwybodaeth gytbwys a gwrthrychol i'r cyhoedd. | • Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.<br>• Ni fyddwn yn cadw gwybodaeth berthnasol yn ôl. | • Argyfwng iechyd y cyhoedd<br>• Manylion am wasanaethau a darpariaeth |
| **Ymgynghori** | Cael adborth gan y cyhoedd am ein cynigion. | • Byddwn yn ymgynghori ar ddechrau'r broses ac ym mhob cam perthnasol yn y broses.<br>• Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.<br>• Byddwn yn gwrando ar eich pryderon a'ch dyheadau, a'u cydnabod.<br>• Byddwn yn barod i chi ddylanwadu arnom ni.<br>• Byddwn yn rhoi adborth am y ffordd y mae'ch cyfraniad chi wedi dylanwadu ar y canlyniad. | • Pennu cyllideb flynyddol<br>• Newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau<br>• Datblygu polisïau newydd<br>• Newidiadau i ddarpariaeth ysgolion |
| **Cynnwys** | Cydweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd drwy gydol y broses i sicrhau ein bod yn deall ac yn ystyried pryderon a dyheadau'r cyhoedd. | • Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.<br>• Byddwn yn cydweithio â chi i ystyried eich pryderon a'ch dyheadau.<br>• Byddwn yn rhoi adborth am y ffordd y mae'ch cyfraniad chi wedi dylanwadu ar y canlyniad. | • Pennu amcanion llesiant<br>• Her y gyllideb<br>• Datblygu polisïau newydd |
| **Cydweithio a Grymuso** | Bod yn bartner gyda'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau, gan gynnwys diffinio'r broblem, datblygu dewisiadau amgen a nodi a darparu atebion a ffefrir. Archwilio ffyrdd y gallwn roi gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn nwylo'r cyhoedd. | • Byddwn yn dod atoch chi am syniadau ac arloesedd wrth lunio atebion.<br>• Byddwn yn cynnwys eich syniadau a'ch argymhellion yn y prosesau o wneud penderfyniadau cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl.<br>• Byddwn yn gweithio gyda chi ac yn eich cefnogi drwy'r broses. | • Cynnal Asesiadau Effaith Integredig.<br>• Prosiectau cyd-gynhyrchu<br>• Trosglwyddo asedau cymunedol<br>• Cyllidebu cyfranogol |

## Dulliau Ymgysylltu

### Ymgysylltu Parhaus

Byddwn yn ymgysylltu'n barhaus â thrigolion Ceredigion drwy gyfarfod â grwpiau rhanddeiliaid a chael sgyrsiau uniongyrchol â'r rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn datblygu llwyfan ymgysylltu digidol i gynorthwyo gyda pharhad a chasglu'r sgyrsiau hyn.

Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol o sut mae'r cyngor yn gweithio a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar unrhyw adeg benodol.

Mae'r tîm Cyfathrebu yn hybu ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg a rennir â'r cyfryngau newyddion. Mae pob datganiad i'r wasg hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae gwefan y Cyngor yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gyda'r nod o wella adrannau sy'n berthnasol i wybodaeth i aelodau'r cyhoedd.

Rhoddir cyhoeddusrwydd i fanylion cyfarfodydd y Cyngor sydd i ddod drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a chyhoeddir blaengynlluniau gwaith mewn modd amserol i sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o eitemau i'w hystyried mewn cyfarfodydd sydd i ddod. Gall aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y Cyngor ar-lein. Mae cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu darlledu, ac ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod.

Mae yna fecanwaith i bobl leol fwydo i mewn i'r broses Trosolwg a Chraffu, mae hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae manylion eitemau agendâu sydd i ddod hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Hysbysir Cabinet Cyngor Ceredigion o bob deiseb y mae'r Cyngor yn ei chael. Rydym yn datblygu system e-ddeisebau, gan gynnwys cynllun deisebau sy'n amlinellu sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt. Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu cyflwyno eu cais neu wrthwynebiad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, ac mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor.

### Ymgysylltu Penodol

Rydym am i bobl gael llais cryf a gallu dylanwadu'n effeithiol ar ein penderfyniadau, yn enwedig pan fyddwn yn gwneud newidiadau i wasanaethau neu'n datblygu polisïau newydd. Rydym yn ymgynghori'n aml â phobl Ceredigion. Mae enghreifftiau cyfredol i'w gweld ar dudalen ymgynghoriadau ein gwefan: http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/

Rydym hefyd yn defnyddio amrywiol ddulliau eraill fel y manylir isod:

- Arolygon ar-lein
- Digwyddiadau Ymgysylltu
- Sioeau teithiol
- Grwpiau Ffocws
- Fforymau

## Asesiadau Effaith Integredig

Pan fyddwn yn gwneud cynlluniau i greu polisi newydd neu newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau, rhaid i ni ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ein dinasyddion, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae Asesiad Effaith Integredig yn dwyn ynghyd y deddfwriaethau perthnasol ac yn nodi sut y byddwn yn rhoi sylw dyledus, (rhoi pwyslais priodol), i wneud penderfyniadau. Mae Atodiad A yn esbonio mwy am 'sylw dyledus'.

Pan fyddwn yn cynnal Asesiad Effaith Integredig:

- Rydym yn ystyried tystiolaeth berthnasol i ddeall effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau neu arferion ar y rheini sy'n agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Rydym yn meddwl am ble y gallwn leihau effeithiau negyddol.
- Rydym yn adnabod cyfleoedd a gollwyd ac yn manteisio ar effeithiau cadarnhaol.
- Rydym yn ystyried hawliau'r plentyn.

## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod **holl** drigolion Ceredigion yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chael **cyfle cyfartal** i rannu eu barn. Felly mae angen i ni ystyried yn benodol y demograffeg a ganlyn a'r ffordd orau o ymgysylltu â nhw. Mae rhai enghreifftiau wedi'u nodi isod:

### Pobl Anabl

Pan fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth neu'n creu darn o ymgysylltu ar-lein, mae angen i ni ystyried sut y gall pobl gael gafael arno.

Efallai y byddai pobl â nam ar eu golwg angen dogfennau mewn print bras neu ddefnyddio rhaglen darllen sgrin i gael gwybodaeth ac ymgysylltu. Mae angen i ni ystyried sut bydd dogfennau, tudalennau gwe, arolygon ac ati yn cael eu darllen allan ar raglen darllen sgrin. Enghraifft o hyn yw defnyddio strwythur pennawd hierarchaidd cywir neu ddarparu testun amgen i ddelweddau.

Efallai y bydd angen isdeitlau ar unrhyw gynnwys fideo ar bobl â nam ar eu clyw.

Efallai y bydd rhai pobl hefyd angen gwybodaeth mewn fformat hawdd ei ddeall. Mae dogfen hawdd ei deall yn defnyddio iaith glir a brawddegau syml i bortreadu'n gywir yr hyn a all fod mewn dogfen lawn.

### Cyfathrebu Heb fod yn Ddigidol

Nid oes gan bawb afael ar gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd. Rhaid i'n holl ymarferion ymgysylltu ystyried sut i ymgysylltu â defnyddwyr nad ydynt yn ddigidol fel mater o flaenoriaeth. Enghreifftiau o hyn yw trafod wyneb yn wyneb, trafod dros y ffôn a darparu copïau papur o ddogfennau perthnasol.
Bydd cyswllt arweiniol yn cael ei ddarparu ar ddogfennau ymgysylltu er mwyn i'r cyhoedd allu cysylltu â nhw dros y ffôn drwy Clic, canolfan gyswllt y cyngor.

## Plant a Phobl Ifanc

Mae gennym ddyletswydd i bobl ifanc sicrhau ein bod yn estyn allan atynt mewn ffordd sy'n annog eu cyfranogiad ac fel yr amlinellir yn y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Atodiad B.

Gan gydnabod y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc fel fframwaith ar gyfer cyfranogiad; byddwn yn parhau i hwyluso cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad gyda phobl iau a sicrhau ein bod yn addysgu ac yn eirioli dros eu hawl o dan Erthygl 12 CCUHP.

Hawliau Plant - Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)

Bydd ein Cyngor Ieuenctid Sirol a Fforymau Ieuenctid yn parhau i weithredu fel llwyfannau ar gyfer barn plant a phobl ifanc ar draws Ceredigion, a byddwn yn cynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Bydd fforymau a grwpiau ieuenctid penodol fel 'Rhowch Gefnogaeth i Ni', yn sicrhau sianel i blant a phobl ifanc sydd wedi'u hymyleiddio, yn agored i niwed neu sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol, gael llais a chael gafael ar eu hawliau fel y nodir yn CCUHP.

Byddwn yn sicrhau bod adborth priodol yn cael ei roi trwy amrywiaeth o sianeli a fydd yn cynnwys adroddiadau, cyflwyniadau ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

Bydd ein cynnig cyfranogiad plant a phobl ifanc yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg o ran hyrwyddo a hwyluso a bydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

## Ieithoedd Eraill

Mae'n bwysig ein bod yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gafael ar ein deunyddiau ymgysylltu waeth beth fo'u rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylid hefyd ystyried ieithoedd eraill a siaredir yng Ngheredigion, yn enwedig wrth gynnal ymgyrch ymgysylltu fawr

Er mwyn helpu'r rheini sy'n siarad ieithoedd eraill i gael gafael ar y deunyddiau gallwn ddefnyddio codau QR fel y gellir eu hanfon ymlaen yn uniongyrchol at y deunyddiau yn eu hiaith. Mae gan bob un o dimau'r Cyngor fynediad i WITS (Gwasanaeth Cyfieithu Cymru i'r sector cyhoeddus) y gellir ei ddefnyddio i gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu dogfennau.

# Effeithlonrwydd

Mae'n bwysig osgoi **gorlethu pobl â gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori.** Yn aml, bydd pobl yn rhoi o'u hamser eu hunain ac yn teithio cryn bellter i ddod i ddigwyddiadau ymgysylltu. Mae'n bosibl bod gennym ni neu'n partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill ddata perthnasol a gasglwyd drwy weithgareddau ymgysylltu neu arolygon blaenorol. Gall hefyd fod modd i ni ddefnyddio data a

gwybodaeth a gesglir drwy waith ymgysylltu parhaus.

## Rhanddeiliaid

O ddadansoddi'r rhanddeiliaid, gall ein helpu i bennu'r rhanddeiliaid allweddol a hyd a lled eu dylanwad.  Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu'n cynnwys yr holl bobl amrywiol sy'n rhan o'n cymunedau. Byddwn yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig a phobl a chymunedau sydd ar y cyrion neu nas clywir yn aml yn ein gwaith ymgysylltu.

## Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig

Mae Aelodau Etholedig yn arweinwyr yn eu cymunedau a gallant fod yn ddolen gyswllt bwysig i ymgysylltu ag ystod eang o bobl. Yn ogystal â materion sydd o ddiddordeb i'w wardiau, gall Aelodau Etholedig fod yn aelodau o bwyllgorau amrywiol y Cyngor yn ogystal â'r Cyngor llawn.

Dylid ymgysylltu ag Aelodau etholedig drwy'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol priodol.  Rhaid rhoi gwybod i'r Aelodau am unrhyw waith ymgysylltu neu ymgynghori, ac yn enwedig am unrhyw waith ymgysylltu neu ymgynghori sy'n effeithio ar eu wardiau neu'u cyfrifoldebau. Rhaid i swyddogion ddilyn y protocol pan fyddant yn ymgysylltu ag Aelodau etholedig a rhoi sylw i amserlenni'r protocol cyn etholiadau.

Cyn etholiadau'r Cyngor, bydd ymgyrch gyfathrebu yn rhoi gwybodaeth ar sut i ddod yn Aelod o'r Cyngor, a rhoddir gwybodaeth hefyd ar wefan y Cyngor.

## Ymgysylltu â Staff

Rydym yn cyflogi tua 2,200 o bobl. Mae gan ein staff brofiad eang iawn ac maent yn dod o gefndiroedd amrywiol.  Rydym yn ymgysylltu â'n staff drwy nifer o ddulliau, gan gynnwys bwletinau newyddion i'r staff. Cafodd mewnrwyd newydd ei datblygu sy'n gwella'r broses o ymgysylltu â'r staff a'u cynnwys yn ein gwaith. Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r staff a'r undebau o ran materion cyflogaeth.

## Gwerthuso, rhoi adborth, dod i gasgliadau a gwneud argymhellion

Byddwn yn rhoi gwybod am ganlyniadau ein gwaith ymgysylltu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar wefan ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion a hynny o fewn amser derbyniol. Bydd yr adborth yn crynhoi gwerthusiad o'n gwaith ymgysylltu ac yn dangos sut y bu iddo ddylanwadu ar ein proses benderfynu a chael ei ystyried yn ystod y broses honno.

## Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Mae'r tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn goruchwylio fframwaith o grwpiau rhanddeiliaid, proses yr Asesiad Effaith Integredig a dull gweithredu cyson o ymgysylltu ar draws Cyngor Sir Ceredigion.  Mae'r tîm ar gael i gefnogi a chynghori holl wasanaethau'r Cyngor ar ymgysylltu a chyfranogi.

## Llwyfan Digidol

Un o’r ffyrdd y byddwn yn ceisio gwella ymgysylltu yw drwy ddefnyddio llwyfan digidol. Bydd llwyfan digidol yn rhoi’r pŵer i ni greu cyfres gydlynol o ymgysylltu. Bydd yn ein galluogi i drefnu ymgysylltu ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Dyma rai enghreifftiau o offer y gellir eu defnyddio mewn llwyfan digidol:

- Arolygon
- Waliau stori
- Rhannu syniadau
- Llinell amser ymgysylltu

Y gobaith yw, trwy ddefnyddio'r arfau hyn, y gallwn wella ein cyfathrebu gyda dinasyddion Ceredigion.

## Mesur Llwyddiant

I fesur canlyniad gweithredu’r polisi hwn byddwn yn monitro:

- Nifer yr ymweliadau â’r safle a chofrestriadau ar ein llwyfan digidol
- Nifer yr ymatebion a gawn i ymarferion ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru ynghylch Democratiaeth Leol

Ein nod yw llwyddo i ymgysylltu â'n trigolion yn barhaus. Rhan o hyn fydd gofyn i drigolion a yw'r ffordd yr ymgysylltir â nhw yn un sy’n llwyddo ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Fel hyn gallwn ddatblygu'n barhaus y ffordd yr ydym yn ymgysylltu er mwyn cyd-fynd ag anghenion ein trigolion i gyd.

## Amserlenni ar gyfer Adborth

Byddwn yn cyhoeddi adborth mewn man addas o fewn amserlen addas. Gallem wneud hyn drwy gyhoeddi adroddiadau ar ein gwefan a thrwy roi adborth uniongyrchol i grwpiau neu sefydliadau a fu’n rhan o’n gwaith ymgysylltu. Bydd yr adborth yn crynhoi gwerthusiad o’n gwaith ymgysylltu ac yn dangos sut y bu iddo ddylanwadu ar ein proses benderfynu a chael ei ystyried yn ystod y broses honno.

**Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion – Cynllun Gweithredu**

| | Cam gweithredu | Canlyniad | Amserlen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| **Nod 1**<br><br>***Prif ffrydio gwaith ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws Cyngor Sir Ceredigion.*** | Datblygu pecyn adnoddau Ymgysylltu a rhoi hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio i bob Rheolwr Corfforaethol. | Dealltwriaeth gorfforaethol a rheolaeth o ymgysylltu. | Mawrth 2023 | Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| | Cynnal amserlen o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnir gan holl Wasanaethau'r Cyngor. | Cydlynu, yn effeithiol, ymgysylltu ar draws yr holl Wasanaethau.<br><br>Llai o 'blinder ymgynghori'. | Wrthi'n mynd rhagddo | Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| | Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu i fonitro'r datblygiadau wrth i ni newid sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd. | Galluogi'r Cyngor i werthuso'r cynnydd a amlinellir yn y polisi hwn. | Wrthi'n mynd rhagddo | Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| **Nod 2**<br><br>***Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau.*** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Amserlen** | **Cyfrifoldeb** |
| | Adolygu a diweddaru ein rhestr o grwpiau Rhanddeiliaid. | Gwell ymgysylltu â thrigolion sydd â nodweddion gwarchodedig. | Mawrth 2023 | Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| | Datblygu'r defnydd o lwyfannau ymgysylltu ar-lein a chynnal y defnydd o ddulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol. | Gwell lefelau ymgysylltu â thrigolion Ceredigion. | Mawrth 2023 | Pob Rheolwr Corfforaethol |
| | Gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hymarferion ymgysylltu. | Llai o anfodlonrwydd dinasyddion gyda'r Cyngor. | Mawrth 2023 | Pob Rheolwr Corfforaethol |

| | Cam gweithredu | Canlyniad | Amserlen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| **Nod 3**<br><br>***Bodloni ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth.*** | Sicrhau bod mecanwaith yn ei le fel bod y cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol neu o bell drwy system cyfarfodydd hybrid. | Hwyluso mynediad i bobl leol at benderfyniadau a wneir gan y cyngor. | Mehefin 2022 | Gwasanaethau Democrataidd |
| | Diwygio a diweddaru ein hofferyn Asesiad Effaith Integredig. | Ymgysylltir yn briodol a all ddylanwadu ar benderfyniadau strategol a newidiadau polisi. | Ionawr 2023 | Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| | Sefydlu system e-ddeisebau a chyhoeddi protocol sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt. | Mae trigolion Ceredigion sy'n cymryd yr amser i gyflwyno deisebau i'r Cyngor yn cael profiad cadarnhaol. | Yn amodol ar Gyhoeddi Canllawiau gan Lywodraeth Cymru | Gwasanaethau Democrataidd |
| **Nod 4**<br><br>***Cadw llygad ar y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes ymgysylltu.*** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Amserlen** | **Cyfrifoldeb** |
| | Adolygu a diwygio'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi hwn. | Sicrhau bod y polisi hwn yn gyfredol gyda'r datblygiadau a'r arloesiadau diweddaraf. | Wrthi'n mynd rhagddo | Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| | Cadw pecyn adnoddau ymgysylltu yn gyfredol i bob aelod o staff ei ddefnyddio.<br>Cydweithio â chydweithwyr Ymgysylltu a Chydraddoldeb ledled Cymru. | Gall holl staff y cyngor gael gafael ar y datblygiadau diweddaraf o ran arferion gorau.<br>Caiff arferion gorau eu rhannu ledled Cymru. | Wrthi'n mynd rhagddo | Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant |

**Atodiad A**

Gellir defnyddio **Egwyddorion Brown** yn y llys i bennu a yw corff cyhoeddus wedi rhoi 'sylw dyledus' i ddeddfwriaeth, ac mae cysylltiad agos rhyngddynt a phroses yr Asesiad Effaith Integredig. Mae dilyn yr egwyddorion yn ffordd dda o roi arferion gorau ar waith, yn ogystal â helpu i sicrhau bod ein prosesau ymgysylltu a phenderfynu yn gyfreithiol gadarn.

| **Egwyddorion Brown a Sylw Dyledus** |
|---|
| **Gwybodaeth**<br><br>A yw'r penderfynwyr yn gwybod am eu dyletswydd i roi sylw dyledus? |
| **Gwybodaeth ddigonol**<br><br>A oes gan y penderfynwyr ddigon o wybodaeth i ganiatáu iddynt ystyried cynnig mewn ffordd ddeallus? |
| **Prydlondeb**<br><br>A gafodd yr Asesiad Effaith Integredig ei gynnal tra'r oedd y cynnig yn cael ei ystyried a chyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud? |
| **Ystyriaeth ddilys (proses benderfynu)**<br><br>A gafodd y cynnig ei ystyried yn gydwybodol? |
| **Atebolrwydd (peidio â dirprwyo)**<br><br>Mae cyrff cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw drydydd parti sy'n cyflawni swyddogaethau ar ei ran yn cydymffurfio ag Asesiadau Effaith Integredig. |
| **Monitro ac Adolygu**<br><br>A yw nodau'r Asesiad Effaith Integredig yn parhau tu hwnt i'r camau cynllunio a phenderfynu'r camau gweithredu, monitro ac adolygu? |

**Atodiad B**

Mae Egwyddorion Gunning yn pennu'r disgwyliadau cyfreithiol o ran ymgynghori priodol, gan roi pwyslais ar 'degwch'. Gellir defnyddio'r egwyddorion yn y llys i bennu a yw corff cyhoeddus wedi ymgysylltu, ymgynghori a gwneud penderfyniadau mewn ffordd deg.

Mae'r egwyddorion hefyd yn rhoi fframwaith ymarferol da ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhaid ymgysylltu'n gynnar a darparu digon o wybodaeth i bobl ei hystyried. Rhaid i ddeunydd ymgysylltu ac ymgynghori hefyd fod ar gael am gyfnod digonol. Rhaid i'r wybodaeth a gesglir yn ystod ymarfer ymgysylltu a'i ganlyniadau allu dylanwadu ar y broses benderfynu. Mae Egwyddorion Gunning yn ategu'r Polisi Ymgysylltu hwn.

| |
|---|
| Cawsant eu bathu gan Stephen Sedley QC mewn achos llys yn 1985 yn ymwneud ag ymgynghoriad cau ysgol (R v London Borough of Brent ex parte Gunning). Cyn hyn, ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i ddeddfau ymgynghori. Diffiniodd Sedley fod ymgynghori ond yn ddilys pan fydd y pedair egwyddor hyn yn cael eu bodloni: |
| Rhaid ymgynghori pan fo'r cynigion yn dal i fod ar eu ffurf ffurfiannol<br>*Rhaid nad ydych eisoes wedi penderfynu* |
| Rhaid rhoi digon o resymau gerbron pobl er mwyn iddynt eu hystyried mewn ffordd ddeallus ac ymateb iddynt.<br>*A yw pobl wedi cael yr wybodaeth a'r cyfle y mae eu hangen arnynt i ddylanwadu?* |
| Rhaid darparu digon o amser i bobl ystyried yr wybodaeth ac ymateb.<br>*A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o ystyried yr amgylchiadau?* |
| Rhaid mynd ati mewn ffordd gydwybodol i ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad pan fydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud.<br>*Rhaid i benderfynwyr gynnal proses sy'n dangos eu bod yn barod i bobl ddylanwadu arnynt cyn iddynt wneud penderfyniadau.* |

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Adroddiad ar Ymgynghoriad y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi diweddaru'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi gyda phwyslais arbennig ar ymgysylltu'n barhaus. Mae'r polisi yn rhoi arweiniad clir ar sut a phryd rydym yn ymgysylltu â thrigolion Ceredigion.

Mae'r adroddiad hwn yn sôn yn fanylach am yr ymgynghoriad a wnaed a'r newidiadau a wnaed i'r polisi ar ôl derbyn yr ymatebion.

## Dull

Cadwyd yr ymgynghoriad yn fyr ac yn gryno ac fe'i gwnaed dros gyfnod o 8 wythnos i roi amser i drigolion ddarllen y deunyddiau a'u hystyried cyn ateb tri chwestiwn byr. Er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phawb fe greon ni grynodeb o'r polisi ac arolwg ar gyfer ymatebion, ac roedd y deunydd yn hawdd ei ddarllen, yn defnyddio iaith glir, brawddegau byr a fformat uniongyrchol.

### Dull Digidol

Defnyddion ni blatfform 'Dweud Eich Dweud Ceredigion' i gynnal dogfennau'r ymgynghoriad. Cafodd y crynodeb a'r arolwg eu cynnal ar hafan gwefan 'Dweud Eich Dweud' felly roeddent yn gyfleus heb orfod mewngofnodi.

Cafodd dolen i'r platfform ei rhannu ar ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost i glercod y Cynghorau Tref a Chymuned. Hefyd postiwyd y wybodaeth ar wefan ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion.

Fe wnaethon ni sicrhau fod y dudalen we yn hygyrch i ddefnyddwyr rhaglen darllen sgrin a'i bod wedi'i gosod mewn fformat hawdd i'w ddilyn.

### Copïau Papur

Cafodd copïau papur o'r polisi a'r arolwg eu dosbarthu ymhlith canolfannau hamdden a llyfrgelloedd Ceredigion. Gwahoddwyd Cynghorau Tref a Chymuned i gysylltu â ni i ofyn am gopïau papur os oedd angen.

### Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Fe wnaethon ni ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio preswylwyr at blatfform 'Dweud Eich Dweud'. Rhannwyd gwybodaeth ar Facebook, Instagram a Twitter. Hefyd fe wnaethon ni gywain sylwadau oddi ar y negeseuon cyfryngau cymdeithasol i wneud yn siŵr ein bod yn cael cymaint o safbwyntiau â phosib.

### Manylion cyswllt

Roedd manylion cyswllt y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i'w gweld ar y copïau papur er mwyn i ni gynorthwyo gyda llenwi'r arolwg ac ateb unrhyw gwestiynau.

## Canlyniadau

Cafwyd 112 o ymatebion (0.2% o'r boblogaeth gyfan) i'r ymgynghoriad, y cyfan drwy'r arolwg ar-lein. Yn ogystal, cafodd y negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol 39 o sylwadau a chawson nhw eu rhannu 41 o weithiau. Roedd yr ymateb hwn yn siomedig.


Roedd yr arolwg yn fyr ac yn cynnwys ond tri chwestiwn a gellir eu hystyried fel dwy ran. Yn y rhan gyntaf roeddem yn ceisio mesur sut mae'r trigolion yn gweld y sefyllfa yn awr, o'i gymharu â'u barn am ein cynlluniau a ddisgrifir yn y polisi.

Er mwyn ein cynorthwyo i asesu os oes newid barn rhwng yr arfer ymgysylltu presennol a'n cynlluniau at y dyfodol, roeddem wedi cyfrifo Sgôr Mynegai Gyfartalog / *Average Index Score.* Mae hyn yn cynnig ffordd o bwysoli'r cryfder barn yn yr ymatebion a gellir cymharu'r sgoriau'n uniongyrchol. Anfantais defnyddio'r Mynegai Sgôr yw bod sawl ffordd o gael yr un rhif.

> **Enghraifft:** Gofynnir i 10 o bobl a ydyn nhw'n 'cytuno'n gryf', 'cytuno', 'heb farn', yn 'anghytuno', neu'n 'anghytuno'n gryf' y bydd Cymru'n ennill pencampwriaeth y Chwe Gwlad.
> I gyfrifo'r Mynegai:
> Os oes 3 o bobl yn cytuno'n gryf (sy'n werth 2 bwynt am bob ymateb), eu sgôr ar y cyd yw **6**;
> os oes 3 yn cytuno (pob ymateb yn werth 1) eu sgôr yw **3**;
> os oes 1 heb farn (sy'n werth 0 pwynt) ei sgôr yw **0**;
> os oes 1 yn anghytuno (sy'n werth -1) ei sgôr yw **-1**;
> os oes 2 yn anghytuno'n gryf (pob ymateb yn werth -2) eu sgôr ar y cyd yw **-4**).
> Cyfrifir y sgôr drwy ychwanegu'r rhifau mewn inc trwm: **6 + 3 + 0 -1 -4 = 4**;
> Caiff y **Sgôr Mynegai Gyfartalog** ei chyfrifo drwy rannu'r cyfanswm gyda nifer yr ymatebion (sef 10 yn yr achos yma):

### Cwestiwn 1

Dyluniwyd Cwestiwn 1 i weld beth mae trigolion yn ei feddwl o'r ffordd y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu â nhw.




Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn negyddol gyda 64% o ymatebwyr yn dweud eu bod naill ai yn 'Anhapus' neu'n 'Anhapus tu hwnt' gyda'r ffordd y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu â nhw ar hyn o bryd.

Y Sgôr Mynegai Gyfartalog ar gyfer y cwestiwn hwn oedd -98, sy'n dangos cryfder y farn a geir yn yr ymatebion.

## Cwestiwn 2

Dyluniwyd Cwestiwn 2 i weld a oedd newid yn eu barn wrth ystyried sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â thrigolion dros y blynyddoedd nesaf.





Mae yna newid amlwg yn eu barn wrth ystyried yr hyn ddywedon ni y byddwn yn ei wneud i ymgysylltu â thrigolion o hyn ymlaen. Mae mwyafrif bach - 52% - yn dal i deimlo'n 'Anhapus' neu'n 'Anhapus tu hwnt' gyda'r ffordd y byddwn yn ymgysylltu â nhw.

Y Sgôr Mynegai Gyfartalog ar gyfer y cwestiwn hwn yw -63, sef cynnydd o 35 pwynt ar y cwestiwn blaenorol. Er bod y mwyafrif yn dal i deimlo'n negyddol, mae'n dangos fod cryfder y farn hon dipyn llai.

Roedd ymateb sylweddol i'r ddau gwestiwn gan rai nad oedd naill ai'n hapus nac yn anhapus gyda'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu. Bydd hyn yn rhywbeth i barhau i gadw llygad arno fel rhan o'n nod o ymgysylltu'n barhaus.

## Cwestiwn 3

Rydym am sicrhau bod y ffordd yr ydym yn dylunio ein gwaith ymgysylltu yn addas i drigolion, yn hwylus ac yn cael ymatebion sy'n gynrychioliadol o'n demograffeg. Gofynnon ni i drigolion pa ddull oedd y mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion nhw.




Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos mai'r dull cymysg o ymgysylltu ar-lein a wyneb yn wyneb, arolygon papur a siarad dros y ffôn, yw'r ffordd orau o hyd inni ymgysylltu â thrigolion.

## Ymatebion Ansoddol

Gwnaethom gynnig maes ar gyfer testun rhydd fel bod trigolion yn gallu rhannu adborth ynghylch sut yr hoffen nhw i ni ymgysylltu â nhw yn y dyfodol. Dyma grynodeb o'r canlyniadau hynny:

- Cynnal gweithgarwch ymgysylltu y tu allan i oriau gwaith.
- Bod ar gael yn gyfleus dros y ffôn, drwy e-bost ac yn y swyddfa.
- Cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb ar adeg sy'n addas i ni.
- Mynychu sesiynau a drefnir gan grwpiau lleol cymunedol.
- Defnyddio grwpiau y mae trigolion yn ymddiried ynddynt megis WWDAS a Daybreak.
- Anfon deunydd ysgrifenedig drwy'r post.

## Cyfryngau Cymdeithasol

Yn ogystal ag ystyried deunydd ansoddol a gyflwynwyd drwy'r arolwg, rydym wedi edrych drwy'r adborth a roddwyd i'r negeseuon a bostiwyd gennym ar y cyfryngau cymdeithasol. Mynegodd rhai o'r rhain siom gyda'r ffordd roedd Cyngor Sir Ceredigion yn ymateb. Roedd yn amlwg bod trigolion eisiau cael eu clywed a bod y Cyngor wedyn yn ymateb i'r hyn roedden nhw'n ei ddweud.

At ei gilydd, derbyniodd y negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol:

- 17 bawd i fyny/ *like*
- 5 emoji chwerthin
- 39 sylw
- eu rhannu 41 gwaith

## Casgliadau

Cydnabyddir bod nifer yr ymatebion a gafwyd yn siomedig. Gwnaed y newidiadau canlynol i'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi i adlewyrchu'r adborth gwerthfawr a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad:

- Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ledled y sir gyda phwyslais ar ymgysylltu â'r grwpiau presennol sy'n hysbys ac sy'n cael eu defnyddio gan drigolion.
- Rhoi pwyslais cliriach ar yr angen i fwydo'n ôl y canlyniadau yn sgil ymgysylltu â thrigolion.
- Creu mesurau perfformiad i fonitro ein cynnydd tuag at ein nod o wella ymgysylltu a chyfranogi ar draws Ceredigion.

Rydym yn anelu at y nod o ymgysylltu'n barhaus. Drwy hyn byddwn yn gallu holi trigolion yn rheolaidd ledled Ceredigion a gofyn a ydynt yn fodlon â'r ffordd rydym yn ymgysylltu â nhw a pha welliannau y gallwn ni eu gwneud. Hoffem fod y trigolion yn teimlo'u bod yn cael eu parchu ac y gallan nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lleol.

Eitem Agenda 9

**ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**a gynhaliwyd ar ffurf Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Mawrth, 21 Mehefin 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Rhodri Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Elaine Evans, Eryl Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Ceris Jones, Caryl Roberts a Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Cynghorydd Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol**: Mr Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth; Mrs Angharad Rees, Swyddog Adnoddau Dynol; Miss Lowri Edwards - Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; Mr Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; Mr Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth: Adran y Priffyrdd; Mrs Louise Harries, Cyfreithiwr; Mrs Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10.00am - 12:15pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Endaf Edwards, y Cynghorydd Paul Hinge a'r Cynghorydd Gareth Davies (Aelod Cabinet) am na fedrent ddod i'r cyfarfod

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Datgelodd y Cynghorydd Elaine Evans a'r Cynghorydd Eryl Evans fuddiant personol a buddiant a oedd yn rhagfarnu o ran eitem 4, cyn i'r bleidlais ynghylch yr eitem hon gael ei chymryd.

**3 Strategaeth Ddrafft ar gyfer Gweithio Hybrid a Pholisi Gweithio Hybrid Dros Dro**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies yr adroddiad ynghylch y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Gweithio Hybrid a'r Polisi Dros Dro ar gyfer Gweithio Hybrid. Dywedwyd bod pandemig Covid-19 wedi gorfodi cyfyngiadau cenedlaethol ar symud a bod hynny wedi digwydd yn sydyn ac wedi arwain at y gofyniad i aros gartref a gweithio gartref lle bynnag y bo modd. Roedd y mesurau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o staff swyddfa'r Cyngor weithio mewn ffordd wahanol iawn. Ymatebodd y staff yn

gyflym ac yn gadarnhaol i'r newid hwn. Ar y cyfan, roedd yr ymateb cadarnhaol hwn yn bosibl o ganlyniad i'r camau a gymerwyd eisoes tuag at ffordd fwy hyblyg a doethach o weithio, gan gynnwys buddsoddi mewn offer a meddalwedd digidol, a gwella'r trefniadau gweithio hyblyg presennol a oedd eisoes ar waith.

Ar ôl ymateb yn dda i heriau cychwynnol y pandemig, dywedwyd bod y ffocws wedi symud i sut y gallai'r Cyngor ddysgu ac adeiladu o'r profiad. Sefydlwyd y prosiect y 'Ffordd Rydym yn Gweithio' i adolygu'r arferion gweithio o bell a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. Nod y prosiect oedd archwilio'r awydd am newid hirdymor o fewn y gweithlu gan sicrhau mai darparu gwasanaethau oedd y prif ffocws o hyd. Roedd y prosiect yn gyfle i archwilio i ba raddau yr oedd yna newid yn y weledigaeth strategol ehangach o ran ble, pryd a sut y byddai'r sefydliad yn mynd ati i weithio.

Yn rhan o'r prosiect, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu sylweddol â staff i gasglu adborth, profiadau, syniadau a gofynion o ran y gweithle yn y dyfodol er mwyn cefnogi penderfyniadau strategol. Amcangyfrifir bod 74% o'r gweithlu a oedd yn gweithio gartref wedi cymryd rhan mewn o leiaf un o'r gweithgareddau ymgysylltu hyn. Roedd y themâu a deilliai o'r ymarfer ymgysylltu â staff yn ogystal â'r ymchwil, y tueddiadau a'r uchafbwyntiau cenedlaethol wedi bod yn sail i ddatblygiad y strategaeth gweithio hybrid.

Dangosodd yr ymarfer ymgysylltu â staff fod llawer o fanteision i weithio gartref, ond roedd hefyd yn cydnabod bod heriau i rai aelodau o staff. Roedd y manteision a nodwyd yn cynnwys cyfarfodydd rhithiol, gwell cynhyrchiant, gwell cydweithio, llai o bethau i darfu ar eu gwaith a llai o bethau i dynnu eu sylw oddi ar eu gwaith. Roedd yr heriau a nodwyd yn cynnwys cysylltedd band eang gwael, diffyg gwahanu rhwng y gwaith a'r cartref – "byw yn y swyddfa", teimlo'n unig oherwydd llai o gyfleoedd i gymdeithasu, a dim man gweithio digonol yn eu cartref.

Gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil a thystiolaeth o'r ymarferion ymgysylltu â staff, datblygwyd y Strategaeth Gweithio Hybrid, a oedd yn nodi'r egwyddorion a'r broses weithredu ar gyfer model gweithio hybrid a fyddai'n cynnal y lefel uchel ofynnol o ran y gwasanaethau a ddarperir gan hefyd roi mwy o hyblygrwydd i weithwyr o ran cydbwyso eu gwaith a'u bywydau cartref. Anghenion y gwasanaeth fyddai'r brif flaenoriaeth bob amser wrth ystyried unrhyw bosibiliadau gweithio hybrid. Cydnabuwyd na fyddai'r lefel hon o hyblygrwydd yn bosibl i bob aelod o staff, oherwydd natur rhai rolau neu gyfyngiadau eraill, ond byddai ymrwymiad o hyd i archwilio sut y gellir cynnwys lefel o hyblygrwydd mewn rolau ar draws y sefydliad. Yn ystod camau cychwynnol y broses weithredu, byddai gwasanaethau Cyswllt Cwsmeriaid yn aros ar-lein a thros y ffôn. Byddai desgiau'r dderbynfa yng Nghanolfan Rheidol a Phenmorfa hefyd ar gau i ddechrau tra byddai'r gwasanaethau wyneb yn wyneb eraill yn cael eu cyflwyno'n raddol yn rhan o'r broses weithredu.

Dywedwyd bod y strategaeth yn cyflwyno cyfres o flaenoriaethau gan gynnwys a) ffyrdd hyblyg a symudol o weithio; b) cynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol; ac c) rhoi gwell profiad i gwsmeriaid.  Yn ogystal,

nodwyd cyfres o baramedrau er mwyn llunio'r model gweithio hybrid, megis, lle gall ein staff weithio mor effeithlon o bell neu yn y swyddfa gallant ddewis lle maent yn gweithio ar unrhyw ddiwrnod penodol'; 'ni fydd gan ein staff gweithio hybrid ddim lle personol parhaol yn y swyddfa, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol' a 'bydd ein cyfarfodydd gyda chydweithwyr a phartneriaid allanol yn rhithwir lle bynnag y bo modd'.

Er mwyn nodi gwahanol fathau o rolau ar draws y gweithlu corfforaethol, cyflwynwyd pedair ffordd o weithio: Sefydlog - Rôl sy'n gofyn i ddeiliad y swydd fynd i'r gweithle drwy gydol y dydd oherwydd natur a gofynion y rôl, ac felly nad yw'n addas ar gyfer gweithio hybrid. Roedd y tair ffordd arall a oedd yn weddill i gyd yn fathau o weithio hybrid – Hybrid Hyblyg, Hybrid Cyfyngedig, a Chrwydrol. Roedd categoreiddio rolau yn y ffordd hon yn helpu i bennu gofynion o ran offer TGCh, dulliau hyfforddi a datblygu, a gofynion swyddfa. Byddai rheolwyr corfforaethol ym mhob gwasanaeth yn rhoi pob rôl o fewn eu timau yn un o'r categorïau hyn. Byddai'r categoreiddio'n dibynnu ar y rôl a natur eu gwaith.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio fod tair ffrwd waith wedi'u creu i gefnogi'r broses o roi'r model gweithio hybrid ar waith, a bod pob un ohonynt yn cael eu cadeirio gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac yn adrodd i Fwrdd Prosiect Ffyrdd o Weithio. Roedd y ffrydiau gwaith fel a ganlyn:

Cynllunio'r Gweithle – yn gyfrifol am ailgynllunio mannau gwaith i gynyddu cynwysoldeb, hyblygrwydd ac i gefnogi ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y gweithlu a chwsmeriaid.

Atebion Digidol – yn gyfrifol am adolygu a gwella atebion digidol i gefnogi cydweithio, gweithio hybrid, a gwell gwasanaeth i gwsmeriaid.

Polisïau, Gweithdrefnau a Datblygiad – yn gyfrifol am adolygu polisïau a gweithdrefnau presennol yn ogystal â datblygu rhai newydd i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.

Datblygwyd y Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro i ddarparu gwybodaeth fanwl am yr hyn yr oedd gweithio hybrid yn ei olygu i'r Cyngor. Byddai'n cefnogi gweithwyr a'u rheolwyr i roi gweithio hybrid ar waith drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth ymarferol, gan alluogi gweithwyr i weithio o'r swyddfa neu gartref yn effeithiol, yn gynhyrchiol ac yn ddiogel.

Y cynnig oedd y byddai'r polisi ar waith am gyfnod o 18 mis i ganiatáu i weithio hybrid gael ei dreialu wrth i'r rheolwyr a'n gweithlu nodi ffordd newydd effeithiol o weithio ar ôl y pandemig. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, byddai'r Polisi Gwaith Hybrid yn disodli'r polisi dros dro a byddai polisïau eraill yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben mewn tirlun newydd.

Bu'r polisi yn destun ymgynghoriad gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig a'r rhai a fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ddogfen o'r camau cynnar. Cafodd

eu hadborth a'r diwygiadau a awgrymwyd ganddynt eu cynnwys lle bo hynny'n briodol.

Amlinellwyd y prif benawdau polisi fel a ganlyn:

- Roedd statws hybrid yn fudd y gallai gweithwyr wneud cais amdano os oedd eu rolau wedi'u dynodi'n rai sy'n addas ar gyfer gweithio hybrid (Hybrid Hyblyg, Hybrid Cyfyngedig a Chrwydrol)
- Gallai gweithwyr sy'n gweithio'n hybrid ddewis mynd i'r gweithle (neu ganolfan) bob dydd, ond dim ond mynediad at ddesg boeth fyddai ganddynt, a hynny drwy system archebu desg.
- Er mwyn cael statws hybrid, rhaid i weithwyr ddangos neu gytuno i'r canlynol:
  - Cyflymder band eang digonol
  - Darparu'r offer angenrheidiol ar gyfer gweithio cynhyrchiol
  - Sicrhau y parheir i gadw gwybodaeth yn ddiogel
  - Amgylchedd gweithio diogel
  - Dychwelyd i'r gweithle os amherir ar y cysylltiad
  - Dim ond gweithio o leoliadau gweithio o bell sydd wedi'u cofnodi
  - Mynd i'r lleoliad gwaith os oes angen
- Dim newidiadau cytundebol yn ystod cyfnod y Polisi dros dro. Bydd y lleoliad gwaith a nodir yn y contract yn aros yr un fath ac ni fydd unrhyw gostau teithio ar gyfer mynd i leoliad gwaith neu ganolfan ddesg boeth.
- Dim lwfans gweithio o gartref yn daladwy gan mai trefniant gwirfoddol fydd hwn.
- Gellir tynnu statws hybrid yn ôl o dan amgylchiadau penodol.
- Bydd recriwtio/cyfweliadau yn rhithiol yn ddiofyn oni bai bod cyfiawnhad cryf dros gyfweliadau wyneb yn wyneb.

Pwrpas yr holl bolisïau a gweithdrefnau staff oedd nodi'r ymddygiad, y prosesau a'r gweithdrefnau yr oedd yn ofynnol i'r staff eu dilyn, sut y gallent gael cyngor neu gymorth a, lle bo'n berthnasol, canlyniadau peidio â chadw at y polisi a/neu'r weithdrefn.

Yn dilyn cwestiynau a sylwadau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gweithio Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Polisi Recriwtio a Dethol - Paragraff 3.1.1 – dylai rheolwyr llinell **anelu at** gynnal cyfweliadau yn rhithwir;
- Polisi Recriwtio a Dethol - Paragraff 3.1.2 – caniateir i'r rheolwyr llinell gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb os credant fod cyfiawnhad dros wneud hynny;
- Polisi Cydbwysedd Rhwng Bywyd a Gwaith - Paragraff 3.2.2 – dylai rheolwyr fonitro'r defnydd y maent yn ei wneud o e-byst a'r defnydd y mae eu timau yn ei wneud o e-byst rhwng 9pm a 6am er mwyn sicrhau nad oes pwysau ar staff i weithio y tu hwnt i'r oriau hyn.
- Argymhelliad bod adolygiad y gweithiwr yn cael ei gynnal ar ôl 6 mis.

4 **Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol**

Cynigiwyd y dylai'r Cyngor gyflwyno polisi bondiau corfforaethol er mwyn i swyddogion fod ag agwedd glir, deg a chyson at gymeradwyo a llunio bondiau gyda thrydydd partïon. Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau y gellir cael gafael ar fondiau'n hawdd a'u defnyddio'n hawdd os byddai angen, a bod bondiau a warantwyd gyda thrydydd partïon yn cael eu llunio â thrydydd partïon â statws credyd uchel yn unig er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor.

CYTUNWYD:-
(i) mai bond a geir mewn arian parod oedd dewis y Cyngor.
(ii) y byddai bond sy'n cael ei warantu gan drydydd parti yn
ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti fod â statws credyd A3 gyda Moody's neu statws credyd A- gyda Standard & Poor's neu Fitch.
(iii) argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Bondiau a Sicrwydd

5 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf.

6 **Blaenraglen Waith**

Cytunwyd ar y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar ystyried yr eitemau canlynol yng nghyfarfodydd y dyfodol:

- Y Cynnig Tai Cymunedol – bwrw ymlaen â rhoi'r cynnig ar waith ac ystyried unrhyw dir sydd ar gael gan y Cyngor i ddarparu tai.
- Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor – derbyn diweddariad am benderfyniadau'r Cyngor ar 03 Mawrth 2022:
  *"4.a) Lefel Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a godir i'w phennu ar 25% (yn dod i rym o 1 Ebrill 2017); a,*
  *b) bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol."*
  *b) Bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor rhwng y cyfnod 01/04/17 i 31/03/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
  *c) Bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor o 01/04/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
  *d) O 01/04/22, bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Cartrefi Gwag Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
  *e) Diddymu penderfyniad y Cyngor 16/03/17 cofnod 8.b) Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi.*
- Ffermydd y Sir
- Diweddariad am y defnydd o eiddo gwag o fewn yr Awdurdod
- Adroddiad ynghylch polisi / proses recriwtio'r Awdurdod wrth benodi a gwneud y Cyngor yn "gyflogwr o ddewis"
- Effeithiolrwydd TGCh a meddalwedd o fewn yr Awdurdod

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 3 Hydref 2022**

**Cadeirydd:__________________**

**Dyddiad:____________________**

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **3 Hydref 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid/Zoom** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/2023** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.
Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.
Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.
Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu

- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Dwynwen Jones |
| **Dynodiad:** | Swyddog Trosolwg a Chraffu |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 21.09.2022 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Adnoddau Corfforaethol*** | | | |
| 21 Mehefin 2022 | Fel yr ymddengys ar yr agenda | | |
| 3 Hydref 2022 | A.M.<br>Diweddariad Ffermydd y Sir<br><br>Adroddiad ar adeiladau gwag<br><br>P.M.<br>Adroddiad Blynyddol Canmoliaethau, Cwynion a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2021/2022<br><br>Polisi Ymgysylltu – Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd<br><br>Strategaeth mynd I'r afael a chaledi 2020-2023<br><br>Siarter Troseddau Casineb – Cymorth i Ddioddefwyr | | |
| 19 Rhagfyr 2022 | Adroddiad y Crwner 2022 | | |
| 17 Chwefror 2023<br>1.30pm | Paratoi'r cyllideb | | |
| 13 Mawrth 2023 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | • Diweddariad ar Clic<br>• Diweddariad ar Trefi SMART<br>• Diweddariad ar Cysylltedd Digidol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cynnig ai Cymuedol<br>• Treth y Cyngor – ail dai – Diweddariad a monitro penderfyniad y Cyngor, 03 Mawrth 2022: | | |